# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 13 MEDI 2017**<br>**am 2.00 o'r gloch** | | **WEDNESDAY, 13 SEPTEMBER 2017**<br>**at 2.00 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1**<br>**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**<br>**LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1**<br>**COUNCIL OFFICES**<br>**LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke**<br>**01248 752514** | **Committee Officer** |

**<u>Aelodau Annibynnol / Independent Members</u>**

Mrs Denise Harris-Edwards
Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Mrs Dilys Shaw
Mr Michael Wilson (Cadeirydd/Chair)
Sedd Wag/Vacant Seat

**<u>Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council</u>**

Y Cynghorydd/Councillor Trefor Lloyd Hughes MBE
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**<u>Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils</u>**

I'w llenwi/Appointments to be made

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

2 **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 10)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8fed Mawrth, 2017.

3 **CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 11 - 12)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro ynghylch (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

4 **PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 13 - 28)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro ar benderfyniadau diweddaraf OGCC yng Nghymru.

5 **PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 29 - 38)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro ar benderfyniadau diweddaraf PDC yng Nghymru.

6 **HYFFORDDI AELODAU** (Tudalennau 39 - 50)

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar sesiynau cynefino i Gynghorwyr Sir yn dilyn yr etholiadau a threfniadau ar gyfer hyfforddi Cynghorwyr Tref a Chymuned.

7 **ADRODDIAD BLYNYDDOL YR AELODAU** (Tudalennau 51 - 54)

Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar y wybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi am waith Cynghorwyr Sir.

8 **CANIATÂD ARBENNIG GENERIG/INDEMNIADAU** (Tudalennau 55 - 80)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro ar gael caniatâd arbennig generig i Gynghorwyr Sir er mwyn osgoi unrhyw geisiadau unigol yn ystod tymor y Cyngor cyfredol.

9 **ADOLYGIAD O GOFRESTRAU DIDDORDEBAU AELODAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 81 - 126)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro ar yr adolygiadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Safonau.

10 **ADOLYGIAD O'R TAIR COFRESTR O DDIDDORDEBAU'R CYNGHORWYR SIR** (Tudalennau 127 - 138)

Adroddiad gan y Swyddog Monitro ar yr adolygiad a gynhaliwyd o’r cofrestrau gan y Pwyllgor Gwaith eleni.

11 **AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU - SWYDD WAG ACHLYSUROL** (Tudalennau 139 - 142)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro ar y broses ddethol.

12 **AELODAU'R CYNGHORAU TREF A CHYMUNED AR Y PWYLLGOR SAFONAU - SWYDDI GWAG AWTOMATIG YN DILYN YR ETHOLIADAU** (Tudalennau 143 - 160)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro ar y sefyllfa gyfredol o ran penodi aelodau newydd.

13 **CANIATÂD ARBENNIG** (Tudalennau 161 - 224)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro ar weithgareddau Panel Caniatâd Arbennig y Pwyllgor Safonau.

14 **DATRYSIAD LLEOL AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 225 - 236)

I dderbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro ar Protocol Datrysiad Lleol Un Llais Cymru.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)<br>Mrs Denise Harris Edwards<br>Mrs Dilys Shaw |
| | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, MBE<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| | **Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Y Cynghorydd John Chorlton<br>Y Cynghorydd John Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod o’r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Medi 2016 yn gywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion -**

**Eitem 2**

**Cynghorau Tref a Chymuned - Gwefannau**

Holodd yr Is-Gadeirydd a yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymateb ynglŷn â’r camau a gymerir ganddo oni fydd Cynghorau Cymuned

wedi cydymffurfio â'r gofyniad i sefydlu gwefan. Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd wedi derbyn unrhyw gyfathrebiad hyd yma gan yr Ombwdsmon ynghylch y mater.

**Eitem 3**

**Y wybodaeth ddiweddaraf am Gofrestrau Ar-lein yr Aelodau**

Holodd yr Is-Gadeirydd a ellid gwneud cais ar y cyd am gyllid gydag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru i ddiweddaru'r ffurflen ar-lein ar gyfer Cofrestru Diddordeb yn y system Modern.Gov, a fyddai'n rhoi'r dewis i Aelodau roi eu manylion i mewn yn ddwyieithog yn y Gofrestr Gymraeg.

Ymatebodd y Swyddog Monitro trwy ddweud bod y Pensaer Gwasanaethau Digidol wedi dweud yn y cyfarfod diwethaf y byddai'n codi'r mater yn rhanbarthol yn y Grŵp Defnyddwyr Modern.Gov, yn y gobaith o gael cefnogaeth gan awdurdodau lleol eraill i ariannu system ddwyieithog ar draws Gogledd Cymru. Nodwyd bod y mater wedi ei drafod yn y cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Modern.Gov, ond yn anffodus nid oedd gan unrhyw awdurdodau eraill ddiddordeb yn y cynnig.

Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n siarad â Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor parthed ffurflen Cofrestru Diddordeb ar-lein ar gyfer Aelodau i holi a ellid gwneud cais am gyllid. Nodwyd y gall Aelodau lenwi'r ffurflenni'n ddwyieithog ar-lein, ond ni allant ond ymateb i gwestiynau sy'n ymddangos yn y Saesneg yn unig.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Swyddog Monitro yn codi'r mater gyda Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor i ganfod a oes unrhyw gymorth ariannol ar gael.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Pwyllgor Safonau, yn gofyn bod meddalwedd ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y pecyn pan ddaw'n amser adnewyddu'r contract Modern.Gov.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

**Eitem 4**

**Rhaglen Hyfforddiant ddrafft ar gyfer Aelodau Newydd ym Mai 2017**

Gofynnodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor Safonau yn cael rhybudd digonol o ddyddiadau sesiynau hyfforddi ym mis Mai i ganiatáu amser i'r holl Aelodau fynychu.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Cynllun Hyfforddiant ar gyfer Aelodau Etholedig wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2017 a bod y drafft cyfredol ar gael yn awr ar wefan y Cyngor.

## 3 CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics diweddaru ar gyfer (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorau Tref / Cymuned.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod cwyn arall wedi dod i law heddiw yn erbyn Cynghorydd Tref / Cymuned, a bod yr Ombwdsmon yn ystyried a yw'n werth ymchwilio i'r gŵyn.

Mynegwyd pryder gan Aelodau ynghylch yr amser a gymerwyd hyd yma i ymchwilio i gŵyn a wnaed ym Medi 2016 yn erbyn Cynghorydd Tref / Cymuned ac sy'n cael sylw ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod cynnydd yn cael ei wneud, ond nad oes gan yr Ombwdsmon amserlen benodol ar gyfer delio â'r ymchwiliad.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar natur y cwynion a wnaed yn erbyn Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref / Cymuned, ond cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod y wybodaeth hon dan embargo. Gofynnodd yr Aelodau eu bod yn cael eu diweddaru ynghylch datblygiadau mewn perthynas â'r cwynion y cyfeirir atynt yn y matrics.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn diweddaru Aelodau o'r Pwyllgor Safonau bob 3 mis drwy gyflwyno'r matrics cwynion diweddaraf ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r cwynion yr ymchwilir iddynt gan yr Ombwdsmon.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn rhoi dadansoddiad blynyddol i Aelodau o'r Pwyllgor Safonau ar natur y cwynion a gyfeirir at yr Ombwdsmon.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 4. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) a oedd yn cynnwys crynodeb o benderfyniadau diweddaraf Panel Dyfarnu Cymru a wnaed rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod un mater arall wedi ei benderfynu gan y Panel ers cyhoeddi'r rhaglen ar gyfer y Pwyllgor hwn, sef

ynglŷn â Chynghorydd o Gyngor Caerdydd. Bydd crynodeb o'r penderfyniad hwnnw'n cael ei gynnwys fel eitem ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Nododd y Pwyllgor fod y Panel Dyfarnu wedi cyfeirio mater yn ôl i'r Pwyllgor Safonau, gydag argymhelliad o ran cosb, ac roeddent yn pryderu efallai na fyddai Cynghorwyr yn mynd â materion i apêl pe bai'r dull hwn o ymdrin â chwynion yn dod yn gyffredin gyda chosbau llymach yn cael eu pennu ar apêl.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**
- **Anfon copi o'r adroddiad at Aelodau Etholedig.**
- **Anfon copi o'r adroddiad at Glercod y Cynghorau Cymuned a gofyn iddynt ei ddwyn i sylw eu Haelodau.**

**GWEITHREDU: Cynnwys penderfyniad a wnaed gan Banel Dyfarnu Cymru ar 2 a 3 Mawrth, 2017 ynghylch Aelod o Gyngor Caerdydd mewn adroddiad ar gyfer cyfarfod mis Medi 2017.**

**5. DIWEDDARIAD AR BRESENOLDEB YR OMBWDSMON YN FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ymweliad yr Ombwdsmon i Gyngor Sir Ynys Môn ar 17 Hydref 2016, pan fynychodd gyfarfod o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru. (Y Fforwm). Cafwyd cyflwyniad gan yr Ombwdsmon ac atebodd gwestiynau gan Aelodau'r Fforwm ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Cododd yr Ombwdsmon y materion canlynol yn ystod y drafodaeth: -

- Croesewid ymestyn y trefniadau Datrysiad Lleol i Gynghorau Tref / Cymuned.
- Mae nifer y cwynion am Gynghorau Sir wedi gostwng ond mae nifer y cwynion am Gynghorau Cymuned / Tref wedi cynyddu. Mae 3 Chyngor Cymuned yn gyfrifol am un o bob tair o'r holl gwynion am Gynghorau Tref / Cymuned.
- Parheir i ddefnyddio'r prawf dau gam a'i nod yw parhau i gael gwared ag unrhyw gwynion blinderus. Fodd bynnag, mae swyddfa'r Ombwdsmon yn derbyn mwy o gwynion.
- Mae'r rhan fwyaf o gyllideb yr Ombwdsmon wedi ei neilltuo ar gyfer ymchwiliadau iechyd, ond dywedodd yn glir na fyddai'n goddef bwlio, llygredd neu gamddefnyddio grym, h.y. torri'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau Etholedig.
- Mae'n credu bod Fforwm Pwyllgorau Safonau Cymru Gogledd o fudd i awdurdodau Gogledd Cymru, a byddai'n falch o gwrdd â'r Fforwm yn fwy rheolaidd os ystyrir y byddai gwneud hynny'n ddefnyddiol.

Codwyd cwestiwn gyda'r Ombwdsmon yn y Fforwm ynghylch a gynigir neu a drefnir hyfforddiant cyfryngu i Aelodau'r Pwyllgor Safonau yng ngoleuni'r gofyniad i wneud mwy trwy'r trefniant datrysiad lleol. Ymatebodd yr Ombwdsmon y byddai hyfforddiant yn fuddiol, yn enwedig felly i gefnogi Cynghorau Cymuned, ond nid oedd adnoddau ar gael i'w ariannu. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n trefnu i'r mater gael ei godi yng nghyfarfod nesaf y Fforwm.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod Un Llais Cymru yn datblygu Protocol Datrysiad Lleol drafft, i'w ddefnyddio gan Gynghorau Tref / Cymuned. Mynegodd yr Aelodau bryder nad oedd Un Llais Cymru yn ymgynghori gyda gwahanol bartïon cyn cwblhau dogfen o'r fath fel y gellid cynnwys unrhyw adborth yn y ddogfen ddrafft. Nodwyd y rhennir y Protocol gydag Aelodau cyn gynted ag y derbynnir y fersiwn derfynol gan Un Llais Cymru. Fodd bynnag, nodwyd ymhellach y byddai'r Pwyllgor Safonau wedi hoffi i Un Llais Cymru ymgynghori ag ef ar y drafft cyntaf.

Unwaith y bydd y Protocol Datrysiad Lleol wedi ei weithredu drwy Un Llais Cymru, dywedodd y Swyddog Monitro y gallai'r Pwyllgor Safonau gynnig cymorth ar sut i ddefnyddio'r Protocol i'r Cynghorau Tref / Cymuned hynny sydd â phŵer cymhwysedd cyffredinol.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r adroddiad.**
- **Dosbarthu copi o Atodiad 2 i Swyddogion Monitro awdurdodau eraill Gogledd Cymru.**
- **Bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn ceisio cadarnhad o'r trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.**
- **Bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn cysylltu ag Un Llais Cymru am eglurder ynghylch gyda phwy yr ymgynghorir ar y Protocol Datrysiad Lleol drafft cyn cwblhau'r ddogfen.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 6. DIWEDDARIAD AR FABWYSIADU CÔD YMDDYGIAD STATUDOL DIWYGIEDIG

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn rhoi diweddariad i Aelodau ar Gynghorau Tref / Cymuned yn mabwysiadu Côd Ymddygiad diwygiedig a gynhwysir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) 2016 (Cymru).

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod 'Mabwysiadu Côd Ymddygiad Diwygiedig' wedi ei drafod yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 14 Medi, 2016. 'Roedd yr adroddiad ysgrifenedig hwnnw'n

cadarnhau nad oedd 17 o Gynghorau Tref / Cymuned wedi ymateb i gais i gadarnhau eu bod wedi mabwysiadu'r Côd. Ar y pryd, cadarnhawyd bod 12 o'r 17 wedi bod mewn cysylltiad ers i'r adroddiad gael ei baratoi. Felly ‘roedd 5 o Gynghorau Tref a Chymuned nad oeddent wedi ymateb.

Cyfeiriwyd at Atodiad 1 yr adroddiad, sy'n amlygu mewn coch y Cynghorau Tref / Cymuned hynny sydd wedi ymateb ers paratoi’r adroddiad ysgrifenedig diwethaf; mae 1 Cyngor Cymuned wedi ymateb, ond nid yw wedi cadarnhau y dyddiad y mabwysiadwyd y Côd. Nid yw’r 3 Chyngor Cymuned a ganlyn wedi ymateb o hyd:

- Cyngor Cymuned Bodorgan
- Cyngor Cymuned Llangristiolus
- Cyngor Cymuned Rhoscolyn

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r adroddiad.**
- **Gofyn i'r Swyddog Monitro ysgrifennu ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i'r 3 Chyngor Cymuned sydd heb ymateb er mwyn eu hatgoffa o'r gofyniad i fabwysiadu'r Côd Ymddygiad diwygiedig, ac i ofyn iddynt anfon copi i'r Swyddog Monitro o gofnodion y cyfarfod lle gwnaed penderfyniad i fabwysiadu’r Côd**
- **Dylid anfon copi o'r llythyr uchod hefyd at yr Aelodau Etholedig lleol er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 7 DIWEDDARIAD AR Y CYFLWYNIAD A RODDWYD I’R FFORWM CYNGHORAU TREF / CYMUNED

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y cyflwyniad a roddwyd gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn y Fforwm Cynghorau Tref / Cymuned ar 24 Tachwedd 2016 mewn perthynas â 'Materion yn codi o'r Pwyllgor Safonau '.

Trafodwyd y materion canlynol yn y cyfarfod: -

- Mabwysiadu'r Côd Ymddygiad diwygiedig;
- Canllawiau’r Ombwdsmon ar y Côd Ymddygiad diwygiedig;
- Gofynion ar Gynghorau Tref / Cymuned mewn perthynas â chofrestru diddordebau personol;
- Adolygu’r Cofrestrau o Ddiddordebau;
- Cyflwyniad yr Ombwdsmon yn Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru;
- Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru.

Nodwyd bod Clerc y Fforwm wedi anfon copi o'r cyflwyniad at holl Aelodau’r Fforwm yn dilyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad a roddwyd (fel yn Atodiad 1 i'r adroddiad) a'r diweddariad o ran y camau gweithredu a gwblhawyd, fel y gwelwyd yn yr adroddiad.**

**Gweithredu: Dim**

## 8. DIWEDDARIAD AR GOFRESTRAU O DIDDORDEBAU CYNGHORAU TREF / CYMUNED

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref / Cymuned mewn perthynas â'u Cofrestrau o Ddiddordebau.

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau ar 14 Medi 2016 – ‘Adolygiad y Pwyllgor Safonau o Gofrestrau o Ddiddordebau a gedwir gan y Cynghorau Tref / Cymuned' – yn nodi nad yw rhai Cynghorau wedi ymateb i gais am gadarnhad ynghylch sut mae Cynghorau Tref / Cymuned yn cynnal eu Cofrestrau h.y. ar bapur a / neu ar-lein.

Ar 29 Medi 2016 anfonwyd gohebiaeth at Glercod y Cynghorau sydd heb ymateb. Anfonwyd gohebiaeth hefyd at Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ynys Môn sy’n cynrychioli’r ardaloedd lle lleolir y Cynghorau Tref / Cymuned hynny. Nodwyd bod y 5 Cyngor Tref / Cymuned nad oedd wedi ymateb wedi gwneud hynny bellach.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r adroddiad a'r ymatebion a gafwyd gan Gynghorau Tref / Cymuned.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at yr holl Gynghorau Tref / Cymuned yn nodi nad yw rhai cynghorau yn cyhoeddi eu Cofrestrau o Ddiddordeb ar lein ar hyn o bryd, a hynny’n groes i’r gofyniad statudol.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau yn ysgrifennu at Gynghorau Tref a Chymuned / ym Mawrth 2018 i gael diweddariad i ganfod pa Gynghorau sydd â gwefan.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 9 CYNGHORAU TREF / CYMUNED - GWEFANNAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y gofyniad statudol i bob Cyngor Tref / Cymuned gael presenoldeb ar y we a chyhoeddi gwybodaeth benodol ar eu gwefannau. Mae'r gofyniad hwn yn

berthnasol i'r Pwyllgor Safonau oherwydd gwnaed cwynion am dryloywder mewn Cynghorau Cymuned / Tref, yn enwedig mewn rhai Cynghorau Cymuned nad oes ganddynt adnoddau digonol.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar sefydlu pa Gynghorau Tref / Cymuned sydd â gwefan, ac a yw'r Cynghorau nad oes ganddynt wefan ar hyn o bryd yn bwriadu cydymffurfio.

'Roedd yr Aelodau'n pryderu bod rhai Cynghorau Tref / Cymuned angen cymorth i greu gwefan. Awgrymwyd y dylid gwneud cais i Un Llais Cymru i ofyn a fyddent yn codi'r mater ar raglen un o'u cyfarfodydd, a gellid anfon atynt ddolen gyswllt i'r adroddiad hwn ar wefan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran ymatebion y Cynghorau Tref / Cymuned (Atodiad 1 yr adroddiad);**
- **Nodi cynnwys Canllawiau Un Llais Cymru (Atodiad 2 yr adroddiad).**
- **Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Un Llais Cymru i ofyn a ydynt yn bwriadu rhoi cymorth i Gynghorau Tref / Cymuned sefydlu gwefannau (ar wahân i'r Canllawiau), neu'n bwriadu eu cynorthwyo i sefydlu dull cydlynol o weithredu?**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

**10 FIDEO'R OMBWDSMON I AELODAU ETHOLEDIG**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ynghylch pa Gynghorau Tref / Cymuned sydd wedi cadarnhau eu bod wedi dod â fideo newydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i sylw eu Haelodau Etholedig.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) y cafwyd e-bost ym mis Gorffennaf 2016 gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) gyda dolen i fideo newydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar You Tube. Anfonwyd y ddolen at Aelodau Etholedig y Cyngor Sir ar 21 Gorffennaf 2016. Anfonwyd copi o'r fideo hefyd at Glercod Cynghorau Tref / Cymuned yn gofyn iddynt ddwyn y fideo i sylw eu Haelodau Etholedig ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor i gadarnhau'r dyddiad yr edrychwyd ar y fideo. Hyd yn hyn, dim ond 3 Chyngor sydd wedi cadarnhau'r dyddiadau yr edrychwyd ar y fideo.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ynghyd â'r ymatebion a nodir yn Atodiad 1.**

**Gweithredu: Dim.**

## 11. STRWYTHUR RHEOLI

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn amgáu dogfen Strwythur Rheoli i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod y Pwyllgor Safonau, yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2016, wedi trafod fod rhai Aelodau Etholedig yn ansicr pwy oedd yn gyfrifol am wahanol faterion gweithredol o fewn y Cyngor. Mae dogfen Strwythur Rheoli (ar gyfer defnydd mewnol) wedi ei chreu sy'n cynnwys enw, manylion cyswllt a phrif gyfrifoldebau gweithredol pob Pennaeth Gwasanaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Nodwyd y trafodwyd y ddogfen ddrafft yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor Safonau ar 8 Rhagfyr 2016. Gofynnodd yr aelodau o'r Pwyllgor Safonau am i'r ddogfen gynnwys enw a manylion cyswllt Rheolwyr Canol, er mwyn sicrhau nad y Penaethiaid Gwasanaeth fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob mater. Fodd bynnag, casglodd y Penaethiaid Gwasanaeth y byddai hyn yn groes i Brotocol y Cyfansoddiad, sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion, ac felly gwrthododd y Penaethiaid Gwasanaeth y cais, ond caiff y mater ei adolygu cyn pen blwyddyn.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r adroddiad.**
- **Cadarnhau y cymeradwyir y ddogfen yn Atodiad 1.**
- **Cymeradwyo cyhoeddi ffurflen 'Manylion Cyswllt a Chyfrifoldebau Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth Cyngor Sir Ynys Môn' ar MonITor ar gyfer staff ac Aelodau'r Cyngor Sir.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 12. NODYN BRIFFIO I AELODAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED AR Y GOFYNION AR GYFER DATGELU A CHOFRESTRU DIDDORDEBAU PERSONOL

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) a oedd yn atodi Nodyn Briffio a ddosbarthwyd i Glercod Cynghorau Tref / Cymuned ar Rhagfyr 14, 2016 ar y gofynion statudol ar gyfer Cynghorwyr Tref / Cymuned i ddatgelu a chofrestru diddordebau personol.

Gofynnwyd i Glercod Cynghorau Tref / Cymuned ddod â'r Nodyn Briffio i sylw eu Haelodau ac anfon copi o gofnodion perthnasol y cyfarfod pan drafodwyd y mater. Gofynnwyd am gadarnhad o hynny erbyn 20 Chwefror 2017.

Yn ychwanegol at y 10 a nodir yn y tabl (Atodiad 2 o'r adroddiad), nodwyd bod 4 o Gynghorau Cymuned eraill wedi ymateb ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, sef Aberffraw, Bryngwran, Llanddyfnan a Phenmynydd.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r adroddiad a'r Nodyn Briffio yn Atodiad 1.**
- **Bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn ysgrifennu at Glercod y Cynghorau Tref / Cymuned yn gofyn iddynt ddod â'r Nodyn Briffio a'r Côd Ymddygiad diwygiedig i sylw eu Haelodau, pan fyddant yn llofnodi i dderbyn eu swydd yn dilyn etholiadau mis Mai. Bydd copïau o'r ddau ynghlwm wrth y llythyr.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

**MR MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin) – 2017/2018 – Quarter 1 (April – June)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| **Dim i'w adrodd / Nothing to Report** | | | | |

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill i Mehefin) - 2017/2018 – Quarter 1 (April to June 2017)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| Dim i'w adrodd / Nothing to Report | | | | |

EITEM 4

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **13 Medi 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod Ebrill 2016 i Ebrill 2017** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn cyhoeddi Llyfr Achosion o Gwynion Côd Ymddygiad unwaith bob chwarter.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan OGCC yn ei Lyfrau Achosion ar gyfer Ebrill 2016 i Ebrill 2017. Mae crynodeb o'r achosion ynghlwm yn **ATODIAD 1**

## 2. CEFNDIR

Mae gan yr Ombwdsmon bwerau "hidlo cychwynnol" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru o bosib wedi torri eu côd ymddygiad. Mae awdurdodaeth yr Ombwdsmon yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, bydd yr Ombwdsmon yn defnyddio ei brawf trothwy i benderfynu a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys bod yr Ombwdsmon yn fodlon:-

- Bod yna dystiolaeth sy'n awgrymu efallai fod y côd ymddygiad wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei bod er budd y cyhoedd i gynnal ymchwiliad agored iddo.

Pan fydd yn agor ymchwiliad, gall yr Ombwdsmon ddod i un o bedwar casgliad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000:-

(a) nad oes unrhyw dystiolaeth fod côd ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion oedd yn destun yr ymchwiliad;

(c) y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro yr awdurdod er mwyn i'r pwyllgor safonau ei ystyried;

(d) y dylid cyfeirio'r mater at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn i cael dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn fel arfer yn digwydd yn yr achosion mwy difrifol).

Os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol, bydd yr Ombwdsmon wedyn yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu i Banel Dyfarnu Cymru (PDC), a bydd wedyn yn fater i'r pwyllgor, neu i dribiwnlys achos o'r Panel, i gynnal gwrandawiad i ystyried y dystiolaeth ac i wneud y penderfyniad terfynol ynghylch p'un a dorrwyd y côd neu beidio, ac os torrwyd y côd, p'un a ddylid rhoi cosb, ac os hynny, pa gosb ddylai honno fod. Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i atal cynghorydd am gyfnod o ddim mwy na 6 mis. Nid oes gan bwyllgorau safonau unrhyw bwerau i wahardd, ac os yw'n canfod fod y côd wedi cael ei dorri, bydd yn ceisio defnyddio cosb sy'n briodol i'r drosedd. Yn aml bydd hyn ar ffurf cerydd (cerydd cyhoeddus) neu argymhelliad o ymgymryd â hyfforddiant/cyfryngu ac ati. Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i atal aelod am hyd at 12 mis ac i wahardd am hyd at 5 mlynedd.

Tra bod gan Banel Dyfarnu Cymru statws cyfreithiol fel tribiwnlys a'i fod wastad wedi cyhoeddi ei benderfyniadau (yn cynnwys unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau) nid oedd yr Ombwdsmon yn arfer cyhoeddi ei adroddiadau na'i ganfyddiadau, ond yn ddiweddar mae wedi cyflwyno'r Llyfr Achosion chwarterol sy'n darparu crynodeb o'r achosion. Bydd unrhyw beth a gyfeirir at y pwyllgor safonau ar gael ar wefan y cyngor hwnnw wrth gwrs.

## 3. ARGYMHELLIAD

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb sy'n cael eu hadrodd yn **ATODIAD 1**

**ATODIAD 1**

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Langstone | Roedd y Cynghorydd wedi cefnogi bod y Cyngor Cymuned yn ariannu gwaith a gynigiwyd gan wraig y Cynghorydd. | • Methiant i ddatgelu a thynnu allan o benderfyniad pan oedd ganddo ddiddordeb sy'n rhagfarnu<br>• Dwyn anfri ar rôl cynghorydd ac ar yr awdurdod<br>• Ceisio cael mantais | • Y Côd heb gael ei dorri | • Byddai'r Cynghorydd a gwraig y Cynghorydd wedi cael budd mewn perthynas â gwneud y gwaith. Fodd bynnag, byddai lefel y budd yn fychan (*"slight"*), mor fychan fel nad oedd yn creu diddordeb sy'n rhagfarnu ac roedd gan y Cynghorydd yr hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth. |
| Cyngor Cymuned Radur a Threforgan | • Rhoi pwysau ar y clerc i newid cofnodion cyfarfod<br>• Wedi pasio nodyn i aelod o'r cyhoedd yn gofyn i aelodau'r cyhoedd adael cyfarfod o'r Cyngor.<br>• Wedi cynhyrchu ei fersiwn ei hun o gofnodion y cyfarfod | • Methiant i ddangos parch ac ystyriaeth<br>• Bwlio | • Y Côd heb gael ei dorri | • Roedd y ddwy fersiwn o'r sgwrs gyda'r clerc am y cofnodion mor wahanol i'w gilydd fel ei bod yn amhosib cadarnhau'r honiad.<br>• O ran yr ail honiad daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod y Cynghorydd wedi gweithredu yn "annoeth" ond nad oedd yn gyfystyr â |

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Darpariaeth Berthnasol y Côd** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canfyddiadau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | thorri'r Côd<br>• Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y cofnodion a grëwyd gan y Cynghorydd yn anghywir a bod y broses o gynhyrchu'r cofnodion yn golygu bod y clerc wedi cael ei fwlio nac wedi effeithio ar ddidueddrwydd y clerc. |
| Cyngor Cymuned Radur a Threforgan | Datgelu gwybodaeth gyfrinachol | • Methiant i ddangos parch ac ystyriaeth<br>• Datgelu gwybodaeth gyfrinachol. | • Dim tystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol. | • Ychydig iawn, os o gwbwl, yw'r wybodaeth ffeithiol a ddarparwyd, dim ond bod yr Ombwdsmon wedi cynnal ymchwiliad ond ei fod wedi casglu nad oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad. |
| Cyngor Tref Llanilltud Fawr | Roedd Cynghorydd wedi mynd at aelod o'r cyhoedd ac wedi gweiddi arni ac ymddwyn mewn modd ymosodol. | • Methiant i ddangos parch ac ystyriaeth | • Dim camau i'w cymryd | • Efallai fod yr ymddygiad wedi torri'r Côd ond nid |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | • Anfri | | oedd er budd y cyhoedd i fynd ar ôl y mater gan fod y Cynghorydd wedi ymddiswyddo o'i swydd. |
| Cyngor Gwledig Llanelli | Roedd Cynghorydd wedi sefyll yn ffordd Cynghorydd arall ac wedi ymddwyn yn fygythiol at y Cynghorydd arall. Ymchwiliwyd i ymddygiad y ddau gynghorydd, gan ddefnyddio awdurdodaeth gynhenid yr Ombwdsmon. | • Methiant i ddangos parch ac ystyriaeth<br>• Anfri<br>• Bwlio | • Ni ddefnyddiwyd methiant i ddangos parch ac ystyriaeth a bwlio ac aflonyddu, fel sail i weithredu gan nad oedd yr un o'r ddau Gynghorydd yn gweithredu yn eu swydd gyhoeddus ar y pryd.<br><br>• Y ddau Gynghorydd wedi torri'r Côd Ymddygiad o ran dwyn anfri ond nid oedd er budd y cyhoedd i gyfeirio'r achos at y Pwyllgor Safonau neu PDC. | • Cynghorwyd y ddau Gynghorydd i ystyried eu hymddygiad yn y dyfodol a phetaent yn torri'r Côd eto, byddai'r Ombwdsmon yn dwyn i gof yr achos cynt hwn hefyd. |
| Cyngor Tref Cydweli | Ymddygiad amhriodol mewn digwyddiad. Honnir fod y Cynghorydd wedi meddwi, ei fod wedi gwneud sylwadau rhywiol amhriodol wrth nifer o ferched a'i fod wedi cyffwrdd ag un o'r merched | • Methiant i ddangos parch ac ystyriaeth<br>• Methiant i hyrwyddo | • Dim angen cymryd unrhyw gamau | • Er i Wasanaeth Erlyn y Goron ddwyn achos o ymosodiad rhywiol, ni wnaethant gynnig unrhyw |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | mewn ffordd rywiol amhriodol. | cydraddoldeb<br>• Anfri | | dystiolaeth a derbyniodd yr achwynydd ymddiheuriad cyhoeddus ffurfiol y Cynghorydd ei fod wedi meddwi ac efallai wedi ymddwyn yn amhriodol.<br><br>• Petai'r honiad o ymosodiad rhywiol wedi cael ei brofi, mynegodd yr Ombwdsmon y farn y byddai hynny wedi dwyn anfri ar y Cynghorydd a'i Gyngor. Fodd bynnag, gan nad oedd y dystiolaeth yn ddiymwad roedd hi'n annhebygol y byddai PDC yn defnyddio gwaharddiad, ac nid oedd modd ei atal mwyach gan fod yr aelod dan sylw wedi ymddiswyddo. Felly |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | nid oedd yr Ombwdsmon yn ystyried ei fod yn gam cymesur i gyfeirio'r mater at PDC. |
| Cyngor Cymuned Magwyr a Gwndy | Roedd y Cynghorydd wedi ceisio awdurdod gan y Cyngor i gynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol. Ar yr adeg y gwnaeth y cais, yn dilyn penderfyniad gan PDC, roedd y Cynghorydd wedi cael ei atal. Honnwyd nad oedd y Cynghorydd wedi dangos fawr o barch at benderfyniad PDC trwy gyflwyno'r cais pan wnaeth. | • Methiant i ddangos gwrthrychedd<br>• Anfri | • Dim tystiolaeth o dorri'r Côd | • Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod y Cynghorydd wedi ysgrifennu'r llythyr gyda'r bwriad o ofyn i gael gwasanaethu ar y pwyllgorau/cyrff allanol unwaith roedd ei gyfnod atal wedi dod i ben. |
| Cyngor Sir y Fflint | Cynghorydd wedi ceisio cael arian yn gyfnewid am gefnogi cais cynllunio. Honnodd yr achwynydd, pan oedd wedi gwrthod gwneud y taliad, fod y Cynghorydd wedi gwrthwynebu ei gais cynllunio | • Dyletswydd i gadw at y gyfraith<br>• Methiant i ddatgan diddordeb sy'n rhagfarnu mewn Pwyllgor Cynllunio | • Dim tystiolaeth o dorri'r Côd | • Nid oedd y dystiolaeth gan Heddlu Gogledd Cymru yn dangos bod unrhyw sail dystiolaethol i gefnogi'r honiad |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol i aelod o'r cyhoedd nad oedd gan unrhyw hawl | • Gwrthrychedd<br>• Datgelu gwybodaeth | • Y Côd heb gael ei dorri. | • Roedd yr ymchwiliad yn dangos nad oedd digon o dystiolaeth i |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | i dderbyn y wybodaeth. | gyfrinachol | | gefnogi'r honiad. |
| Cyngor Cymuned Langstone | Roedd Cynghorydd wedi defnyddio ei ddylanwad i achosi i'r Heddlu ymweld ag aelod o'r cyhoedd mewn ymgais i'w "rybuddio i beidio" mynd ar ôl cwynion am y Cynghorydd. | • Anhunanoldeb / stiwardiaeth<br>• Defnydd amhriodol o ddylanwad | • Y Côd heb gael ei dorri | • Credai'r Cynghorydd ei fod ef a'i deulu yn cael eu herlid ac nid oedd y dystiolaeth yn awgrymu ei fod wedi ceisio defnyddio ei statws fel Cynghorydd i ddylanwadu ar sut oedd yr Heddlu'n delio â'r mater. |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Roedd aelod o'r Pwyllgor Cynllunio wedi pleidleisio yn erbyn cais cynllunio ar dir oedd yn agos at gartref ei nai. | • Methiant i ddatgan diddordeb personol oedd yn rhagfarnu | • Wedi torri'r côd ond ddim angen camau | • Ymchwiliwyd i'r honiad a chasglwyd fod diddordeb personol ond nad oedd y diddordeb yn un oedd yn rhagfarnu. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Ar ddau achlysur roedd un Cynghorydd wedi galw Cynghorydd arall yn "*scab*" ac wedi gwrthod ymddiheuro ar y sail fod y datganiad yn ffeithiol gywir.<br><br>Yn ystod yr ymchwiliad, cafwyd tystiolaeth i ddangos nad oedd yr honiad yn wir ac fe dderbyniodd y | • Methiant i ddangos parch ac ystyriaeth | • Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod y Côd wedi cael ei dorri ond nad oedd angen camau ychwanegol | • Fe ganfu'r Ombwdsmon fod y Cynghorydd wedi cyfaddef ei chamgymeriad, ei bod yn fodlon ymddiheuro'n gyhoeddus am ei |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | Cynghorydd fod y modd yr oedd wedi ymddwyn wedi torri'r Côd Ymddygiad. | | | sylwadau a'i bod yn derbyn ei bod wedi torri'r Côd. Mae'n debyg i hyn effeithio'n fawr ar benderfyniad yr Ombwdsmon i beidio mynd ar ôl y mater ymhellach. |
| Cyngor Tref Cwmaman | Fe wnaeth Cynghorydd gymryd rhan mewn penderfyniad cynllunio (mewn swyddogaeth ymgynghorol) ac ni ddylai fod wedi cymryd rhan oherwydd diddordeb | • Datgelu a chofrestru diddordeb | • Dim angen cymryd unrhyw gamau | • Efallai fod y Cynghorydd wedi torri'r Côd Ymddygiad ond nid oedd er budd y cyhoedd i fynd ar ôl y mater. |
| Cyngor Cymuned Maenorbŷr | Roedd Cynghorydd wedi cymryd rhan mewn penderfyniad i argymell i'r ACLl y dylid gwrthod cais cynllunio. Roedd tŷ y Cynghorydd yn agos at y safle ac roedd wedi gwneud sawl cwyn am fusnes yr ymgeisydd ar y safle.<br><br>Roedd y Cynghorydd yn derbyn fod ganddi ddiddordeb personol ond yn gwadu fod ganddi ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu | • Datgelu a chofrestru diddordeb | • Yn debygol ei bod wedi torri'r Côd a chafodd y mater ei gyfeirio i'r Pwyllgor Safonau | • Oherwydd pa mor agos oedd cartref y Cynghorydd at y busnes, a'r hanes o gwynion, ystyriai'r Ombwdsmon ei bod yn debygol fod y diddordeb yn un a oedd yn rhagfarnu a chyfeiriodd y mater i'r Pwyllgor Safonau lleol. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad fod y Cynghorydd wedi torri'r Côd Ymddygiad pan oedd y diddordeb yn un personol ac yn un a oedd yn rhagfarnu, a chafodd y Cynghorydd ei hatal am ddeufis a byddai'n rhaid iddi gwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn chwe mis.<br><br>• Fe apeliodd y Cynghorydd yn erbyn y penderfyniad i PDC. Cytunai'r Panel fod y Cynghorydd wedi torri'r Côd ac fe gynyddodd y cyfnod atal i 3 mis |
| Cyngor Sir Fynwy | Cynghorydd wedi siarad mewn cyfarfod cyhoeddus i amddiffyn iaith sy'n sarhaus ar sail hil pan oedd hynny heb falais. Defnyddiodd enghreifftiau o iaith o'r fath yn y | • Cydraddoldeb<br>• Methiant i ddangos parch | • Y Côd Ymddygiad heb gael ei dorri | • Mae gan Gynghorwyr ddyletswydd i roi ystyriaeth wirioneddol i unrhyw |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | cyfarfod. | | | gynnig a gaiff ei wneud ac ni ddylai natur y cynnig dan sylw gyfyngu ar hynny, "waeth pa mor sensitif" yw. Byddai hynny'n amharu â rhyddid mynegiant. Ni wnaeth y Cynghorydd amddiffyn hiliaeth, nid oedd ei sylwadau yn amlwg yn hiliol ac nid oedd wedi'u targedu at unigolyn neu grŵp. |
| Cyngor Tref Tywyn | Roedd Cynghorydd wedi methu â datgan diddordeb personol a diddordeb oedd yn rhagfarnu mewn Pwyllgor Maes Carafanau pan oedd y Cynghorydd yn berchen maes carafanau gerllaw. | • Datgelu a chofrestru diddordebau | • O bosib wedi torri'r Côd ond ddim angen unrhyw gamau pellach | • Roedd y Swyddog Monitro wedi cynghori bod y diddordeb yn un a oedd yn rhagfarnu a chafodd cais y Cynghorydd am ganiatâd arbennig ei wrthod.<br><br>• Fe gyflwynodd y Cynghorydd ei lythyr ymddiswyddo ac |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ystyriai'r Ombwdsmon fod ei ymddygiad o bosib wedi torri elfennau o'r Côd, gan gynnwys methiant i roi ystyriaeth ddyledus i gyngor y Swyddog Monitro, methiant i ddatgan y diddordeb a methiant i adael yr ystafell gyfarfod. Fodd bynnag, yn wyneb ei ymddiswyddiad nid oedd angen unrhyw gamau pellach. |
| Cyngor Sir Powys | Roedd un Cynghorydd wedi mynd at Gynghorydd arall am sgwrs anffurfiol ond roedd gan y Cynghorydd a ddechreuodd y sgwrs ddiddordeb personol a diddordeb a oedd yn rhagfarnu. | • Datgan a Chofrestru Diddordebau | • Dim tystiolaeth o dorri'r Côd | • Roedd gan y ddau Gynghorydd fersiwn wahanol o'r digwyddiad ac nid oedd unrhyw dystion. Nid oedd modd cysoni'r gwahanol fersiynau. |
| Cyngor Tref Llangefni | Roedd Cynghorydd wedi torri'r Côd Ymddygiad oherwydd ei ymddygiad tuag at y clerc. | • Parch ac ystyriaeth | • Dim angen cymryd camau | • Dim tystiolaeth o dorri'r Côd mewn perthynas â dwy |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bwlio ac aflonyddu<br>• Anfri | | allan o dair elfen o'r gŵyn, ac nid oedd angen cymryd camau mewn perthynas â'r elfen arall. |
| Rhondda Cynon Taf | Roedd Cynghorydd wedi camddefnyddio ei swydd i ddylanwadu ar waith y byddai'r Adran Briffyrdd yn ei wneud am fod ganddo fendeta personol yn erbyn aelod o'r cyhoedd/achwynydd. | • Defnydd amhriodol o ddylanwad<br>• Defnydd amhriodol o adnoddau'r Cyngor | • Dim tystiolaeth o dorri'r Côd | • Yn dilyn yr ymchwiliad daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi defnyddio dylanwad amhriodol. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Ni fu cyfeiriad yma. Defnyddiodd yr Ombwdsmon ei awdurdodaeth gynhenid tra roedd yn ymchwilio i fater gwahanol.<br><br>Roedd y Cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth sensitif a phersonol ynglŷn â thrydydd parti wrth Gynghorydd arall ac wrth aelod o'r cyhoedd. | • Datgelu gwybodaeth gyfrinachol | • Yn awgrymu bod y Côd wedi cael ei dorri | • Roedd y Cynghorydd wedi cyfaddef ei fod wedi torri'r Côd ac roedd wedi gweithredu ar sail pryder ac wedi ymddiheuro am yr hyn a wnaeth, felly nid oedd er budd y cyhoedd i fynd ar ôl y mater ymhellach. |
| Cyngor Tref Aberystwyth | Roedd Cynghorydd wedi dweud wrth aelod o'r cyhoedd fod yr | • Parch ac | • Nid oedd er budd y | • Ni wnaeth wadu'r |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | achwynydd wedi cael ei atal. | ystyriaeth<br>• Datgelu gwybodaeth gyfrinachol<br>• Anfri | cyhoedd i fynd ar ôl y mater ymhellach | honiad ac roedd tystiolaeth o fethu â dangos parch ac ystyriaeth, datgelu gwybodaeth gyfrinachol a dwyn anfri ar y swydd. |
| Cyngor Tref Prestatyn | Methiant i ddatgelu diddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas â chais cynllunio. | • Datgelu a chofrestru diddordebau | • Diddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu, ond nid oedd er budd y cyhoedd i gymryd camau pellach | • Byddai'r cais cynllunio dan sylw wedi effeithio ar eiddo busnes y Cynghorydd.<br>• Fodd bynnag, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd y Cynghorydd wedi ceisio dylanwadu ar y penderfyniad er iddo leisio ei bryderon ynglŷn â mynediad i mewn/allan o'i eiddo busnes o ganlyniad i'r cais cynllunio. Nododd yr Ombwdsmon hefyd mai ymgynghorai oedd y Cyngor Tref yn hytrach na chyngor oedd yn |

| Enw’r Cyngor | Crynodeb o’r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o’r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwneud penderfyniad. Daeth yr Ombwdsmon i’r casgliad nad oedd goblygiadau mawr i’r hyn a wnaeth y Cynghorydd. Argymhellodd yr Ombwdsmon y dylai’r Cynghorydd fyfyrio ar ei ymddygiad a mynychu hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad. |
| Cyngor Tref Y Mwmbwls | **6 o gwynion**<br><br>Ymddengys bod y cwynion hyn wedi cael eu gwneud gan un aelod o’r cyhoedd yn erbyn chwech o Gynghorwyr Tref, am eu bod wedi methu â datgan diddordeb ac wedi cymryd rhan mewn penderfyniadau’n ymwneud ag ariannu sefydliad/sefydliadau elusennol yr oeddynt yn aelodau ohonynt. | • Methiant i ddatgan diddordeb, a chymryd rhan<br>• Defnyddio safle yn amhriodol | • Bu methiant i ddatgan diddordeb personol fel sy’n ofynnol dan y Côd, ond nid diddordeb a oedd yn rhagfarnu – ar wahân i ddau achos. | • Ni ddefnyddiwyd y safle yn amhriodol. Roedd diddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn dau achos lle roedd y Cynghorwyr yn dal swyddi rheoli o fewn yr elusen. Ystyriai’r Ombwdsmon nad oedd er budd y cyhoedd i fynd ar ôl unrhyw un o’r materion ymhellach am na chawsant |

**ATODIAD 1**

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaeth Berthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | unrhyw fantais personol, ac roedd yr aelodau wedi ymddiheuro ers hynny ac wedi cydnabod eu diddordebau. |

Eitem 5 ar y Rhaglen

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Medi 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am faterion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers 8 Mawrth 2017** |
| **ADRODIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /**<br>**Swyddog Monitro lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i honiadau fod aelod wedi methu â chydymffurfio gyda chôd ymddygiad eu hawdurdod; ac

2. Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau eu pwyllgorau safonau eu hunain eu bod wedi torri'r côd ymddygiad (ynghyd â phenderfynu a fydd caniatâd yn cael ei roddi i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a wnaed ac a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Safonau ar 8 Mawrth 2017. Fe'i bwriedir fel crynodeb ffeithiol o'r materion y penderfynwyd arnynt gan PDC. Adroddwyd ar ddau achos yn ystod y cyfnod dan sylw ac maent ar gael ar hyn o bryd ar wefan PDC

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Ceir crynodeb o'r achosion perthnasol yn **ATODIAD 1**. Yr achosion yw

### 2.1 Penderfyniadau a wnaed

14/3/2017- Cyngor Dinas Caerdydd – APW/002/2016-017/CT

### 2.2 Apeliadau a ddyfarnwyd

17/03/2017 – Cyngor Sir Powys – APW/003/2016-017/AT

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodebau o’r achosion.

**Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achosion – Mawrth 2017 – Awst 2017**

| Enw | Crynodeb | Darpariaeth/au Perthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Y Cyng Neil McEvoy, Cyngor Dinas Caerdydd | Honiad bod y Cynghorydd McEvoy wedi torri Côd Ymddygiad Cyngor Dinas Caerdydd oherwydd iddo, yn dilyn gwrandawiad llys ble yr oedd y Cynghorydd yn cynrychioli ei etholwr, ddweud wrth swyddog o'r cyngor/ym mhresenoldeb y swyddog o'r cyngor: "Fedra i ddim disgwyl tan fis Mai 2017 pan fydd y Cyngor yn cael ei ailstrwythuro".<br><br>Cyfaddefodd y Cynghorydd ei fod wedi dweud hyn a'r amgylchiadau ar y pryd ond gwadodd fod y sylwadau wedi cael eu gwneud fel bygythiad i swydd y swyddog a'i fod yn gyfystyr ag achos/achosion o dorri'r Côd. | 1. Methiant i ddangos parch ac ystyriaeth<br>2. Bwlio ac aflonyddu<br>3. Dwyn anfri ar y Cyngor/rôl Cynghorydd | Canfu'r Panel bod y Côd wedi ei dorri fel a ganlyn:-<br><br>1. Methiant i ddangos parch ac ystyriaeth. Daeth y Panel i'r casgliad bod y sylwadau wedi eu cyfeirio at y swyddog ac mai bwriad y sylwadau a'u heffaith, oedd gwneud i'r swyddog ofni am ei swydd.<br>2. Roedd y sylwadau a wnaed yn gyfystyr â bwlio. Daeth y Panel i'r casgliad y gall un digwyddiad fod yn gyfystyr â bwlio ond nad oedd yn gyfystyr ag aflonyddwch oherwydd nad oedd wedi digwydd eto.<br>3. Nid oedd y sylwadau wedi dwyn anfri ar rôl Cynghorydd na'r Cyngor - nid oherwydd y sylwadau eu hunain ond oherwydd y cyd-destun. Er y gwnaed y sylwadau gerbron tystion, ni chawsant eu gwneud mewn fforwm cyhoeddus. | **Pwyntiau dysgu ar gyfer aelodau etholedig**<br><br>• O ystyried y ffeithiau, achos syml oedd hwn ac mae'n bosib y gellid bod wedi ei ddatrys yn gynnar drwy ymddiheuriad/cyfryngiad.<br><br>• Fodd bynnag, roedd nifer o nodweddion a wnaeth bethau'n waeth a chymhlethu'r mater yn sylweddol. Mae'r Penderfyniad yn dweud yr ymddengys nad oedd y Cynghorydd wedi cydweithredu gydag ymchwiliad yr Ombwdsmon a'i wedi gwneud nifer o honiadau yn erbyn eraill, gan ddweud fod cymhelliant gwleidyddol i'r gŵyn a'i bod yn rhan o gynllwyn ehangach yn ei erbyn. Roedd yn honni bod y yr Ombwdsmon a'i Gyfarwyddwr Ymchwiliadau â rhagfarn oherwydd eu |

| Enw | Crynodeb | Darpariaeth/au Perthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Gwaharddiad am 1 mis** | cysylltiadau gwleidyddol , a bod y Panel ei hun â rhagfarn oherwydd natur ei broses penodiadau.<br><br>• Mae'n amlwg nad oedd y diffyg tystiolaeth i gefnogi'r honiadau hyn yn erbyn eraill a'r ffaith nad oedd gan y Cynghorydd ddealltwriaeth o natur amhriodol ei ymddygiad ei hun wedi gwneud argraff dda ar y Panel.<br><br>**Pwyntiau dysgu ar gyfer y Pwyllgor Safonau**<br><br>- Mae nifer o gwynion yn codi o fethiant honedig i ddangos parch ac ystyriaeth / bwlio ac aflonyddwch / dwyn anfri<br>- Dibynnodd y Panel ar y canfyddiadau yn achos <u>Heesom</u> v <u>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</u> [2014] EWHC 1504 (Gweinyddol). Mae paragraff 4.3.3 o benderfyniad y Panel a 5.3.3 yn ddefnyddiol. Dywedodd y Panel: "Ym marn y panel, nid oedd hawl y |

| Enw | Crynodeb | Darpariaeth/au Perthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cynghorydd McEvoy i ryddid mynegiant yn gwrthbwyso hawl y swyddog i beidio a bod yn destun sylwadau nad oedd yn eu haeddu neu'r budd i'r cyhoedd bod swyddogion y cyngor yn gallu cyflawni eu dyletswyddau".  Nid oedd y sylwadau'n gyfystyr â mynegiant gwleidyddol a swyddog rheng ganol yn y cyngor ydoedd, nid uwch swyddog.  Roedd y 2 ffactor hyn ynghyd â'r effaith ar y swyddog  yn arbennig o berthnasol i'r canlyniad y daethpwyd iddo bod y côd wedi ei dorri.  Er i'r Panel ddod i'r casgliad beth bynnag mai bwriad y Cynghorydd oedd codi ofn ar y swyddog oherwydd nid oedd i'r sylwadau unrhyw ystyr arall. **Roedd anghydbwysedd grym (h.y. hierarchaeth swyddi), rhyddid mynegiant gwleidyddol a'r budd cyhoeddus i swyddogion fedru cyflawni eu rôl a'u dyletswyddau cyhoeddus oll yn ffactorau yr oedd** |

| Enw | Crynodeb | Darpariaeth/au Perthnasol y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **angen eu pwyso a'u mesur wrth ystyried ffeithiau penodol achos.** |

**Crynodeb o'r Achosion yn y Tribiwnlysoedd Apêl – Mawrth 2017 – Medi 2017**

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Y Cyng Gary Price Cyngor Sir Powys | Roedd y Cyng Price yn aelod o Banel Apêl Cwynion y Cyngor ynghyd â dau aelod arall.<br><br>Yn dilyn gohirio'r achos dair gwaith yn flaenorol, penderfynodd y Panel, yn absenoldeb yr apelydd, fwrw ymlaen ac fe wrthodwyd yr apêl. Roedd y Cyng Price wedi cytuno i fwrw ymlaen yn absenoldeb yr apelydd ac roedd yn rhan o'r penderfyniad unfrydol i wrthod yr apêl.<br><br>Fodd bynnag, yn dilyn y gwrandawiad, ysgrifennodd at yr apelydd yn beirniadu'r ffaith bod y Panel wedi bwrw ymlaen ac yn honni ei fod wedi dod i farn ymlaen llaw. | • Methiant i ddangos parch ac ystyriaeth i'r ddau aelod etholedig arall ar y Panel; a hefyd i'r gweithiwr / apelydd a oedd i ffwrdd o'r gwaith oherwydd straen yn gysylltiedig â'r gwaith<br>• Bwrw anfri ar y Cyngor ac ar rôl Cynghorydd | • Cadarnhaodd y Tribiwnlys Apêl ganfyddiadau a phenderfyniad y Pwyllgor Safonau, sef bod ymddygiad y Cynghorydd yn dilyn y gwrandawiad yn gyfystyr â methiant i ddangos parch ac ystyriaeth i'w gyd-aelodau etholedig ar y Panel yn ogystal â'r gweithiwr. Gwnaeth hynny drwy ysgrifennu at yr apelydd yn tanseilio'r broses yr oedd ef ei hun wedi bod yn rhan ohoni.<br>• Daeth y Panel i'r casgliad bod y Cynghorydd, drwy anfon y llythyr, a rannwyd gydag aelodau eraill y Panel gan Gyfreithiwr yr apelydd, wedi bwrw anfri ar y Cyngor ac ar rôl Cynghorydd<br>• Fodd bynnag, roedd y Tribiwnlys Apêl o'r farn bod y gwaharddiad o bum mis y penderfyniad arno gan y Pwyllgor Safonau, yn rhy | **Pwyntiau dysgu ar gyfer aelodau etholedig**<br><br>• I fod yn arbennig o ofalus pan yn delio gyda materion lled-farnwrol yn enwedig lle mae hawliau a buddiannau unigolion yn y fantol a lle gallai'r canlyniad fod wedi bod yn llawer mwy sylweddol, h.y. ymgyfreithiad.<br>• Gellid bod wedi osgoi'r sefyllfa petai'r Cynghorydd wedi mofyn cyngor cyfreithiol neu gyngor AD ar gynnwys ei lythyr cyn ei anfon.<br>• Er bod y Cynghorydd wedi difaru ac wedi cydweithredu gyda'r ymchwiliad, daeth ei ymddiheuriad i'w gyd-aelodau yn rhy hwyr – serch hynny, dyna yn bennaf oedd rheswm y Tribiwnlys Apêl dros argymell i'r Pwyllgor Safonau bod y gosb yn cael ei lleihau o bum mis i dri mis.<br>• Mae'n annhebygol y gallai'r Cynghorydd, oherwydd iddo anfon y llythyr, fod wedi adfer |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | llym. Argymhellwyd bod y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Safonau gydag argymhelliad eu bod yn ailystyried y gosb ac yn gwahardd y Cynghorydd Price am dri mis yn lle'r pum mis gwreiddiol. | y sefyllfa'n llawn. Mae'n debygol y byddai wedi arwain at gŵyn / canfyddiad anffafriol / cosb. Serch hynny, gallai ymddiheuro i aelodau eraill y Panel a dweud bod yn edifar ganddo yn gynt yn y broses fod wedi arwain at waharddiad byrrach.<br><br>**Pwyntiau dysgu ar gyfer y Pwyllgor Safonau**<br><br>• Roedd yr amgylchiadau hyn yn anarferol a gall fod yn anodd dysgu llawer o'r achos hwn.<br>• Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad a wnaed gan y Tribiwnlys Apêl mewn perthynas ag Erthygl 10 yr ECHR yn ddefnyddiol er i'r Tribiwnlys ddod i'r casgliad nad oedd hyn yn fynegiant gwleidyddol rhydd (i fod yn deg â'r Cynghorydd, nid ymddengys ei fod wedi dadlau hynny beth bynnag) ac o'r herwydd nid oedd y penderfyniad yn achos <u>Calver</u> v Panel Dyfarnu Cymru v |

| Enw | Crynodeb o’r Ffeithiau | Darpariaeth berthnasol yn y Côd | Crynodeb o’r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn berthnasol.<br>• Mae’r Penderfyniad yn ddefnyddiol hefyd oherwydd y modd y mae’n dadansoddi nodweddion blinderus a lliniarol a all fod yn fodel defnyddiol ar gyfer achosion yn y dyfodol (proses nid sylwedd).<br>• Ymddengys bod un “anghysondeb” sef y mater o ddwyn anfri. Mae achosion eraill a Chanllawiau’r Ombwdsmon, yn dweud bod dwyn anfri’n ymwneud â chyhoeddiad ehangach. Cymharwch hyn, er enghraifft, gydag achos McEvoy uchod, lle gwnaeth y Cynghorydd ei sylwadau ym mhresenoldeb tri o dystion ond nid oedd hynny’n gyfystyr â bwrw anfri. Yn yr achos dan sylw, ysgrifennodd y Cynghorydd at weithiwr ac aeth y gweithiwr ati wedyn i anfon copïau ohono at y ddau aelod arall o’r Panel. Roedd posibilrwydd y byddai’n cael ei gyhoeddi’n |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth berthnasol yn y Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ehangach yng nghyd-destun ymgyfreithiad ond ni ddigwyddodd hynny. Mae'n anodd o'r herwydd cysoni'r penderfyniadau hyn o ran y modd y dylai Pwyllgorau Safonau ddehongli ystyr 'dwyn anfri'. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw achos o 'ddwyn anfri' a gafwyd o ganlyniad i gŵyn dan y Côd a chyfeirio'r gŵyn honno wedyn i Bwyllgor Safonau ac ati yn berthnasol oherwydd, wrth gwrs, mae'n 'post facto'. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 13 MEDI 2017 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGU AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | RHOI DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y RHAGLEN DATBLYGU AELODAU |

## 1 CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar gynnydd o ran y cyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau Etholedig ers yr etholiad ar 4 Mai 2017.

Datblygodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) Raglen Gynefino (ar ôl Mai 2017) ar gyfer Aelodau a oedd newydd eu hethol gyda mewnbwn gan Awdurdodau Lleol ac Aelodau Etholedig ar draws Cymru, sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol ac arfer orau.

Cafodd y cynllun hwn ei adolygu a'i addasu ar gyfer anghenion lleol gyda mewnbwn gan yr Uwch Swyddogion ac Arweinyddion Grwpiau er mwyn bodloni anghenion yr Awdurdod hwn.

## 2 CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd Cynllun Datblygu'r Awdurdod hwn ar gyfer 2017/2018 i'r Cyngor Llawn ac fe'i mabwysiadwyd ar 28 Chwefror 2017. Y bwriad yw i'r cynllun fod yn ddogfen sy'n esblygu a'i fod yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu anghenion Aelodau Etholedig a'r pwysau busnes sy'n newid (gweler atodiad 1).

Mae rhan gyntaf y cynllun wedi canolbwyntio ar gynefino Aelodau Etholedig newydd gyda'r Awdurdod, gan sicrhau bod gwybodaeth ynghylch prosesau/gweithdrefnau ynghyd â dealltwriaeth o'u rôl o ran Rhaglen Waith Llywodraethiant Corfforaethol a Strategol CSYM yn cael eu hegluro.

Rhwng mis Mai a Medi 2017 cynigiwyd cyfanswm o 20 o sesiynau datblygu ffurfiol (fel y manylir arnynt yn atodiad 2), o'r rhain, roedd 2 yn benodol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgorau Cynllunio a Sgriwtini, 5 yn sesiynau galw heibio ad-hoc (IPads). O'r sesiynau gweddilliol,

roedd cyfradd presenoldeb ar gyfartaledd yn 51.85% (gweler atodiad 3), ond nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys y sesiynau penodol y soniwyd amdanynt eisoes.

Bydd hyfforddiant IPads pellach yn cael ei ddarparu a sesiynau "galw heibio" ad-hoc yn cael eu trefnu i roi sylw i unrhyw anghenion unigol.

Yn ychwanegol at y sesiynau ffurfiol a gynhaliwyd, trefnwyd nifer o sesiynau briffio gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth/Swyddogion yn ystod y cyfnod hwn. (Nid yw manylion y sesiynau hyn wedi eu cofnodi ar gofnod hyfforddiant personol yr Aelodau Etholedig unigol yn y Gwasanaeth AD).

Yn dilyn pob sesiwn hyfforddiant, gwneir trefniadau i sicrhau bod manylion yr holl gyflwyniadau'n cael eu llwytho i fyny i'r rhan honno o MonITor (safle mewnrwyd y Cyngor) sydd ar gyfer yr Aelodau fel bod yr adnoddau hyn ar gael i gyfeirio atynt yn dyfodol petai eu hangen. Bydd unrhyw anghenion hyfforddi pellach yn cael eu cynllunio yn ôl yr angen unwaith y bydd adborth/gofynion mewn perthynas â'r anghenion hyn wedi eu derbyn gan yr Aelodau.

**E-Ddysgu**

Datblygiad newydd ar gyfer 2017 yw'r cyfle i Aelodau Etholedig gael mynediad i raglenni E-Ddysgu i'w cynorthwyo gyda'u datblygiad personol fel rhan o fenter Gweithio'n Gallach yr Awdurdod. Caiff y rhaglenni hyn eu datblygu gan Awdurdodau Lleol Cymru mewn cydweithrediad gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chânt eu cynnal drwy Academi Cymru Gyfan.

Disgwylir y bydd mynediad yn cael ei gylchredeg fel rhan o'r lansiad o Borth E-Ddysgu CSYM yn ystod mis Medi. Rhydd hyn fynediad i Aelodau Etholedig i adnoddau dysgu ehangach y Cyngor.

**Gwerthusiad**

Anogir Aelodau Etholedig i lenwi taflenni gwerthuso (gweler atodiad 4) er mwyn sicrhau y derbynnir adborth. Mae hyn o gymorth i sefydlu a yw'r hyfforddiant yn cwrdd ag anghenion yr Aelodau; nodi anghenion hyfforddiant ychwanegol a hefyd yn gweithredu fel ymarfer sicrhau ansawdd.

Yn ychwanegol at hyn, caiff manylion am yr hyfforddiant a gynigiwyd/a fynychwyd, ei gofnodi ar gofnod personol yr Aelodau, mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaeth ar adeg cynnal Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP).

Yn y pen draw, bydd cadw data o'r fath o gymorth i Aelodau Etholedig pan fyddant yn paratoi eu hadroddiadau blynyddol.

**Costau**

Caiff hyfforddiant ei ddarparu drwy gyfuniad o sesiynau a arweinir gan Swyddogion a chan ddarparwyr allanol. Hyd yma, mae costau wedi cael eu cyfyngu i luniaeth/llogi ystafelloedd/gwasanaethau cyfieithu.

## 3 ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (ADP) AR GYFER AELODAU

Mae hyfforddiant ar ADP wedi cael ei gynnwys ar y cynllun blynyddol ar gyfer ei ddarparu yn ystod rhan olaf y flwyddyn.

Yn unol â'r trafodaethau corfforaethol, cynhelir gwerthusiadau blynyddol staff yn ystod Ionawr/Chwefror, felly er mwyn cyd-fynd â'r trefniadau corfforaethol/dyraniadau cyllidebol, byddai'n briodol cynnal ADP o fewn yr un amserlen.

Mae Disgrifiadau Swydd ar gyfer rôl(rolau) yr holl Aelodau Etholedig wedi cael eu cylchredeg ac o'r herwydd, byddant yn ddefnyddiol ar gyfer y trafodaethau a gynhelir yn ystod yr adolygiadau.

## 4 CEFNOGAETH GAN GYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

Bu gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael gan CLlLC ac mae hynny wedi cael effaith uniongyrchol ar draws sawl maes gan gynnwys cefnogi a datblygu aelodau. Fodd bynnag, mae rhaglenni hyfforddiant cenedlaethol megis yr Academi Arweinyddiaeth a Mentrau Cynefino Rhanbarthol yn parhau i fod ar gael.

Caiff manylion am y cyfleon hyn eu cylchredeg fel a phan y maent yn dod i law.

## 5 CRYNODEB

Bydd y cynllun datblygu'n parhau i gael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r cynigion a gynigir i Aelodau Etholedig yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd. Bydd y Rheolwr Datblygu AD yn parhau i annog gwasanaethau i hysbysu'r Uned AD o unrhyw sesiynau briffio ad-hoc sydd wedi eu trefnu fel y gellir cynnwys y rhain hefyd ar y cynllun ac yng nghofnodiadau hyfforddiant personol yr Aelodau Etholedig.

## 6 ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd a wnaed o ran y Rhaglen Datblygu Aelodau.

**Miriam Williams**
**Rheolwr Datblygu AD**
**Medi 2017**

**Rhaglen cyflwyno CSYM i gynghorwyr (ar sail model CLILC) dros flwyddyn gan ddangos cyfleoedd i gyfuno hyfforddiant gorfodol yn ôl argaeledd adnoddau.**
**Bwriedir, lle bosib, cynnal y sesiynau hyfforddiant ar ddydd Iau/Gwener gan osgoi'r p'nawn Iau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau.**

****Wedi nodi dyddiadau/amseroedd lle posib****

| **Gweithgaredd** | **Cynulleidfa** | **Dull** | **Pryd** |
|---|---|---|---|
| Ymgynefino (Swyddfeydd y Cyngor a threfniadau cefnogaeth Aelodau) | Aelodau Etholedig Newydd | JHJ | **08/05/2017** |
| Cyflwyno'r cyngor, ei rôl a threfn ei lywodraethu a Rhaglen Waith Strategol | Pob Aelod Etholedig | Prif Weithredwr | **11/05/2017 & 18/05/2017** |
| Cyflwyno TGCh a'r offer yn cynnwys ymwybyddiaeth o Gyfryngau cymdeithasol ( i gynnwys Gweddarlledu) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddogion TGCh, sesiynau unigol. | **12/05/2017** |
| Cyflwyno'r amryw wasanaethau | Pob Aelod Etholedig | Pob uwch swyddog<br>(2 sesiwn x1 awr)<br>**11/5 a 18/5 rhwng 9.30 – 12.30yp** | **11/05/2017<br>&<br>18/5/2017** |
| Côd Ymddwyn a Moeseg | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddog Monitro.<br>**Lynn Ball 2 – 3yp** | **18/5/2017** |
| Materion cyfansoddiadol megis cymryd rhan mewn cyfarfodydd | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddog Monitro<br>**1/6 2 -4yp** | **05/06/2017** |
| Materion ariannol megis pennu cyllidebau a rheoli'r trysorlys | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Cyfarwyddwr Cyllid a dysgu electronig | **25/05/2017** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Materion cynllunio i gynghorwyr nad ydynt yn ymwneud â'r maes hwnnw – protocolau | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddogion Cynllunio/Aelod profiadol DFJ – sesiwn ar y cyd gyda Gwynedd **9.30yb – 12.30yp** | **1/6/2017** |
| Trefniadau newydd pwyllgorau cynllunio yn sgîl Deddf Cynllunio | Pwyllgor cynllunio **(M)** | Swyddog Cynllunio DFJ ar y cyd gyda Gwynedd **9.30yb – 12.30yp** | **1/6/2017** |
| Gofynion newydd o ran polisïau, gwasanaethau a'r gyfraith | Pwyllgorau perthnasol | Penaethiaid Gwasanaethau | **Sesiynau briffio yn cychwyn mis Mehefin** |
| Rôl Pwyllgorau Craffu | Pob Aelod Etholedig **(M)** | J Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd/Anwen G Davies, Swyddog Craffu dros dro | **05/06/2017** |
| Cadeirio Craffu (rheolaeth pwyllgorau a cyfarfodydd) | Cadeirydd pob pwyllgor craffu | Rebecca Davies-Knight Canolfan Craffu Cyhoeddus | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Archwilio | Pwyllgor Achwilio **(M)** | Swyddogion Cyllid | **25/05/2017** |
| Diogelu | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy - Cyfarwyddwr Addysg a Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â dysgu electronig. | **07/07/2017** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiantu Corfforaethol | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Deddf Tai | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Shân Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai & Jim McKirdle, Swyddog Polisi Tai, Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru. | **06/07/2017** |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Caroline Turner – Cynorthwydd Prif Weithredol<br>Alwyn Rhys Jones – Penaeth Gwasanaeth Oedolion & Llyr Bryn Roberts – Penaeth Gwasanaeth Dros Dro - Plant | **07/07/2017** |
| Penderfynu er lles cenedlaethau'r dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig. | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Rheoli data a Deddf Mynnu Gwybodaeth | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy a dysgu electronig. | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Cyflwyniad i Cydraddoldeb | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy swyddogion cydraddoldeb a dysgu electronig. | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Arwain cymuned a thrin a thrafod achosion | Pob Aelod Etholedig | Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd /aelod profiadol uchelradd/e- | **Medi 2017 ymlaen** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddysgu | |
| Datblygu Pwyllgor Gwaith newydd | Pwyllgor Gwaith | Hwyluswyr allanol | **Medi 2017 ymlaen** |
| Cynghorwyr Newydd, Heriau Newydd | Pob Aelod Etholedig | Pum gweithdy rhanbarthol gan CLILC – yn Llandudno | **03/11/2017** |
| Adolygiadau Cynlluniau Datblygu (CDP) ac Adroddiadau Blynyddol | Pob Aelod Etholedig | Swyddogion CLILC/Uwch Swyddogion | **Tachwedd 2017** |
| Sgiliau Cadeirio (rheolaeth cyfarfodydd) | Pob Cadeirydd | Hwyluswyr allanol/e-ddysgu | **Yr ail chwe mis** |
| Gwaith Consortia Addysg | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Staff Consortia | **Yr ail chwe mis** |
| Penodiadau, apeliadau a medrau cyfweld | Aelodau paneli penodi **(M)** | Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol | **18/09/2017** |
| Safonau | Pwyllgor safonau **(M)** | Swyddog Monitro | **Cyn y cyfarfod cyntaf** |
| Trwyddedu | Pwyllgor trwyddedu **(M)** | Swyddog Trwyddedu | **Cyn y cyfarfod cyntaf** |



**(M) = Mandadol**

**Bydd hyfforddiant pellach ar wybodaeth a sgiliau'n cael ei benderfynu o CDP pan fydd anwytho wedi ei gwblhau**

Atodiad / Appendix 2

| Mai / May 2017 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl Cwrs / Course Title** | Cyflwyniad I Wasanaethau'r Cyngor / Introduction to the Authority's Services | iPad** | iPad** | Cynllun Corfforaethol a Chôd Ymddygiad / Corporate Plan & Code of Conduct | Cyflwyniad I Wasanaethau'r Cyngor / Introduction to the Authority's Services | iPad** | Sesiwn Cyllid / Finance Session |
| **Dyddiad / Date** | 11/05/2017 | 12/05/2017 | 17/05/2017 | 18/05/2017 | 18/05/2017 | 18/05/2017 | 25/05/2017 |
| **Wedi Mynychu /Attended** | 21 | 12 | 7 | 25 | 14 | 7 | 16 |
| **Gwahoddir / Invited** | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 |
| **Ymddiheuriadau / Apologies** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| **Heb Fynychu / Non-Attendance** | 9 | 0 | 0 | 5 | 16 | 0 | 11 |


| Mehefin / June 2017 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl Cwrs / Course Title** | Sesiwn Briffio / Briefing Session | Cynllunio / Planning * | Datgan Diddordeb / Decleration of Interest (drop-in) | Craffu / Scrutiny * | Y Cyfansoddiad / The Constitution | Diweddaru Cofrestrau o Diddordeb / Updating Registers of Interest** | Diweddaru Cofrestrau o Diddordeb / Updating Registers of Interest** |
| **Dyddiad / Date** | 01/06/2017 | 01/06/2017 | 02/06/2017 | 05/06/2017 | 05/06/2017 | 12/06/2017 | 13/06/2017 |
| **Wedi Mynychu /Attended** | 17 | 10 | 7 | 19 | 18 | 0 | 0 |
| **Gwahoddir / Invited** | 30 | 11 | 30 | 19 | 30 | 30 | 30 |
| **Ymddiheuriadau / Apologies** | 0 | 1 | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 |
| **Heb Fynychu / Non-Attendance** | 13 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 |


| Gorffennaf / July 2017 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Teitl Cwrs / Course Title** | Deddf Tai / Housing Act | Diogelu / Safeguarding | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) / Social Services and Well Being (Wales) Act | Materion Cynllunio / Planning Matters |
| **Dyddiad / Date** | 06/07/2017 | 07/07/2017 | 07/07/2017 | 21/07/2017 |
| **Wedi Mynychu /Attended** | 15 | 7 | 16 | 11 |
| **Gwahoddir / Invited** | 30 | 30 | 30 | 30 |
| **Ymddiheuriadau / Apologies** | 7 | 13 | 9 | 11 |
| **Heb Fynychu / Non-Attendance** | 8 | 10 | 5 | 8 |

* Aelodau Pwyllgor yn unig / Committee members only

** Sesiynau galw / Drop in sessions

| | |
|---|---|
| Wedi Mynychu / Attended | 51.85 |
| Heb Fynychu / Not Attendec | 48.15 |




lix 3 -
odau Etholedig
Attendance
51.85
nychu / Not Attended

Atodiad/Appendix 4

# **Datblygu Aelodau / Member Development**

## **Teitl yr Hyfforddiant / Training Title**

## **Dyddiad / Date**

Enw / Name : …………………………………………………………………………………….

1. Beth ydych wedi'i ddysgu a fydd o gymorth i chwi fel aelod yn eich ardal?
   What have you learned that will help you in your role as a member in your ward?

   ……………………………………………………………………………………………....

   …………………………………………………………………………………………….

2. Beth ydych wedi'i ennill a fydd o gymorth i chwi fel aelod wrth drafod materion tu hwnt i'r plwy? (e.e. materion polisi y Cyngor ayyb).
   What have you gained that will help you as a member in relation to matters beyond your ward (e.g. Council policy matters etc.).

   …………………………………………………………………………………………….

   …………………………………………………………………………………………….

3. Sut fyddech yn mesur y profiad?
   How would you measure the experience?

| Ardderchog<br>Excellent | Da<br>Good | Iawn<br>Satisfactory | Gwael<br>Poor |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

4. Unrhyw sylwadau eraill
   Any other comments

   ……………………………………………………………………………………………

   ……………………………………………………………………………………………

   ……………………………………………………………………………………………

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Medi 2017 |
| **Teitl:** | Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau |
| **Awdur:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y trefniadau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol 2016/17. |

## 1.0 Cefndir

1.1 Mae Adran 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau mewn lle i Aelodau gyflwyno adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau.

## 2.0 Cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2015/16 a 2016/17

2.1 Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol gan yr holl Aelodau am 2015/16 ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin, 2016 ar y linc isod:

http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/adroddiad-blynyddol-gan-gynghorydd/

2.2 Yn dilyn etholiad y Cyngor Sir ym mis Mai, 2017 ail etholwyd 21 Aelod a 9 Aelod newydd. I'r pwrpas o gyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2016/17 gan Aelodau a ail etholwyd mae'r amserlen fel a ganlyn:

- Cylchredeg templed i'r Aelodau – **erbyn 1 Awst, 2017 ( gweler y templed ynghlwm)**
- Aelodau i baratoi adroddiadau drafft i'r Gwasanaethau Democrataidd – **erbyn 31 Awst 2017**
- Cwblhau a chyhoeddi adroddiadau ar wefan y Cyngor - **erbyn 30 Medi**, **2017**

## 3.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor:

3.1 nodi'r sefyllfa ynghylch cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau ar gyfer 2016/17

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**30 Awst 2017**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2016/17

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:**

**Grŵp:** **Ward:**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | [1]Ffigyrau Presenoldeb |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.

Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu .... cyfarfod (%).

| Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol: | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd | Nifer a fynychwyd |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**3 -  Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| Sesiynau Briffio Aelodau ( allan o  = %) | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

| | |
|---|---|
| | **Ebrill 2017** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Medi 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Caniatâd Generig – Indemniadau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Osgoi'r angen am unrhyw geisiadau unigol yn ystod tymor y Cyngor hwn** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor Sir ar gyfer Aelodau, mae unrhyw Aelod sydd â diddordeb sy'n rhagfarnu mewn eitem o fusnes wedi ei atal rhag cymryd rhan yn yr eitem honno. Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig a phenodol, efallai y bydd modd i Aelod oresgyn y rhwystr y mae'r diddordeb sy'n rhagfarnu yn ei greu os gall sicrhau caniatâd arbennig gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir.

## 2. Y BROSES

Rhaid i unrhyw Aelod sy'n dymuno cael caniatâd arbennig, gyflwyno cais ysgrifenedig, yn nodi'r rhwystr a'r sail dros ofyn am y caniatâd arbennig. Yna, bydd y Pwyllgor Safonau, neu Banel cyfansoddiadol o'r Pwyllgor Safonau, yn gwrando ar y cais. Fel arfer, cynhelir y Gwrandawiad yn gyhoeddus. Gall y Pwyllgor Safonau ddewis a ydyw am ganiatáu'r cais ai peidio a mynnu ar unrhyw gyfyngiadau fel sy'n briodol i amgylchiadau'r cais.

## 3. Y CAIS

Gwelir y Cais yn **Atodiad A** ac mae'r amgylchiadau y gofynnwyd am y caniatâd arbennig yn eu cylch wedi eu nodi ym mharagraff 6 yr atodiad hwnnw. Mae'r sail dros ofyn am y caniatâd arbennig wedi ei nodi ym mharagraff 7.

## 4. ARGYMHELLION

(a) caniatáu'r caniatâd arbennig generig fel y caiff ei eirio yn **Atodiad B**.

(b) bydd y caniatâd arbennig yn berthnasol i'r holl gyfarfodydd ar gyfer tymor nesaf y Cyngor sef Mai 2017 i Fai 2022.

**ATODIAD A**

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

## CAIS GAN AELOD O'R CYNGOR SIR I'R PWYLLGOR SAFONAU AM GANIATÂD ARBENNIG

| | |
|---|---|
| **Enw'r Aelod:** | Holl Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel yr oeddynt ym Mai 2017, neu ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Cyngor hwn hyd at fis Mai 2022 |
| **Manylion Cyswllt:** | Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |
| **Ward:** | Amherthnasol |
| **Natur y diddordeb sy'n rhagfarnu* y mae'r Caniatâd yn cael ei geisio amdano:** | • Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu Polisi Indemniadau fel yr ymddengys yn **ATODIAD 1**<br>• Mae'r Polisi yn galluogi aelodau, mewn rhai amgylchiadau, i gyflwyno ceisiadau i'r Cyngor am indemniad ar gyfer eu costau cyfreithiol. Mewn gwirionedd, bydd hyn fel arfer yn ymwneud â chostau a gawsant wrth amddiffyn honiadau a wnaed dan y Côd Ymddygiad.<br>• Mae'r Cyngor wedi dirprwyo ei bwerau i wneud penderfyniadau i'r Is-Bwyllgor Indemniadau.<br>• Rhaid i unrhyw aelod sy'n dymuno gofyn am indemniad, gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Is-Bwyllgor a bydd yr Is-Bwyllgor wedyn yn cyfarfod i drafod y cais.<br>• Gall yr Ymgeisydd gyflwyno eu cais mewn un o dair ffordd:-<br><br>1. Gofyn i'r Is-Bwyllgor ystyried y cais yn seiliedig ar y papurau yn unig;<br>2. Rhoi cyfarwyddyd i'w cynrychiolydd cyfreithiol i gyflwyno'r cais ac ateb unrhyw gwestiynau; neu<br>3. Ymddangos yn bersonol i gyflwyno eu cais ac ateb unrhyw gwestiynau<br><br>• Petai aelod yn dewis ymarfer yr hawl i fynychu'n bersonol, fel y mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd, byddant yn torri'r Côd Ymddygiad oherwydd byddai'r cyfuniad o'u cais a'u presenoldeb yn y cyfarfod, yn creu diddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu. Mae copi o'r Côd, gyda'r rhannau perthnasol ohono wedi eu hamlygu, ynghlwm yn **ATODIAD 2**.<br><br>• Gallai'r sefyllfa hon achosi rhagfarn i unrhyw aelod sy'n dymuno ymarfer eu hawl i ymddangos gerbron yr Is-Bwyllgor Indemniadau, yn enwedig o ystyried y ffaith na fydd modd adennill unrhyw gostau cyfreithiol a gafwyd cyn hynny; |

| | |
|---|---|
| | • Nid yw'r polisi ond yn darparu ar gyfer indemniad o'r adeg y mae'r Is-Bwyllgor yn caniatáu unrhyw indemniad. Nid oes ganddo unrhyw bwerau ôl-weithredol.<br><br>• Yr unig ffordd i osgoi'r canlyniad annheg o bosib hwn, yw i'r Pwyllgor Safonau roddi caniatâd arbennig. Fel Swyddog Monitro, rwy'n cyflwyno'r cais hwn i'r Pwyllgor safonau am ganiatâd generig ar ran holl aelodau cyngor Sir Ynys Môn ac, wrth gwrs, ni fyddai ond yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau lle byddai hynny'n angenrheidiol.<br><br>• O'r herwydd, cyflwynwyd y cais hwn er budd holl aelodau'r Cyngor Sir. Wrth gwrs, mae ceisiadau am indemniadau'n brin ac mae'n annhebygol y byddai unrhyw ganiatâd generig a roddwyd yn cael ei ddefnyddio gan fwy nag ond ychydig o aelodau ar y mwyaf. Fodd bynnag, argymhellir y dull ymarferol hwn er mwyn osgoi cyfres o geisiadau unigol gyda phob un ohonynt yn dibynnu ar yr un sail statudol.<br><br>• Gellir cyflwyno cais am indemniad mewn perthynas â chwyn dan y Côd Ymddygiad ar unrhyw adeg wedi i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) benderfynu cynnal ymchwiliad. Ar hyn o bryd, yn achos aelodau'r Cyngor Sir, nid yw OGCC yn ystyried unrhyw faterion.<br><br>• Cafodd caniatâd arbennig ei roddi ar gyfer yr un mater ac yn yr un modd ym mis Medi 2013. |
| **Busnes y mae'r Aelod yn dymuno cymryd rhan ynddo:** | Unrhyw gais y bydd aelod efallai'n dymuno ei gyflwyno gerbron yr Is-Bwyllgor Indemniadau. |
| **Math o ganiatâd y gwneir cais amdano (ticiwch yn ôl yr angen a nodwch unrhyw wybodaeth angenrheidiol):** | ✓ ysgrifennu at swyddogion ~~[a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor]~~ ynglŷn â'r mater;<br>✓ siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater ~~[ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn Ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [ ]; ar yr amod y cofnodir unrhyw drafodaeth o'r fath~~;<br>~~○ siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater~~;<br>~~○ aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ar y mater;~~<br>~~○ pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny~~;<br>✓ arall – siarad ac ateb unrhyw gwestiynau, ond peidio â thrafod na phleidleisio, mewn unrhyw gyfarfod o'r Is-Bwyllgor Indemniadau |
| **Sail Statudol y gofynnir caniatâd amdano (Gweler dros y dudalen am y mathau gwahanol)** | Awgrymir mai'r sail dros ryddhau caniatâd arbennig dan Reoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 yw:- |

| | |
|---|---|
| | 2.(d) "bod natur diddordeb yr aelod o fath sy'n golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod i'r busnes y mae wnelo'r diddordeb ag ef, yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r awdurdod perthnasol yn cyflawni ei fusnes."<br><br>2.(f) "gellir cyfiawnhau cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae wnelo'r diddordeb ag ef oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod"<br><br>• Dyma rai ffactorau perthnasol y bydd y Pwyllgor efallai dymuno eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid caniatáu'r cais hwn ai peidio yn unol â'r seiliau statudol a atgynhyrchir uchod:<br><br>- Mae Polisi'r Cyngor yn adlewyrchu deddfwriaeth sy'n caniatáu rhoddi indemniadau mewn rhai amgylchiadau.<br><br>- Mae angen lefel sylweddol o wybodaeth er mwyn i'r Is-Bwyllgor Indemniadau fedru penderfynu ar gais, gan gynnwys cyfiawnhad manwl am y costau a ragwelir ac asesiad o rinweddau'r achos.<br><br>- Bydd y Swyddog Monitro (neu berson a enwebwyd ganddi) yn paratoi adroddiad gydag unrhyw gais a gyflwynir i'r Is-Bwyllgor Indemniadau a bydd y Swyddog Monitro hefyd (neu berson a enwebwyd ganddi) a'r Swyddog Adran 151 (neu berson a enwebwyd ganddo) yn mynychu'r Is-Bwyllgor yn bersonol i gynghori'r aelodau.<br><br>- Bydd unrhyw indemniad a roddir yn cynnwys cafeatau a darpariaethau crafangu yn ôl yn unol â'r ddeddfwriaeth.<br><br>- Ni fyddai'r ymgeisydd ond yn mynychu'r cyfarfod i gyflwyno ei achos ac ateb cwestiynau. Byddai angen iddynt adael y cyfarfod er mwyn i'r Is-Bwyllgor drafod y cais a phleidleisio yn breifat.<br><br>• I grynhoi, mae bwriad deddfwriaethol clir i ganiatáu indemniadau mewn amgylchiadau priodol ac mae mesurau diogelu digonol yn bodoli o fewn y system i warchod "hyder y cyhoedd" (2.(d))<br><br>• Mae'n amlwg mai dim ond yr ymgeisydd fedr gyflwyno ei gais/chais yn deg ac yn ddigonol ac ateb cwestiynau a byddai mynnu ar gael cynrychiolaeth gyfreithiol yn rhoi'r Aelod dan anfantais ariannol oherwydd ni fyddai modd adennill y costau hynny dan y Polisi (2.(f)) |
| **A yw'r budd wedi'i gofrestru yn unol ag Adran 81(1) a (2) DLIL 2000:** | Na – amherthnasol |
| **Dyddiad y mae angen gwneud** | Dim brys. Y cyfarfod arferol nesaf o'r Pwyllgor Safonau. |

| | |
|---|---|
| **penderfyniad erbyn:** | |

| | |
|---|---|
| Llofnod: | Dyddiad: 6 Medi 2017 |

* Diddordebau sy'n rhagfarnu – Diddordebau personol yw'r rhain y byddai sylwedydd gwrthrychol yn eu hystyried mor sylweddoli eu bod yn debygol o gyfaddawdu gallu aelod i weithredu er lles y cyhoedd.

**Amgylchiadau pryd y Caniateir i Bwyllgor Safonau Roi Caniatâd Arbennig**

Mae Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn nodi y caniateir i Bwyllgor Safonau'r Cyngor roi caniatâd arbennig yn unol ag Adran 81(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000:

(a) os oes gan ddim llai na hanner Aelodau'r Cyngor neu Bwyllgor o'r Cyngor (fel sy'n berthnasol) a fydd yn ystyried y busnes, ddiddordeb sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner Aelodau Pwyllgor Gwaith y Cyngor (h.y. yr Arweinydd a'r Pwyllgor Gwaith) a fydd yn ystyried y busnes, ddiddordeb sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) os byddai anallu Aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod a fydd yn ystyried y busnes i'r fath raddau y byddai hynny'n effeithio'r canlyniad;

(d) os yw natur diddordeb yr Aelod o fath sy'n golygu y byddai cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(e) os yw'r diddordeb yn gyffredin i'r Aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(f) os oes cyfiawnhad i'r Aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r diddordeb yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr Aelod

(g) os yw'r diddordeb cofrestredig y mae'r diddordeb yn berthnasol iddo i'w ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor ac nad yw diddordeb yr aelod yn un ariannol;

(h) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r Aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac eithrio fel cynrychiolydd y Cyngor ac nad oes gan yr Aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ganiatâd arbennig yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(i) os yw'n ymddangos i'r Pwyllgor Safonau ei bod o les i drigolion ardal y Cyngor y dylid gwneud i ffwrdd â'r anallu, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y caniatâd arbennig yn cael ei ganiatáu yn cael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod. Fe ddylai hysbysiad o'r fath nodi'r Aelod y bydd y caniatâd yn berthnasol iddo a rhesymau'r Pwyllgor Safonau dros wneud i ffwrdd â'r anallu; neu

(j) mae'n ymddangos i'r pwyllgor y byddai'n briodol rhoi'r caniatâd arbennig, fel ateb ymarferol i anallu (gwendid) yr Aelod a fyddai fel arall yn ei gwneud hi'n anodd iddynt adael yr ystafell / siambr pan fydd mater y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo yn cael ei drafod.

**<u>CYNGOR SIR YNYS MÔN</u>**

**<u>PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â CHAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN AELOD O'R CYNGOR SIR</u>**

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau:** | **13 Medi 2017** |
| **Enw'r personau y dylid eu hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben:** | **8 Mai 2022** |

Yn unol â pharagraff [ ] Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu rhoi **caniatâd arbennig** i'r Cynghorydd [ ] mewn perthynas â'r diddordeb hwnnw / diddordebau hynny y cyfeirir ato / atynt yn nhudalen 1 y Cais, sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:

- ysgrifennu at swyddogion ~~[a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor]~~ ynglŷn â'r mater;
- siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater ~~[ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn Ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [ ]; ar yr amod y cofnodir unrhyw drafodaeth o'r fath~~;
- ~~siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater~~;
- ~~aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth drafodaeth/bleidlais ar y mater;~~
- ~~pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny~~;
- arall

Mae gan y Cynghorydd felly hawl i siarad [a phleidleisio] yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor mewn perthynas â'r mater ac ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor [ond rhaid iddo/iddi adael yr ystafell cyn bod y materion y mae'r Cynghorydd yn siarad arnynt yn cael eu trafod a'u pleidleisio arnynt] NEU
[a gall aros yn yr ystafell yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater ond ni chaiff bleidleisio ar y mater].

Cyn i'r Cynghorydd siarad â, neu ysgrifennu at, swyddogion y Cyngor, neu siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ar y mater, mae'n rhaid i'r Cynghorydd :-

- ddatgan diddordeb yn y mater; a
- cadarnhau bod caniatâd arbennig wedi ei roi er mwyn caniatáu i'r Cynghorydd siarad [a phleidleisio] ar y mater; a
- chwblhau hysbysiad i'r Clerc yn manylu ar y diddordeb a'r caniatâd arbennig.

Drwy awdurdod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiedig:______________________________

ATODIAD A1

# Cyngor Sir Ynys Môn

# POLISI INDEMNIADAU AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION

# Fersiwn 1.0 (5 Mawrth 2013)

**Am y polisi hwn**

- Mae'r Cyngor yn meddu ar y disgresiwn i ganiatáu indemniadau ar gyfer costau cyfreithiol i aelodau ac/neu swyddogion, mewn rhai amgylchiadau
- Rhaid i unrhyw gais fodloni'r gofynion gweithdrefnol sydd wedi eu nodi yn y polisi
- Bydd unrhyw gais a dderbynnir ac sy'n cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol dan y polisi, yn cael ei benderfynu gan yr Is-Bwyllgor Indemniadau, sy'n is-bwyllgor o'r cyngor llawn
- Fel arfer, bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod yn breifat. Mae'r polisi hwn yn nodi'r broses y dylid ei dilyn yn y gwrandawiad.
- Mae'r polisi'n nodi'r cyfyngiadau y gellir eu gosod ar unrhyw indemniad a ganiateir, yr amgylchiadau lle gellir caniatáu indemniad ac unrhyw ddarpariaethau ar gyfer ad-daliad yn amodol ar gasgliad y trafodaethau

**Hanes Adolygu**

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
|---|---|---|
| 1.0 | 5/3/2013 | |

| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | |
|---|---|
| Adolygir y Polisi hwn yn: | Ionawr 2018 |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Swyddog Monitro |

**Manylion cyswllt:**

**Lynn Ball - Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**
**lynnball@ynysmon.gov.uk / ffôn: 01248 752586**

Byddwn yn falch o ddarparu'r polisi hwn ar ffurfiau eraill. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## Y POLISI A'R WEITHDREFN AR GYFER INDEMNIADAU

**Materion yn ymwneud â Cheisiadau ar gyfer Indemniadau a Phenderfynu arnynt yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau i Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006**

### A. Gweithdrefn

1.1 Defnyddir y weithdrefn hon pan fo Cyngor Sir Ynys Môn ("y Cyngor") yn derbyn cais ("y Cais") gan Aelod neu Swyddog o'r Cyngor ("yr Ymgeisydd") am indemniad yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau i Aelodau a Swyddogion)(Cymru) 2006 ("y Gorchymyn") gyda'r Cyngor wedi mabwysiadu pwerau'r Gorchymyn hwnnw trwy benderfyniad dyddiedig 12 Mai 2011.

1.2 Lle rhoddir indemniad bydd yn cyd-fynd â gofynion a chyfyngiadau'r Gorchymyn sy'n rhoi'r hawl i roi indemniad.

### 2. Y Cais

2.1 Fe all y Cais am indemniad osod allan unrhyw faterion y mae'r Ymgeisydd yn eu dymuno ond rhaid iddo gydymffurfio gyda'r anghenion lleiaf canlynol (lle bo'n berthnasol i'r Cais).

2.1.1 Rhaid iddo fod yn ysgrifenedig ac wedi'i gyfeirio i Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y Cyngor.

2.1.2 Rhaid iddo fod wedi'i arwyddo gan neu ar ran yr Ymgeisydd.

2.1.3 Rhaid iddo nodi'r swm y ceisir yr indemniad amdano.

2.1.4 Rhaid nodi enw a chyfeiriad y Cyfreithiwr gyflogwyd gan yr Ymgeisydd yn y mater lle ceisir cael indemniad ("y Mater"). Rhaid rhoi enw'r Cyfreithiwr unigol sy'n delio â'r mater ynghyd ag unrhyw berson arall sy'n ennill ffi ac a fydd yn delio gyda'r mater ynghyd â'u cyfraddau costau yn ôl yr awr neu ffi a gytunwyd a chrynodeb o'u profiad ym maes gwaith y Mater.

2.1.5 Nodi unrhyw fargyfreithiwr a gyflogwyd gan yr Ymgeisydd yn y Mater ynghyd â'r cyfraddau fesul awr y cytunwyd arnynt neu'r ffi briff y cytunwyd arni i'w cyflogi. At hyn, rhaid rhoi manylion am brofiad y bargyfreithiwr ym maes gwaith y Mater.

2.1.6 Nodi unrhyw dyst arbenigol neu unrhyw dyst arall y bydd yr Ymgeisydd yn talu ei g/chostau wrth ddelio gyda'r Mater ynghyd â manylion am y costau hyn yn ôl cyfraddau fesul awr, ffi gytunedig neu amcangyfrif o'r costau, fel bydd yr achos.

2.1.7 Rhoi rhyw syniad o gyfanswm y costau tebygol i'r Ymgeisydd wrth ddelio gyda'r Mater.

2.1.8 darparu manylion yr achos o blaid ac yn erbyn yr Ymgeisydd fel y gellir gwneud asesiad rhesymol o rinweddau'r mater cyn penderfynu ar y Cais.

2.1.9 rhoi sylw i'r materion hynny yn y Gorchymyn sy'n rhwystro neu'n cyfyngu rhoi indemniad, gan wneud hynny'n ddigon manwl fel y gall y Cyngor fodloni ei hun bod caniatáu indemniad yn disgyn o fewn y pwerau a roddir gan y Gorchymyn.

2.2 Er gwaethaf yr uchod, gall y Cyngor (yn gweithredu yn y lle cyntaf trwy ei Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol) ofyn am ragor o wybodaeth ar y mater gan yr Ymgeisydd os yw'n credu nad oes ganddo ddigon o wybodaeth i benderfynu'n briodol ar y Cais yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn.

2.3 Ni roddir unrhyw indemniad mewn perthynas ag unrhyw gostau a gafodd yr Ymgeisydd cyn cyflwyno cais i'r Cyngor y mae'n rhaid iddo gydymffurfio gyda gofynion Rhan 2 yma.

2.4 Nid yw unrhyw benderfyniad ar Gais yn rhwystro'r Ymgeisydd rhag cymryd unrhyw gamau y gwêl yn ddoeth wrth roi sylw i'r mater, yn amodol ar unrhyw delerau y gellir rhoi indemniad arnynt.

3 <u>Penderfynu'r Cais</u>

3.1 Cyfrifoldeb yr Is-Bwyllgor a sefydlwyd gan y Cyngor llawn i'r pwrpas hwnnw fydd penderfynu ar y Cais.

3.2 Cynhelir cyfarfod o'r Is-Bwyllgor ("y Cyfarfod") cyn gynted ag y bo modd i benderfynu ar y cais ar ôl derbyn Cais sy'n cydymffurfio gyda gofynion paragraff 2 uchod. Os oes angen, cynhelir y cyfarfod yn breifat gyda'r wasg a'r cyhoedd wedi eu cau allan.

3.3 Yn y Cyfarfod bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno gan y Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol ynghyd â chopi o'r Cais.

3.4 Mae'n bosib, os yw'r Ymgeisydd yn Aelod, y bydd ganddo ef (neu hi) ddiddordeb sy'n rhagfarnu a fydd yn golygu na chaiff ef (neu hi) fynychu'r cyfarfod. Gall yr ymgeisydd ystyried a gofyn am i'r Cais gael ei drin fel a ganlyn yr Is-Bwyllgor:-

3.4.1 fel Cais papur yn unig yn unig heb unrhyw sylwadau ar ran yr Ymgeisydd,

3.4.2 trwy gyflwyniad byr ar y Cais ar ran yr Ymgeisydd (er enghraifft gan eu cyfreithiwr) neu

3.4.3 trwy gyflwyniad byr gan yr Ymgeisydd ar yr amod, os oes gan yr Ymgeisydd ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn y Mater, ei fod/bod wedi cael caniatâd arbennig yn gyntaf gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor yn caniatáu iddo/iddi fynychu'r Cyfarfod a gwneud eu sylwadau yn unol â thelerau unrhyw ganiatâd o'r fath.

3.5 Os yw'r Ymgeisydd yn gofyn am yr hawl i wneud cyflwyniad (un ai ei hun neu gan gynrychiolydd) yn y Cyfarfod bydd raid dilyn y drefn isod:

3.5.1 Cyflwynir yr adroddiad ysgrifenedig i'r Cyfarfod,

3.5.2 Rhoddir caniatâd i'r Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd wneud cyflwyniad byr i gefnogi'r Cais,

3.5.3 Gall Aelodau (neu swyddog) ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu i gynrychiolydd yr Ymgeisydd a gellir eu hateb,

3.5.4 Gall yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd wneud datganiad byr i gloi,

3.5.5 Bydd Aelodau yn trafod y cais yn absenoldeb yr Ymgeisydd a'r cynrychiolydd,

3.5.6 Bydd Aelodau yn penderfynu ar y cais (yn amodol ar ddarpariaethau paragraff 3.7 isod) gyda golwg ar unrhyw fater, cyfyngiad neu amod sy'n codi o'r Gorchymyn neu o'r Polisi hwn ac a all fod yn berthnasol i amgylchiadau'r Cais.

3.5.7 Bydd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd yn derbyn rhybudd ysgrifenedig o'r penderfyniad a wnaed cyn gynted ag y bo modd.

3.6 Ar yr amod bod yr Is-Bwyllgor yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar y cais, yna bydd yn penderfynu'r cais. Bydd raid cefnogi unrhyw benderfyniad gyda rhesymau a bydd raid cofnodi'r rhesymau hynny.

3.7 Os yw'r Is-Bwyllgor yn credu bod angen rhagor o wybodaeth cyn y gall benderfynu ar y Cais, bydd yn ceisio cael y wybodaeth honno gan yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd yn y Cyfarfod. Onid yw'r wybodaeth honno ar gael yn ystod y Cyfarfod, bydd yr Is-Bwyllgor yn gohirio'r cyfarfod wedi iddo nodi a chofnodi'r wybodaeth sydd raid wrthi. Ailgynhelir y Cyfarfod cyn gynted ag y bo modd ar ôl derbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

## B. <u>Amodau a Chyfyngiadau ar Delerau unrhyw Indemniad a Roddir</u>

4.1 Bydd gan yr Is-Bwyllgor ddisgresiwn llwyr ynghylch telerau, natur, hyd ac/neu gyfyngiadau a roddir ar unrhyw indemniad i'r Ymgeisydd ac eithrio y bydd unrhyw indemniad a roddir i Aelod i amddiffyn honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad yn destun cap o hyd at £20,000 (ugain mil o bunnoedd). Bydd unrhyw indemniad a roddir yn amodol ar delerau neu gyfyngiadau fel y gwêl yr Is-Bwyllgor yn ddoeth, a chan gymryd i ystyriaeth amgylchiadau pob mater unigol ac unrhyw gyngor a roddir gan y Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol yn y Cyfarfod.

4.2 Heb ragfarn i gyffredinolrwydd paragraff 4.1 uchod, gellir rhoi indemniad i'r Ymgeisydd yn amodol ar un neu ragor o'r cyfyngiadau isod:

4.2.1 Cap ar y swm ariannol a indemnir a bod y swm a delir yn cynnwys TAW,

4.2.2 Cyfyngiad ar gyfraddau a godir gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr fesul awr neu gyfraddau unrhyw berson arall y mae eu costau yn rhan o’r Cais,

4.2.3 Ni fydd symiau a indemnir ond yn cael eu talu i’r Ymgeisydd mewn rhandaliadau ariannol penodol, yn unol â meini prawf neu amodau a osodwyd gan yr Is-Bwyllgor fel rhan o’r penderfyniad ar y Mater,

4.2.4 Dim ond rhai costau arbennig fydd yn cael eu hindemnio,

4.2.5 NI fydd indemniad yn cael ei dalu (neu ran o indemniad) ond ar ôl cyflwyno i’r Cyngor anfonebau gyda derbynebion ar gyfer costau a nodwyd yn y Cais,

4.2.6 Rhaid cael caniatâd neu gyngor ymlaen llaw gan berson penodol (fel y Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol neu gwnsler annibynnol) neu rhaid i’r Ymgeisydd gymryd unrhyw gam a benodwyd mewn perthynas â’r Mater cyn y telir y cyfan neu ran neu gyfran o’r indemniad.

## C. <u>Telerau Cyffredinol yr Indemniad</u>

1. Yn amodol ar yr uchod ac unrhyw delerau, amodau neu gyfyngiadau a benderfynir neu a osodir mewn unrhyw achos penodol gan yr Is-Bwyllgor, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn indemnio pob aelod a swyddog o’r Cyngor yn erbyn hawliad, atebolrwydd neu golled ac/neu ddifrod mewn perthynas ag unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu gan unrhyw aelod neu swyddog a:-

(a) Mae wedi’i awdurdodi gan y Cyngor; neu

(b) Mae’n rhan o, neu’n codi o unrhyw bwerau a roddwyd neu ddyletswyddau a osodwyd ar yr aelod neu’r swyddog o ganlyniad i unrhyw swyddogaeth a weithredir gan yr aelod neu’r swyddog (p’un a ydyw’r aelod neu swyddog, wrth weithredu’r swyddogaeth honno, yn gwneud hynny yn rhinwedd ei swydd fel aelod neu swyddog o’r Cyngor)

(i) ar gais neu gyda chaniatâd diamwys y Cyngor; neu

(ii) i ddibenion y Cyngor

Ac eithrio na thelir costau amddiffyn hawliad o’r fath a gafwyd cyn bod Cais am indemniad yn llwyddiannus.

Heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr indemniad (uchod) mae’r indemniad yn ymestyn i gamau:-

(a) a gymerwyd dan bwerau dirprwyol;

(b) a gymerwyd yn bersonol dan unrhyw ddarpariaeth statudol benodol fel y Pennaeth Gwasanaeth Taledig, Prif Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro, Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997.

(c) a gymerwyd mewn Partneriaethau, trefniadau cydweithio anffurfiol, sefydliadau elusennol, cwmnïau (beth bynnag fo'u cyfansoddiad) pan fo'r aelod neu'r swyddog yn gwasanaethu fel cynrychiolydd y Cyngor ar y cyrff hyn.

(I bwrpas yr indemniad mae "aelod" yn cynnwys pobl annibynnol a chyfetholedig sy'n eistedd ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor).

**2. Amodau a Chyfyngiadau sy'n berthnasol i'r Indemniad**

**A. <u>Ewyllys Da</u>**

Rhaid i aelod neu swyddog sy'n dibynnu ar yr indemniad:-

(i) Credu bod y weithred, neu'r methiant i weithredu, dan sylw o fewn pwerau'r Cyngor
neu

(ii) Pan fo'r weithred neu'r methiant i weithredu yn golygu cyhoeddi neu awdurdodi unrhyw ddogfen ac ynddi ddatganiad ynghylch pwerau'r Cyngor perthnasol, neu unrhyw ddatganiad yn dweud y cymerwyd rhai camau neu y cyflawnwyd rhai gofynion, yn credu bod cynnwys y datganiad hwnnw yn gywir;
a
yn y naill achos neu'r llall, ei bod yn rhesymol i'r aelod neu'r swyddog gredu hynny ar y pryd pan y bu i'r aelod neu'r swyddog weithredu neu fethu gweithredu.

Bydd y Cyngor yn rhoi'r indemniad mewn perthynas â gweithred neu fethiant i weithredu os cesglir wedyn bod y weithred neu'r methiant i weithredu y tu draw i rym yr aelod neu'r swyddog dan sylw, ond dim ond i'r graddau bod yr aelod neu'r swyddog yn credu'n rhesymol bod y weithred neu'r diffyg gweithredu dan sylw o fewn grym yr aelod neu'r swyddog ar yr adeg pryd y bu i'r aelod neu'r swyddog fethu gweithredu.

**B. <u>Adennill costau</u>**

Os rhoddir indemniad i unrhyw aelod neu swyddog mewn perthynas ag amddiffyn unrhyw achos neu achosion troseddol sy'n honni y torrwyd y côd ymddygiad yna:-

(i) Mewn perthynas ag achos troseddol, os ceir yr aelod neu'r swyddog yn euog o drosedd, yna bydd raid ad-dalu i'r Cyngor neu i'r yswirwyr unrhyw symiau a wariwyd gan y Cyngor neu ei yswirwyr mewn perthynas â'r achos hwnnw.

(ii) Os yw'r achos yn ymwneud â honiad yn erbyn aelod o dorri'r cod ymddygiad:-

(a) Os cesglir bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio gyda'r côd ymddygiad (neu os yw'r aelod wedi cyfaddef hynny) ac, o ganlyniad, mae'r aelod yn cael ei atal/hatal, ei atal/hatal yn rhannol neu ei (h)anghymwyso, yna bydd raid ad-dalu i'r Cyngor neu ei yswirwyr y symiau a wariwyd gan y Cyngor;

(b) Yn achos honiad ynghylch torri'r côd ymddygiad ac os cesglir bod aelod wedi methu a chydymffurfio gyda'r côd ymddygiad (neu wedi cyfaddef hynny) ac, o ganlyniad, os yw'r aelod yn cael cerydd neu'n cael rhyw gosb arall yn hytrach na'i atal/ hatal, ei atal/hatal yn rhannol neu anghymhwyso / hanghymwyso yna, os yw'r Pwyllgor Safonau yn credu bod hynny'n briodol, rhaid ad-dalu i'r Cyngor neu ei yswirwyr y symiau a wariwyd gan y Cyngor neu ei yswirwyr.

Os bydd angen gwneud ad-daliad bydd hyn yn cynnwys unrhyw TAW a dalwyd fel rhan o'r swm a indemniwyd.

**C. Difenwi**

Nid yw'r indemniad hwn yn ymestyn i aelod neu swyddog yn **gwneud** unrhyw honiad mewn perthynas â difenwad honedig yr aelod neu'r swyddog hwnnw.

**D. Swyddog Canlyniadau**

Nid yw'r indemniad hwn yn berthnasol i waith a swyddogaethau'r Swyddog Canlyniadau.

**E. Egwyddorion Cyffredinol**

(i) Bydd y Cyngor yn rhoi i'r aelod neu'r swyddog fynediad rhesymol a chymesur at weithwyr ac adnoddau'r Cyngor a chyfleusterau fel bod modd i'r swyddog unigol neu'r aelod unigon ymateb yn briodol i honiadau o atebolrwydd personol;

(ii) Bydd y Cyngor yn caniatáu cynrychiolaeth gyfreithiol i aelod neu swyddog ar wahân i ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor ei hun (ac/neu ymgynghorwyr cyfreithiol yr yswirwyr) lle gall diddordebau'r Cyngor a'r unigolyn wrthdaro neu mewn amgylchiadau eraill lle cytunwyd rhwng y Cyngor a'r swyddog unigol neu'r aelod unigon bod cynrychiolaeth gyfreithiol ar wahân yn briodol.

(iii) Ni fydd y Cyngor yn ceisio adennill gan unrhyw aelod neu swyddog unigol unrhyw golledion a gafodd y Cyngor o ganlyniad i weithredu neu fethiant i weithredu gan yr aelod neu'r swyddog dan sylw ac eithrio:-

(a) Lle nad oedd yr aelod neu'r swyddog dan sylw yn credu'n rhesymol bod y weithred neu'r methiant i weithredu dan sylw o fewn ei rym ar yr amser pryd digwyddodd y weithred neu'r diffyg gweithredu, neu

(b) Lle roedd y weithred neu'r methiant i weithredu yn dramgwydd troseddol.

## 5.1 Côd Ymddygiad i Aelodau

Dyma'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 12.05.2016

**Rhan 1 – Dehongli**

1. (1) Yn y cod hwn

mae "aelod" ("member") yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "aelod cyfetholedig" ("co-opted member"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond -

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-Bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd is-Bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-Bwyllgor hwnnw;

ystyr "eich awdurdod" ("your authority") yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("relevant authority") yw -

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

ystyr "cofrestr o fuddiannau'r aelodau" ("register of members' interests") yw'r gofrestr a sefydlir ac a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "cyfarfod" ("meeting") yw unrhyw gyfarfod -

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, Is-Bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-Is-Bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(ch) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 ,

ac mae'n cynnwys amgylchiadau lle mae aelod o weithredaeth neu fwrdd neu swyddog yn gweithredu ar ei ben ei hun yn cyflawni swyddogaeth awdurdod

ystyr "chi" ("you") yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol.

(2) Mewn perthynas â chyngor cymuned—

(a) ystyr "swyddog priodol" ("proper officer") yw swyddog o'r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; a

(b) ystyr "pwyllgor safonau" ("standards committee") yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Rhan 2 - Darpariaethau Cyffredinol**

2. (1) Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn -

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(ch) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

3. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu -

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

4. Rhaid i chi -

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson;

(ch) beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran; a

(d) mynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y côd ymddygiad hwn yn ystod pob tymor llawn yn y swydd ac, yn achos yr aelodau hynny sydd wedi cael eu hethol i'r Cyngor Sir am y tro cyntaf a'r rheiny sydd wedi cael eu hailethol ond nad ydynt wedi treulio cyfnod di-dor yn y swydd, rhaid iddynt fynychu'r hyfforddiant yn ystod y chwe mis yn dilyn eu hethol.

5. Rhaid i chi -

(a) beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) beidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

6. (1) Rhaid i chi -

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) roi gwybod i swyddog monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r côd ymddygiad hwn;

(ch) beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

7. Rhaid i chi -

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) beidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio -

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

8. Rhaid i chi -

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan -

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a arfaethir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodir gan eich awdurdod.

9. Rhaid i chi -

(a) barchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

**Rhan 3 - Buddiannau**

Buddiannau Personol

10. (1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r côd ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef -

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt -

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a gawsoch wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu waith a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw -

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod

ac yn berthnasol i (aa) i (dd), yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

[Sylwer: mae isbaragraff (b) wedi cael ei adael allan] -

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio -

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y  mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

ac yn berthnasol i (i) i (v), a hynny i raddau mwy -

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

Datgelu Buddiannau Personol

11. (1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud -

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o
leiaf -

(a) manylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r côd hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r côd hwn.

Buddiannau sy'n Rhagfarnu

12. (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn amodol ar (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw -

(a) yn gysylltiedig -

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) â chorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â'ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol yr ydych yn un o'i llywodraethwyr;

(v) â'ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig:

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dad-cu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Deddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg amser llawn, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael, taliad o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir yn unol â darpariaethau Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, neu lwfans neu bensiwn a ddarperir o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymunedol mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r esemptiadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys os yw'r busnes yn gysylltiedig â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini

13. Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath ) -

(a) os bydd y busnes hwnnw’n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p’un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o’r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu’r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a’ch bod chi’n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

Cyfrannu mewn Perthynas â Datgelu Buddiannau

14. (1) Yn amodol ar is-baragraffau (2), (2A) (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod -

(a) ymadael â’r ystafell, y siambr neu’r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal -

(i) pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i’r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy’n ymwneud â’r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o’r busnes ddechrau, p’un a ganiateir i’r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i’r amlwg bod y busnes hwnnw’n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â’r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(ch) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p’un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â’r busnes hwnnw; a

(d) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p’un ai’n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â’r busnes hwnnw neu rhaid i chi roi’r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw’r buddiant sy’n rhagfarnu i’r amlwg.

(2) Os oes gennych fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch fod yn bresennol mewn cyfarfod ond dim ond er mwyn gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy’n ymwneud â’r busnes, ar yr amod y caniateir hefyd i’r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i’r un diben, p’un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(2A) lle mae gennych ddiddordeb sy’n rhagfarnu ym musnes yr awdurdod, gallwch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gyfarfod mewn perthynas â’r busnes hwnnw ar yr amod y caniateir i’r cyhoedd fynychu’r cyfarfod i bwrpas gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth am y busnes p’un a yw’n statudol ai peidio.

(2B) wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig dan baragraff (2A), rhaid i chi gydymffurfio gydag unrhyw weithdrefn y gall eich awdurdod ei mabwysiadu ar gyfer cyflwyno sylwadau o’r fath.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfod -

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod o bwyllgor trosolwg neu sgriwtini, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau’n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod â chaniatâd arbennig ar yr amod -

(i) eich bod yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod a bod hwnnw'n cynnwys -

(aa) manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion y busnes y mae'r diddordeb sy'n rhagfarnu'n gysylltiedig ag ef;

(cc) manylion y caniatâd arbennig a'r dyddiad pryd y'i rhoddwyd; a

(chch) eich llofnod.

(4) Os bydd gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar ganiatâd arbennig, rhaid i chi ddarparu manylion am y caniatâd arbennigmewn unrhyw sylwadau a wnewch yn  ysgrifenedig neu ar lafar ac, yn yr achos olaf hwn, rhaid i chi ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer eich awdurdod o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y sylwadau.

**Rhan 4 - Cofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau**

Cofrestru  Buddiannau Personol

15. (1) yn amodol ar is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl -

(a) i gôd ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(b) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau personol, os ydynt yn dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a) yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau, drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw newid i fuddiant personol a gofrestrwyd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r newid hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.
(4) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) a (3) yn gymwys i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(5) Ni fydd is-baragraff (1) a (2) yn gymwys os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

Gwybodaeth sensitif

16. (1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r diddordeb hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r diddordeb o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff (1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod gan ofyn am i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr diddordebau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" ("sensitive information") yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fygythion.

Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

17. Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Dylai hysbysiad ysgrifenedig o'r fath gael eu darparu yma.

**ATODIAD B**

CANIATÂD ARBENNIG A RODDWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU AR 13 MEDI 2017

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cytuno'n unfrydol i'r isod:-

- Petai'r angen yn codi, rhoddir i holl Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn drwy hyn, ganiatâd arbennig i ymddangos gerbron yr Is-bwyllgor Indemniadau (neu ei ragflaenydd, os oes un) i gyflwyno unrhyw gais y maent yn dymuno i'r Is-Bwyllgor ei ystyried yn unol â'r Polisi Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion.

- Rhoddir y caniatâd arbennig hwn dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016; 2(d) and 2(b).

- Gall unrhyw Aelod sy'n ymarfer yr hawl hon gyflwyno eu cais ac ateb cwestiynau, ond bydd trafodaethau'r Is-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn breifat.

- Ni fydd y caniatâd arbennig hwn yn effeithio ar hawl unrhyw Aelod i ofyn i'w cais gael ei ystyried ar sail y papurau'n unig, nac ychwaith eu hawl i gael eu cynrychioli gan ymgynghorydd cyfreithiol.

- Bydd y caniatâd hwn hefyd, petai raid, yn ymestyn i unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor Safonau yn unol â'u pwerau dan Orchymyn Awdurdod Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 lle mae gan unrhyw Aelod yr hawl i gyflwyno eu hachos yn bersonol i'r Pwyllgor Safonau cyn i'r Pwyllgor wedyn ymneilltuo i sesiwn breifat i ystyried y modd y bydd yn ymarfer ei bwerau statudol.

- Ni fydd y caniatâd arbennig hwn ond yn berthnasol i Aelodau y mae eu tymor yn cychwyn ym Mai 2017 neu'n hwyrach yn dilyn isetholiad o Gyngor Sir Ynys Môn a bydd yn parhau i fod mewn grym am dymor gweddilliol y Cyngor, sef Mai 2022.

- Bydd gan Aelodau  ddiddordeb personol dan y Côd o hyd a bydd raid iddynt ddatgan y diddordeb hwnnw ar gychwyn y cyfarfod neu ar gychwyn y drafodaeth ar yr eitem berthnasol. Rhaid cadarnhau ar ffurflenni datganiad yr Aelodau eu bod yn dibynnu ar ganiatâd arbennig a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau ar 13 Medi 2017.

Aelodau Cyfetholedig y Pwyllgor Safonau yn unig

13 Medi 2017

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Medi, 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad yn dilyn Adolygiad o Gofrestrau Diddordeb Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar ganfyddiadau adolygiad o sampl o Gofrestrau Diddordeb Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752566** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2016, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o gofrestrau o ddiddordebau aelodau mewn sampl o gynghorau tref a chymuned, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r côd ymddygiad.

1.2 Cynhaliwyd yr adolygiadau rhwng Hydref 2016 a Chwefror 2017 ac roedd yn cynnwys cynghorau tref a chynghorau cymuned.

1.3 Ym Medi 2016 penderfynwyd y byddai adroddiad cyffredinol yn cael ei ddosbarthu i bob cyngor tref a chymuned, yn manylu ar ganfyddiadau'r adolygiadau, a hynny mewn ymgais i gynorthwyo'r holl cynghorau tref a chymuned drwy rannu arfer da a nodi materion cyffredin y mae angen mynd i'r afael â nhw.

1.4 Anfonwyd adroddiad cyffredinol at glercod yr holl gynghorau tref a chymuned ar 7 Ebrill 2017. Mae copi o'r adroddiad yn **ATODIAD 1.**

1.5 Anfonwyd llythyr personol hefyd at bob Cyngor a adolygwyd, gan ddarparu cyngor penodol i'r cyngor hwnnw, yn dilyn pob cyfarfod adolygu. Ni chafodd yr adroddiadau hyn eu cylchredeg na'u rhannu ag eraill.

## 2 CANFYDDIADAU CYFFREDINOL

2.1 Ystyrir bod yr adolygiad wedi bod yn ymarfer buddiol. ‘Roedd y Pwyllgor Safonau, ar y cyfan, yn hapus gyda’r canfyddiadau gan iddo nodi sawl enghraifft o arfer da. Nodwyd rhai meysydd pryder cyffredin hefyd ac, fel yr esbonir yn yr adroddiad **(ATODIAD 1)**, mae’r rhain angen sylw.

2.2 Mae manylion am y canfyddiadau i’w gweld yn Adran D o **ATODIAD 1.**

## 3. CADARNHAU DOSBARTHU’R ADRODDIAD GAN GLERCOD Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

3.1 Wrth anfon yr adroddiad at glercod y cynghorau tref a chymuned ar 7 Ebrill 2017 gofynnwyd :

a) Bod eitem ar yr adroddiad yn cael ei rhoi ar raglen cyfarfod nesaf y cyngor tref/cymuned, er mwyn sicrhau y dygir ei gynnwys i sylw aelodau,

a

b) bod copi o gofnodion y cyfarfod perthnasol, sy'n cadarnhau bod yr adroddiad wedi ei drafod, yn cael ei anfon i sylw'r Pwyllgor Safonau.

Gofynnwyd am y rhain erbyn diwedd Gorffennaf 2017.

3.2 Hysbyswyd clercod y cynghorau tref a chymuned y byddai'r ymatebion yn destun adroddiad ysgrifenedig yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2017.

3.3 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau adolygu **ATODIAD 2** sy'n cynnwys manylion yr ymatebion a gafwyd gan y clercod.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys yr adroddiad yn **ATODIAD 1**.

4.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys y tabl yn **ATODIAD 2,** a chadarnhau ei fwriad mewn perthynas ag unrhyw gynghorau tref a chymuned sydd (a) wedi heb ymateb, neu (b) sydd wedi ymateb ond heb ddarparu copi o gofnodion y cyfarfod perthnasol.

**Medwen Jones**

| | |
|---|---|
| **From:** | Medwen Jones |
| **Sent:** | 07 April 2017 18:50 |
| **To:** | Aberffraw; Amlwch; Beaumaris; Bodedern; Bodffordd a Llanfachraeth; Bodorgan a Llangristiolus; Bryngwran; Cwm Cadnant a Llanfihangelesceifiog; Cylch-y-Garn Community Council; Holyhead Town Council; Llanbadrig; Llanddaniel Fab; Llanddona a Llangoed; Llanddyfnan; Llaneilian; Llanerchymedd; Llanfaelog; Llanfaethlu; Llanfair yn Neubwll; Llanfairpwll; Llangefni; Llanidan; Mechell; Menai Bridge; Moelfre; Penmynydd a Star; Pentraeth; Rhosybol; Rhosyr; Trearddur; Tref Alaw; Trewalchmai; Valley; 'Llanfair ME' |
| **Cc:** | Mared W. Yaxley |
| **Subject:** | Adolygiad y Pwyllgor Safonau - swyddogol / Review by Standards Committee - official (019456) |
| **Attachments:** | 370631 - Adolygiad y Pwyllgor Safonau - Adroddiad.doc; 370321 - Local Government Model Code of Conduct - as amended from 1.04.2016 (Eng and Welsh).docm; 370319 - Nodyn briffio ar gyfer clercod cynghorau tref a chymuned.doc; 370362 - Canllawiau Statudol - Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref.pdf; 370317 - MEMBERS' DECLARATION OF INTEREST AT MEETINGS.doc; 368166 - Standards Committee Report - review of a sample of the TC CCs March 2017.doc; 370320 - Briefing Note for Clerks of town and community councils.doc; 370361 - Statutory Guidance - Access to Information on Community and Town councils.pdf; 370318 - MEMBERS' DECLARATION OF INTEREST AT MEETINGS.doc |

Annwyl Glercod,

Yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2016, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o gofrestrau diddordeb yr aelodau mewn sampl o'r Cynghorau Tref a Chymuned, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymddygiad. Penderfynwyd y byddai adroddiad cyffredinol yn cael ei gylchredeg i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned a fyddai'n manylu ar y canfyddiadau a wnaed yn ystod yr ymarferiad hwn. Ymgais oedd y broses hon i geisio cynorthwyo'r Cynghorau Tref a Chymuned drwy rannu arfer dda ac amlygu materion cyffredin y mae angen eu gwella.

Mae'r adolygiad bellach wedi dod i ben ac mae'r Pwyllgor Safonau wedi paratoi'r **adroddiad atodol**. Nodwch, os gwelwch yn dda, mai arolwg cyffredinol a geir yma; ni chaiff unrhyw Gyngor ei enwi.

Allwch chi sicrhau fod yr adroddiad yma'n cael ei rannu efo'ch aelodau drwy ei gynnwys fel eitem ar y Rhaglen nesaf sydd ar gael gan y Cyngor, os gwelwch yn dda? Gofynnwn i chi hefyd anfon copi o Gofnodion y cyfarfod perthnasol, sy'n cadarnhau fod yr adroddiad wedi ei drafod, i mwjcs@ynysmon.gov.uk .Gofynnwn am eich ymatebion, yn ogystal â chopi o'r Cofnodion, erbyn **diwedd mis Gorffennaf 2017** os gwelwch yn dda. Bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2017.

Gobeithiwn y bydd yr atodiad o gymorth i'ch aelodau o ran eu hymrwymiadau dan y Cod Ymddygiad.

Cofion,

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

---

Dear Clerks,

At its meeting on 14 September 2016, the Standards Committee decided to conduct a review of the register of members' interests in a sample of the Town and Community Councils, to ensure compliance with the Code of Conduct. It was decided that a general report would be distributed to all Town and Community Councils detailing the findings made following that exercise. This process was an attempt to assist all Town and Community Councils by way of sharing good practice and identifying matters which commonly need to be addressed.

The review has now been concluded and the Standards Committee has compiled the **attached report**. Please note that this is a general overview of the findings made; no individual Council is identified.

Please can you ensure that this report is shared with all members of your Council by including it as an item on the next available Council Agenda. We also ask that you please forward a copy of the Minutes of the relevant meeting, which confirm the report has been discussed, to mwjcs@ynysmon.gov.uk . We would ask for your responses, together with the copy Minutes, by the **end of July 2017** please. This matter will be discussed at the next formal meeting of the Standards Committee in September 2017.

We trust the attached assists your members in relation to their obligations under the Code of Conduct.

Regards,

Michael Wilson
Chairman of the Standards Committee

Document: CC-019456-MY/370839

**Adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn ar Gofrestrau Diddordeb y Cynghorau Tref a Chymuned**

**Dyddiad paratoi'r adroddiad Mawrth 2017**

## A) CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae'r Pwyllgor Safonau yn ymrwymedig i gynorthwyo aelodau Cynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â'u cyfrifoldebau o dan y Côd Ymddygiad.

Yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2016, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o Gofrestrau Diddordebau aelodau mewn sampl o'r Cynghorau Tref a Chymuned, er mwyn asesu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Côd Ymddygiad. Penderfynwyd y byddai adroddiad cyffredinol yn cael ei ddosbarthu i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned yn rhoi manylion am ganlyniad yr ymarfer hwnnw.

Mae'r adolygiad bellach wedi'i gwblhau ac mae'r Pwyllgor Safonau wedi llunio'r adroddiad cyffredinol hwn, sydd wedi ei ddosbarthu i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned. Nid oes yr un Cyngor yn cael ei enwi yn yr adroddiad hwn; anfonwyd llythyr personol at bob Cyngor a adolygwyd yn rhoi cyngor penodol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys trosolwg cyffredinol o'r canfyddiadau a'r argymhellion.

## B) SYLWADAU CYFFREDINOL

Yn gyntaf oll, hoffai'r Pwyllgor Safonau ddiolch i'r clercod, a'r aelodau, yn y Cynghorau Tref a Chymuned a adolygwyd am eu hamser a'u croeso. Ystyrir bod yr adolygiadau wedi bod yn ymarfer buddiol; yn gyffredinol 'roedd y Pwyllgor Safonau yn fodlon â'r canfyddiadau, gan iddo weld sawl arfer da. Fodd bynnag, nodwyd meysydd cyffredin a oedd yn achosi pryder ac mae'r rhain angen sylw. Mae'r Adroddiad hwn yn anelu at gynnwys y ddwy elfen hon, fel ei fod yn arweiniad defnyddiol i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ar yr hyn y mae nhw angen ei wneud.

## C) DOGFENNAU / GWAITH PAPUR A ADOLYGWYD

Ym mhob Cyngor Tref / Cymuned a adolygwyd gofynnwyd i gael gweld y dogfennau canlynol a oedd yn dyddio'n ôl i fis Mai 2013:

- Cofrestr o Diddordebau Personol;
- Ffurflenni Datganiadau o Ddiddordeb a wnaed yng nghyfarfodydd y Cyngor;
- Rhaglen a Chofnodion ar gyfer y Cyngor a'i Is-bwyllgorau;
- Rhestr o enwau'r holl aelodau a chopi o'r ffurflen derbyn swydd gan bob aelod cyfredol, gan gynnwys yr ymgymeriad statudol i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad;
- Cofnod o hyfforddiant a roddwyd i aelodau.

## CH) CANFYDDIADAU

1) Daeth y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygiad) 2016 i rym ar 1af Ebrill 2016. Mae'n golygu bod Côd Ymddygiad diwygiedig wedi ei greu, ac mae'n ofynnol i bob Cyngor Tref a Chymuned fabwysiadu'r Côd diwygiedig hwn. Ar ôl ei fabwysiadu, mae'n rhaid cyhoeddi hysbyseb mewn un neu ragor

o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal leol ac anfon copi o'r Côd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae copi pellach o'r Côd Ymddygiad statudol wedi ei amgáu yn **Atodiad 1** er hwylustod.

Anfonwyd gohebiaeth ar y mater hwn at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned gan y Pwyllgor Safonau ers mis Mai 2016, ac er bod y Pwyllgor Safonau yn falch yn gyffredinol â'r gwaith a wnaed gan Gynghorau Tref a Chymuned ar y mater hwn, mae'n parhau i fod yn awyddus i sicrhau bod yr holl Gynghorau'n cydymffurfio.

Gofynnir i bob Cyngor sicrhau bod y Côd diweddaraf **(Atodiad 1)** a'n Nodyn Briffio ar y gofynion statudol ar gyfer aelodau Cynghorau Tref a Chymuned ynghylch datgan diddordebau personol **(Atodiad 2)** yn cael eu dwyn i sylw eu haelodau yn dilyn etholiadau Mai 2017, yn unol â chais y Pwyllgor Safonau mewn e-bost at y Cynghorau Tref a Chymuned ar 22ain Mawrth 2017.

2) Ar ddechrau pob cyfnod yn y swydd mae'n ofynnol i bob aelod lofnodi ymgymeriad newydd i lynu wrth y Côd. O ystyried yr etholiadau lleol sydd i'w cynnal ym mis Mai 2017, atgoffir Cynghorau o'r gofyniad hwn, p'un a yw'r aelod yn cael ei ailethol ai peidio ac, yn wir, p'un a gynhaliwyd etholiad ai peidio ar gyfer y Cyngor Tref / Cymuned hwnnw.

Mae hyn yn rhywbeth a gafodd ei wneud yn yr holl Gynghorau Tref a Chymuned a adolygwyd. Fodd bynnag, rhaid gofalu hefyd y llofnodir yr ymgymeriad ym mhresenoldeb tyst (manylir ar statws y tyst yn adran 83 (3) Deddf Llywodraeth Leol 1972); fel arfer y clerc yw'r tyst, yn rhinwedd ei swydd fel swyddog priodol y Cyngor, ac mae drefn hon yn cydymffurfio.

3) Mae'r Pwyllgor Safonau yn pryderu nad yw aelodau rhai Cynghorau Tref a Chymuned, yn deall y gofyniad i ddatgan diddordebau personol a / neu diddordebau sy'n rhagfarnu pan fyddant yn codi. Mae'r gwendid hwn, ynghyd â diffyg unrhyw gofnod o hyfforddiant (a drafodir yn 8 isod) yn arwain y Pwyllgor Safonau i gredu fod yna ddiffyg dealltwriaeth ymysg rhai aelodau. Gall fod yn werth atgoffa aelodau: -

- Diddordeb personol yw un o'r rheini sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr penodol yn y Côd Ymddygiad;
- Diddordeb sy'n rhagfarnu yw diddordeb personol y byddai arsylwr gwrthrychol yn ystyried ei fod mor arwyddocaol ei fod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu aelod i wneud penderfyniad er budd y cyhoedd;
- Mae'r gwahaniaeth yn bwysig oherwydd bod gan aelodau hawl i gymryd rhan pan fydd ganddynt ddiddordeb personol, ond nid pan fydd ganddynt ddiddordeb personol sydd hefyd yn un sy'n rhagfarnu. Os yw'r diddordeb yn un sy'n rhagfarnu, rhaid i aelodau hefyd adael y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei thrafod.

Dylai Aelodau sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan y Côd Ymddygiad, ac os nad ydynt, dylent drefnu hyfforddiant priodol drwy eu clercod. Os oes ganddynt unrhyw gwestiynau penodol, dylent fod yn ceisio cyngor gan eu clerc neu'n cysylltu â'r Swyddog Monitro yng Nghyngor Sir Ynys Môn ar lbxcs@ynysmon.gov.uk

4) Ers mis Mai 2015, mae'n ofyniad statudol i Gynghorau Tref a Chymuned fod â gwefan ac i gyhoeddi gwybodaeth benodol arni. Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol i gynorthwyo

Cynghorau i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn ac mae copi pellach o'r Canllawiau hyn ar gael yn **Atodiad 3.**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn siomedig gyda'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag (a) creu gwefannau a (b) faint o wybodaeth a gyhoeddir ar rai o'r gwefannau a sefydlwyd. Ar y sail hon, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu y bydd yn **adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned unwaith eto, a bydd yn gofyn am ddiweddariad gan yr holl glercod erbyn diwedd mis Chwefror 2018.** Bydd hefyd yn ceisio cadarnhad bod y gofynion sylfaenol a ddisgrifir yn **Atodiad 3** wedi eu bodloni.

Atgoffir y Cynghorau hynny nad ydynt wedi gwneud cais amdano fod grant ar gael ar gyfer sefydlu gwefan newydd neu i ddatblygu gwefannau sydd ganddynt eisoes. Mae ffurflenni cais ar gael drwy CSYM; cysylltwch â'r Swyddog Polisi ar rjxcs@ynysmon.gov.uk os gwelwch yn dda.

5) Un o'r dogfennau y mae'n rhaid eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yw'r Gofrestr o Ddiddordebau. Nid oes fformat penodol ar gyfer y Gofrestr hon, ond roedd gan y rhan fwyaf o'r Cynghorau Tref a Chymuned a adolygwyd Gofrestrau a oedd yn cynnwys y Cofnodion ar gyfer y cyfarfod perthnasol (yn cadarnhau'r datganiad o ddiddordeb a wnaed) a'r ffurflenni Datgan Diddordeb a gwblhawyd gan bob aelod yn dilyn datganiad llafar o ddiddordebau personol a / neu ddiddordebau sy'n rhagfarnu yn ystod y cyfarfod. Mae hwn yn fformat boddhaol.

Mae angen i Gynghorau Tref a Chymuned sicrhau bod y Gofrestr ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar bob adeg resymol, ac ar wefan y Cyngor Tref neu Gymuned. Roedd yn ymddangos o'r adolygiad fod y Cofrestrau papur yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan ond mae angen gwneud gwaith i sicrhau eu bod ar gael ar-lein cyn gynted ag y bo modd.

6) Nid oes un fformat penodol ar gyfer y Ffurflen Datgan Diddordeb i'w ddefnyddio er mwyn cadarnhau datganiad o ddiddordeb personol a / neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu a wneir ar lafar mewn cyfarfod. 'Roedd y rhan fwyaf o'r 'Ffurflenni Datganiad' a adolygwyd gan y Pwyllgor Safonau yn foddhaol o ran y wybodaeth sydd ei hangen. Fodd bynnag, er hwylustod, mae'r un a ddefnyddir gan CSYM yn **Atodiad 4;** gellir ei newid a'i haddasu yn ôl yr angen.

Er bod y ffurflenni eu hunain yn cydymffurfio o ran y wybodaeth sydd ei hangen, roedd yn amlwg nad oedd rhai aelodau bob amser yn llenwi'r ffurflenni yn llawn ac yn gywir. Cyfrifoldeb pob aelod unigol yw hyn; mae methiant i ddarparu cadarnhad ysgrifenedig llawn o ddatganiad llafar a wnaed mewn cyfarfod yn golygu nad yw'r aelod yn cydymffurfio â'r Côd Ymddygiad. Atgoffir yr aelodau i ateb yr holl gwestiynau perthnasol ar y Ffurflen Datganiad yn llawn.

7) Nid oes fformat penodol ar gyfer Rhaglenni a Chofnodion; fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried ei bod yn arfer da i gynnwys 'Datganiadau o Ddiddordeb' fel eitem sefydlog ar Raglen pob un o gyfarfodydd y Cyngor, a hynny fel ffordd o atgoffa aelodau. Teimlwyd yn gyffredinol y dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn y Cofnodion o dan yr eitem 'Datganiadau o Ddiddordeb' h.y. (a) enw'r aelod sy'n gwneud y datganiad llafar, (b) yr eitem y mae'r datganiad yn ymwneud â hi, a (c ) a oedd y datganiad a wnaed yn ddiddordeb personol ynteu'n ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Ar ben hynny, o dan yr eitem o

fusnes ei hun, byddai'n arfer da i'r Cofnodion gadarnhau (a) a wnaed datganiad o ddiddordeb, a chan bwy, (b) a yw'r diddordeb yn un personol ynteu'n un sy'n rhagfarnu, (c) manylion y diddordeb personol / diddordeb sy'n rhagfarnu, a (ch) yn achos diddordeb sy'n rhagfarnu, cadarnhad bod yr aelod wedi gadael yr ystafell gyfarfod. Mae cynnwys gwybodaeth o'r fath o gymorth i gwrdd â'r gofyniad i gadw Cofrestr o Ddiddordebau sy'n gofrestr ystyrlon, ond mae hefyd yn cynorthwyo'r cyhoedd o ran sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw ac er budd y cyhoedd.

8) O'r Cynghorau a adolygwyd, dim ond un oedd â Chofnod Hyfforddiant. Mae'r rhesymau am hyn yn amrywio; i rai 'roedd oherwydd nad oedd eu haelodau wedi mynychu hyfforddiant, ac i eraill, er bod aelodau wedi mynychu hyfforddiant, nid oeddent wedi cadw cofnod ohono. Nid oes unrhyw ofyniad statudol i gynnal Cofnod Hyfforddiant, ond mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried ei fod yn arfer da.

9) Roedd yn amlwg o'r adolygiad y glynir wrth gofynion yn fwy effeithiol pan fo perthynas o gyd-barch rhwng y clerc a'r aelodau. Atgoffir yr aelodau mai'r clercod yw'r swyddogion priodol o fewn y Cynghorau Cymuned / Tref ac y dylai'r aelodau roi sylw dyledus i'r cyngor a roddir gan y clerc. Bydd clerc sydd wedi ei hyfforddi'n briodol ac sydd â'r adnoddau priodol yn medru cynorthwyo'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, a bydd mewn sefyllfa well i gynghori aelodau, y tu mewn a'r tu allan i gyfarfodydd.

10) Deallir bod y mwyafrif o Gynghorau Tref / Cymuned yn aelodau o Un Llais Cymru. Efallai y byddai'n ddoeth i rai Cynghorau ofyn i Un Llais Cymru am gymorth mewn perthynas â (a) y rheolau sefydlog / polisïau nad yw rhai Cynghorau Tref / Cymuned wedi eu mabwysiadu hyd yma, (b) hyfforddiant ar gyfer clercod ac aelodau, yn ôl y gofyn a (c) datblygu / cynnal / y wybodaeth a gynhwysir ar y gwefannau.

## D) CASGLIAD / ARGYMHELLION

Roedd y Pwyllgor Safonau yn gyffredinol fodlon gyda'r canfyddiadau a nodwyd amryw o arferion da:

1) cofnodion sy'n dangos bod aelodau yn llofnodi ymgymeriad i lynu wrth y Côd Ymddygiad ar ddechrau pob tymor newydd yn y swydd;

2) cynnal y Gofrestr bapur o ddiddordebau'r Aelodau;

3) y 'Ffurflenni Datganiad' a ddefnyddir ar gyfer datgan diddordebau personol / diddordebau sy'n rhagfarnu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

Fodd bynnag, nododd rhai meysydd ar gyfer eu gwella:

1) angen mynd i'r afael â diffyg dealltwriaeth ymddangosiadol rhai aelodau o'r gwahaniaeth rhwng diddordebau personol a / neu ddiddordebau sy'n rhagfarnu;

2) methu â chwblhau'r 'Ffurflenni Datganiad' yn llawn;

3) diffyg gwefannau / neu ddiffyg gwybodaeth ar wefannau (yn cynnwys cyhoeddi'r Gofrestr o Ddiddordebau Aelodau);

4) cofnodi Hyfforddiant;

5) cynnwys manylion am ddiddordebau a ddatganwyd ar Raglenni / Cofnodion pob cyfarfod o'r Cyngor.

**Gofynnir i Glercod ddod â chynnwys yr adroddiad hwn i sylw eu holl aelodau drwy ei gynnwys fel eitem ar Raglen cyfarfod nesaf eu Cyngor ac i anfon copi o Gofnodion y cyfarfod hwnnw i'r Pwyllgor Safonau erbyn diwedd Gorffennaf 2017 .**

Atgoffir Clercod hefyd y bydd y Pwyllgor Safonau, yn unol ag adran 4 uchod, yn ceisio cadarnhad erbyn **diwedd mis Chwefror 2018** ynghylch (a) a yw pob Cyngor wedi sefydlu gwefan, (b) cyfeiriad y wefan honno, a ( c) bod y wefan yn cynnwys y wybodaeth sylfaenol y mae'n rhaid iddi ei chynnwys yn statudol.

Os bydd gan aelodau neu glercod unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r adroddiad hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Swyddog Monitro Cyngor Sir Ynys Môn (Lynn Ball, 01248 752586/lbxcs@ynysmon.gov.uk )

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

CC-019459-MY/370631

(v. 01.04.2016)

| Local Government Act 2000 | Deddf Llywodraeth Leol 2000 |
|---|---|
| **Model Code of Conduct for Members and Co-opted Members with voting rights** | **Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig â hawliau pleidleisio** |
| The attached Annex sets out the text (in English and Welsh) of the Model Code of Conduct prescribed by the Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008, as amended by the following statutory instruments:<br><br>• Co-operative and Community Benefit Societies and Credit Unions Act 2010 (Consequential Amendments) Regulations 2014 – (No. 2014/1815) ("the 2014 Regulations") – effective from 1 August 2014.<br><br>• Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) (Amendment) Order 2008 (No. 2016/84) – effective from 1 April 2016.<br><br>This document has been produced for the benefit of relevant authorities to whom the Model Code applies, but it does not itself have any legal standing. It is believed to be a true and accurate representation of the law as at **1 April 2016**, but no assurance is given in this regard and authorities should take their own legal advice on matters relating to the Code.<br><br>Please note the 2014 Regulations were made by the UK Government. They amend the Model Code to insert a definition of a 'registered society'. It appears that the Welsh language version of the Model Code was not amended at the same time. The Welsh Government is in discussion with the UK Government about this with a view to the Welsh language version being amended as soon as practicable.<br><br>In the interim, the Welsh Government does not believe this anomaly has a material bearing on the operation of the Model Code. | Mae'r Atodiad amgaeedig yn nodi testun (yn Gymraeg a Saesneg) y Cod Ymddygiad Enghreifftiol a bennir gan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008, fel y'i diwygiwyd gan yr offerynnau statudol canlynol:<br><br>• Rheoliadau Deddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol ac Undebau Credyd 2010 (Diwygiadau Canlyniadol) 2014 - (Rhif 2014/1815) ("Rheoliadau 2014") - yn dod i rym ar 1 Awst 2014.<br><br>• Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2008 (Rhif 2016/84) – yn dod i rym ar 1 Ebrill 2016.<br><br>Cynhyrchwyd y ddogfen hon er budd awdurdodau perthnasol y mae'r Cod Enghreifftiol yn gymwys iddynt, ond nid oes ganddi unrhyw statws cyfreithiol. Credir ei bod yn cynrychioli'r gyfraith ar **1 Ebrill 2016** yn wir ac yn gywir, ond ni roddir unrhyw sicrwydd yn hyn o beth, a dylai'r awdurdodau geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar faterion sy'n ymwneud â'r Cod.<br><br>Sylwer: Gwnaed Rheoliadau 2014 gan Lywodraeth y DU. Maent yn diwygio'r Cod Enghreifftiol drwy fewnosodi diffiniad o 'cymdeithas gofrestredig'. Mae'n ymddangos na ddiwygiwyd fersiwn Gymraeg y Cod Enghreifftiol ar yr un pryd. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod hyn â Llywodraeth y DU gyda'r bwriad o ddiwygio'r fersiwn Gymraeg cyn gynted ag y bo'n ymarferol.<br><br>Yn y cyfamser, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod yr anghysondeb hwn yn effeithio'n ymarferol ar weithredu'r Cod Enghreifftiol. |

**Annex**

# THE MODEL CODE OF CONDUCT

## PART 1
## INTERPRETATION

1.—(1) In this code —

"co-opted member" ("*aelod cyfetholedig*"), in relation to a relevant authority, means a person who is not a member of the authority but who —

(a) is a member of any committee or sub-committee of the authority, or

(b) is a member of, and represents the authority on, any joint committee or joint sub-committee of the authority, and who is entitled to vote on any question which falls to be decided at any meeting of that committee or subcommittee;

"meeting" ("*cyfarfod*") means any meeting —

(a) of the relevant authority,

(b) of any executive or board of the relevant authority,

(c) of any committee, sub-committee, joint committee or joint sub-committee of the relevant authority or of any such committee, sub-committee, joint committee or joint sub-committee of any executive or board of the authority, or

(d) where members or officers of the relevant authority are present other than a meeting of a political group constituted in accordance with regulation 8 of the Local Government (Committees and Political Groups) Regulations 1990,

and includes circumstances in which a member of an executive or board or an officer acting alone exercises a function of an authority;

"member" ("*aelod*") includes, unless the context requires otherwise, a co-opted member;

"registered society" means a society, other than a society registered as a credit union, which is —

(a) a registered society within the meaning given by section 1(1) of the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014; or

(b) a society registered or deemed to be registered under the Industrial and Provident Societies Act (Northern Ireland) 1969;

"register of members' interests" *("cofrestr o fuddiannau'r aelodau")* means the register established and maintained under section 81 of the Local Government Act 2000;

"relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*") means—

(a) a county council,

(b) a county borough council,

(c) a community council,

(d) a fire and rescue authority constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004 or a scheme to which section 4 of that Act applies,

(e) a National Park authority established under section 63 of the Environment Act 1995;

"you" ("*chi*") means you as a member or co-opted member of a relevant authority; and

"your authority" ("*eich awdurdod*") means the relevant authority of which you are a member or co-opted member.

(2) In relation to a community council—

(a) "proper officer" ("*swyddog priodol*") means an officer of that council within the meaning of section 270(3) of the Local Government Act 1972; and

(b) "standards committee" ("pwyllgor safonau") means the standards committee of the county or county borough council which has functions in relation to the community council for which it is responsible under section 56(1) and (2) of the Local Government Act 2000.

## PART 2
## GENERAL PROVISIONS

**2.**—(1) Save where paragraph 3(a) applies, you must observe this code of conduct —

(a) whenever you conduct the business, or are present at a meeting, of your authority;

(b) whenever you act, claim to act or give the impression you are acting in the role of member to which you were elected or appointed;

(c) whenever you act, claim to act or give the impression you are acting as a representative of your authority; or

(d) at all times and in any capacity, in respect of conduct identified in paragraphs 6(1)(a) and 7.

(2) You should read this code together with the general principles prescribed under section 49(2) of the Local Government Act 2000 in relation to Wales.

**3.** Where you are elected, appointed or nominated by your authority to serve —

(a) on another relevant authority, or any other body, which includes a Local Health Board you must, when acting for that other authority or body, comply with the code of conduct of that other authority or body; or

(b) on any other body which does not have a code relating to the conduct of its members, you must, when acting for that other body, comply with this code of conduct, except and insofar as it conflicts with any other lawful obligations to which that other body may be subject.

**4.** You must —

(a) carry out your duties and responsibilities with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people, regardless of their gender, race, disability, sexual orientation, age or religion;

(b) show respect and consideration for others;

(c) not use bullying behaviour or harass any person; and

(d) not do anything which compromises, or which is likely to compromise, the impartiality of those who work for, or on behalf of, your authority.

**5.** You must not —

(a) disclose confidential information or information which should reasonably be regarded as being of a confidential nature, without the express consent of a person authorised to give such consent, or unless required by law to do so;

(b) prevent any person from gaining access to information to which that person is entitled by law.

**6.**—(1) You must —

(a) not conduct yourself in a manner which could reasonably be regarded as bringing your office or authority into disrepute;

(b) report, whether through your authority's confidential reporting procedure or direct to the proper authority, any conduct by another member or anyone who works for, or on behalf of, your authority which you reasonably believe involves or is likely to involve criminal behaviour (which for the purposes of this paragraph does not include offences or behaviour capable of punishment by way of a fixed penalty);

(c) report to your authority's monitoring officer any conduct by another member which you reasonably believe breaches this code of conduct;

(d) not make vexatious, malicious or frivolous complaints against other members or anyone who works for, or on behalf of, your authority.

(2) You must comply with any request of your authority's monitoring officer, or the Public Services Ombudsman for Wales, in connection with an investigation conducted in accordance with their respective statutory powers.

**7.** You must not —

(a) in your official capacity or otherwise, use or attempt to use your position improperly to confer on or secure for yourself, or any other person, an advantage or create or avoid for yourself, or any other person, a disadvantage;

(b) use, or authorise others to use, the resources of your authority —

(i) imprudently;

(ii) in breach of your authority's requirements;

(iii) unlawfully;

(iv) other than in a manner which is calculated to facilitate, or to be conducive to, the discharge of the functions of the authority or of the office to which you have been elected or appointed;

(v) improperly for political purposes; or

(vi) improperly for private purposes.

**8**. You must —

(a) when participating in meetings or reaching decisions regarding the business of your authority, do so on the basis of the merits of the circumstances involved and in the public interest having regard to any relevant advice provided by your authority's officers, in particular by —

(i) the authority's head of paid service;

(ii) the authority's chief finance officer;

(iii) the authority's monitoring officer;

(iv) the authority's chief legal officer (who should be consulted when there is any doubt as to the authority's power to act, as to whether the action proposed lies within the policy framework agreed by the authority or where the legal consequences of action or failure to act by the authority might have important repercussions);

(b) give reasons for all decisions in accordance with any statutory requirements and any reasonable additional requirements imposed by your authority.

**9**. You must —

(a) observe the law and your authority's rules governing the claiming of expenses and allowances in connection with your duties as a member;

(b) avoid accepting from anyone gifts, hospitality (other than official hospitality, such as a civic reception or a working lunch duly authorised by your authority), material benefits or services for yourself or any person which might place you, or reasonably appear to place you, under an improper obligation.

## PART 3
## INTERESTS

### Personal Interests

**10.**—(1) You must in all matters consider whether you have a personal interest, and whether this code of conduct requires you to disclose that interest.

(2) You must regard yourself as having a personal interest in any business of your authority if —

(a) it relates to, or is likely to affect —

(i) any employment or business carried on by you;

(ii) any person who employs or has appointed you, any firm in which you are a partner or any company for which you are a remunerated director;

(iii) any person, other than your authority, who has made a payment to you in respect of your election or any expenses incurred by you in carrying out your duties as a member;

(iv) any corporate body which has a place of business or land in your authority's area, and in which you have a beneficial interest in a class of securities of that body that

exceeds the nominal value of £25,000 or one hundredth of the total issued share capital of that body;

(v) any contract for goods, services or works made between your authority and you or a firm in which you are a partner, a company of which you are a remunerated director, or a body of the description specified in sub-paragraph (iv) above;

(vi) any land in which you have a beneficial interest and which is in the area of your authority;

(vii) any land where the landlord is your authority and the tenant is a firm in which you are a partner, a company of which you are a remunerated director, or a body of the description specified in subparagraph (iv) above;

(viii) any body to which you have been elected, appointed or nominated by your authority;

(ix) any —

(aa) public authority or body exercising functions of a public nature;

(bb company, registered society, charity, or body directed to charitable purposes;

(cc) body whose principal purposes include the influence of public opinion or policy;

(dd) trade union or professional association; or

(ee) private club, society or association operating within your authority's area,

in which you have membership or hold a position of general control or management;

(x) any land in your authority's area in which you have a licence (alone or jointly with others) to occupy for 28 days or longer;

*[Note: subparagraph (b) is omitted.]*

(c) a decision upon it might reasonably be regarded as affecting —

(i) your well-being or financial position, or that of a person with whom you live, or any person with whom you have a close personal association;

(ii) any employment or business carried on by persons as described in 10(2)(c)(i);

(iii) any person who employs or has appointed such persons described in 10(2)(c)(i), any firm in which they are a partner, or any company of which they are directors;

(iv) any corporate body in which persons as described in 10(2)(c)(i) have a beneficial interest in a class of securities exceeding the nominal value of £5,000; or

(v) any body listed in paragraphs 10(2)(a)(ix)(aa) to (ee) in which persons described in 10(2)(c)(i) hold a position of general control or management,

to a greater extent than the majority of—

(aa) in the case of an authority with electoral divisions or wards, other council tax payers, rate payers or inhabitants of the electoral division or ward, as the case may be, affected by the decision; or

(bb) in all other cases, other council tax payers, ratepayers or inhabitants of the authority's area.

**Disclosure of Personal Interests**

**11.**—(1) Where you have a personal interest in any business of your authority and you attend a meeting at which that business is considered, you must disclose orally to that meeting the existence and nature of that interest before or at the commencement of that consideration, or when the interest becomes apparent.

(2) Where you have a personal interest in any business of your authority and you make —

(a) written representations (whether by letter, facsimile or some other form of electronic communication) to a member or officer of your authority regarding that business, you should include details of that interest in the written communication; or

(b) oral representations (whether in person or some form of electronic communication) to a member or officer of your authority you should disclose the interest at the commencement of such representations, or when it becomes apparent to you that you have such an interest, and confirm the representation and interest in writing within 14 days of the representation.

(3) Subject to paragraph 14(1)(b) below, where you have a personal interest in any business of your authority and you have made a decision in exercising a function of an executive or board, you must in relation to that business ensure that any written statement of that decision records the existence and nature of your interest.

(4) You must, in respect of a personal interest not previously disclosed, before or immediately after the close of a meeting where the disclosure is made pursuant to sub-paragraph 11(1), give written notification to your authority in accordance with any requirements identified by your authority's monitoring officer, or in relation to a community council, your authority's proper officer from time to time but, as a minimum containing —

(a) details of the personal interest;

(b) details of the business to which the personal interest relates; and

(c) your signature.

(5) Where you have agreement from your monitoring officer that the information relating to your personal interest is sensitive information, pursuant to paragraph 16(1), your obligations under this paragraph 11 to disclose such information, whether orally or in writing, are to be replaced with an obligation to disclose the existence of a personal interest and to confirm that your monitoring officer has agreed that the nature of such personal interest is sensitive information.

(6) For the purposes of sub-paragraph (4), a personal interest will only be deemed to have been previously disclosed if written notification has been provided in accordance with this code since the last date on which you were elected, appointed or nominated as a member of your authority.

(7) For the purposes of sub-paragraph (3), where no written notice is provided in accordance with that paragraph you will be deemed as not to have declared a personal interest in accordance with this code.

## Prejudicial Interests

**12.**—(1) Subject to sub-paragraph (2) below, where you have a personal interest in any business of your authority you also have a prejudicial interest in that business if the interest is one which a member of the public with knowledge of the relevant facts would reasonably regard as so significant that it is likely to prejudice your judgement of the public interest.

(2) Subject to sub-paragraph (3), you will not be regarded as having a prejudicial interest in any business where that business—

(a) relates to —

(i) another relevant authority of which you are also a member;

(ii) another public authority or body exercising functions of a public nature in which you hold a position of general control or management;

(iii) a body to which you have been elected, appointed or nominated by your authority;

(iv) your role as a school governor (where not appointed or nominated by your authority) unless it relates particularly to the school of which you are a governor;

(v) your role as a member of a Local Health Board where you have not been appointed or nominated by your authority;

(b) relates to —

(i) the housing functions of your authority where you hold a tenancy or lease with your authority, provided that you do not have arrears of rent with your authority of more than two months, and provided that those functions do not relate particularly to your tenancy or lease;

(ii) the functions of your authority in respect of school meals, transport and travelling expenses, where you are a guardian, parent, grandparent or have parental responsibility (as defined in section 3 of the Children Act 1989) of a child in full time education, unless it relates particularly to the school which that child attends;

(iii) the functions of your authority in respect of statutory sick pay under Part XI of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992, where you are in receipt of, or are entitled to the receipt of such pay from your authority;

(iv) the functions of your authority in respect of an allowance or payment made in accordance with the provisions of Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011, or an allowance or pension provided under section 18 of the Local Government and Housing Act 1989;

(c) your role as a community councillor in relation to a grant, loan or other form of financial assistance made by your community council to community or voluntary organisations up to a maximum of £500.

(3) The exemptions in subparagraph (2)(a) do not apply where the business relates to the determination of any approval, consent, licence, permission or registration.

## Overview and Scrutiny Committees

**13.** You also have a prejudicial interest in any business before an overview and scrutiny committee of your authority (or of a sub-committee of such a committee) where—

(a) that business relates to a decision made (whether implemented or not) or action taken by your authority's executive, board or another of your authority's committees, sub-committees, joint committees or joint subcommittees; and

(b) at the time the decision was made or action was taken, you were a member of the executive, board, committee, sub-committee, joint-committee or joint sub-committee mentioned in sub-paragraph (a) and you were present when that decision was made or action was taken.

**Participation in Relation to Disclosed Interests**

**14.**—(1) Subject to sub-paragraphs (2), (2A), (3) and (4), where you have a prejudicial interest in any business of your authority you must, unless you have obtained a dispensation from your authority's standards committee —

(a) withdraw from the room, chamber or place where a meeting considering the business is being held—

(i) where sub-paragraph (2) applies, immediately after the period for making representations, answering questions or giving evidence relating to the business has ended and in any event before further consideration of the business begins, whether or not the public are allowed to remain in attendance for such consideration; or

(ii) in any other case, whenever it becomes apparent that that business is being considered at that meeting;

(b) not exercise executive or board functions in relation to that business;

(c) not seek to influence a decision about that business;

(d) not make any written representations (whether by letter, facsimile or some other form of electronic communication) in relation to that business; and

(e) not make any oral representations (whether in person or some form of electronic communication) in respect of that business or immediately cease to make such oral representations when the prejudicial interest becomes apparent.

(2) Where you have a prejudicial interest in any business of your authority you may attend a meeting but only for the purpose of making representations, answering questions or giving evidence relating to the business, provided that the public are also allowed to attend the meeting for the same purpose, whether under a statutory right or otherwise.

(2A) Where you have a prejudicial interest in any business of your authority you may submit written representations to a meeting relating to that business, provided that the public are allowed to attend the meeting for the purpose of making representations, answering questions or giving evidence relating to the business, whether under statutory right or otherwise.

(2B) When submitting written representations under sub-paragraph (2A) you must comply with any procedure that your authority may adopt for the submission of such representations.

(3) Sub-paragraph (1) does not prevent you attending and participating in a meeting if —

(a) you are required to attend a meeting of an overview or scrutiny committee, by such committee exercising its statutory powers; or

(b) you have the benefit of a dispensation provided that you —

(i) state at the meeting that you are relying on the dispensation; and

(ii) before or immediately after the close of the meeting give written notification to your authority containing —

(aa) details of the prejudicial interest;

(bb) details of the business to which the prejudicial interest relates;

(cc)details of, and the date on which, the dispensation was granted; and

(dd) your signature.

(4) Where you have a prejudicial interest and are making written or oral representations to your authority in reliance upon a dispensation, you must provide details of the dispensation within any such written or oral representation and, in the latter case, provide written notification to your authority within 14 days of making the representation.

## PART 4
## THE REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS

### Registration of Personal Interests

**15.**—(1) Subject to sub-paragraph (4), you must, within 28 days of—

(a) your authority's code of conduct being adopted or the mandatory provisions of this model code being applied to your authority; or

(b) your election or appointment to office (if that is later),

register your personal interests, where they fall within a category mentioned in paragraph 10(2)(a), in your authority's register of members' interests by providing written notification to your authority's monitoring officer.

(2) Subject to sub-paragraph (4), you must, within 28 days of becoming aware of any new personal interest falling within a category mentioned in paragraph 10(2)(a), register that new personal interest in your authority's register of members' interests by providing written notification to your authority's monitoring officer.

(3) Subject to sub-paragraph (4), you must, within 28 days of becoming aware of any change to a registered personal interest falling within a category mentioned in paragraph 10(2)(a), register that change in your authority's register of members' interests by providing written notification to your authority's monitoring officer, or in the case of a community council to your authority's proper officer.

(4) Sub-paragraphs (1), (2) and (3) do not apply to sensitive information determined in accordance with paragraph 16(1).

(5) Sub-paragraphs (1) and (2) do not apply if you are a member of a relevant authority which is a community council when you act in your capacity as a member of such an authority.

(6) You must, when disclosing a personal interest in accordance with paragraph 11 for the first time, register that personal interest in your authority's register of members' interests by providing written notification to your authority's monitoring officer, or in the case of a community council to your authority's proper officer.

## Sensitive information

**16.**—(1) Where you consider that the information relating to any of your personal interests is sensitive information, and your authority's monitoring officer agrees, you need not include that information when registering that interest, or, as the case may be, a change to the interest under paragraph 15.

(2) You must, within 28 days of becoming aware of any change of circumstances which means that information excluded under sub-paragraph (1) is no longer sensitive information, notify your authority's monitoring officer, or in relation to a community council, your authority's proper officer asking that the information be included in your authority's register of members' interests.

(3) In this code, "sensitive information" ("*gwybodaeth sensitif*") means information whose availability for inspection by the public creates, or is likely to create, a serious risk that you or a person who lives with you may be subjected to violence or intimidation.

## Registration of Gifts and Hospitality

**17**. You must, within 28 days of receiving any gift, hospitality, material benefit or advantage above a value specified in a resolution of your authority, provide written notification to your authority's monitoring officer, or in relation to a community council, to your authority's proper officer of the existence and nature of that gift, hospitality, material benefit or advantage.

--------------------

# Y COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL

## RHAN 1
## DEHONGLI

**1.**—(1) Yn y cod hwn —

mae "aelod" ("*member*") yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond—

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno,

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-bwyllgor hwnnw;

ystyr "eich awdurdod" ("*your authority*") yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yw—

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac
Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

ystyr "cofrestr o fuddiannau'r aelodau" ("register of members' interests") yw'r gofrestr a sefydlir ac a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "cyfarfod" ("*meeting*") yw unrhyw gyfarfod —

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(ch) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grwˆp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990,

ac mae'n cynnwys amgylchiadau pan fo aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu swyddog sy'n gweithredu ar ei ben ei hun yn arfer un o swyddogaethau awdurdod; ac

ystyr "chi" ("*you*") yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol.

(2) Mewn perthynas â chyngor cymuned—

(a) ystyr "swyddog priodol" ("proper officer") yw swyddog o'r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; a

(b) ystyr "pwyllgor safonau" ("standards committee") yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## RHAN 2
## DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

**2.**—(1)Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn —

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(ch) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

**3.** Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu —

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo god sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

**4.** Rhaid i chi —

(a) cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) peidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a

(ch) peidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran.

**5**. Rhaid i chi —

(a) peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) peidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

**6**.—(1)Rhaid i chi —

(a) peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) adrodd i swyddog monitro eich awdurdod ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r cod ymddygiad hwn;

(ch) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

**7**. Rhaid i chi —

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio—

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

14.

**8**. Rhaid i chi —

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan —

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) prif swyddog cyllid yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pw^ er yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a arfaethir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodir gan eich awdurdod.

**9**. Rhaid i chi —

(a) parchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

## RHAN 3
## BUDDIANNAU

### Buddiannau Personol

**10**.—(1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r cod ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef —

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw —

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;
(chch)undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod,

yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

*[Nodyn: Mae is-baragraff (b) wedi ei hepgor.]*

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

16.

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

a hynny i raddau mwy—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

**Datgelu Buddiannau Personol**

**11.**—(1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud —

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod, neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o leiaf —

(a) manylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod.

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r cod hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r cod hwn.

## Buddiannau sy'n Rhagfarnu

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw—

(a) yn gysylltiedig—

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) â chorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â'ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol yr ydych yn un o'i llywodraethwyr;

(v) â'ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig:

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dad-cu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg lawnamser, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael, taliad o'r fath gan eich awdurdod;

18.

"(iv) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir yn unol â darpariaethau Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, neu lwfans neu bensiwn a ddarperir o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymunedol mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r esemptiadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys os yw'r busnes yn gysylltiedig â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

**Pwyllgorau Trosolygu a Chraffu**

**13**. Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath )—

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

**Cyfrannu mewn Perthynas â Datgelu Buddiannau**

**14.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (2A), (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ollyngiad gan bwyllgor safonau eich awdurdod —

(a) ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal—

(i) pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(ch) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(d) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid i chi roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(2) Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch fod yn bresennol mewn cyfarfod ond dim ond er mwyn gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, ar yr amod y caniateir hefyd i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i'r un diben, p'un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(2A) Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch gyflwyno cynrychioliadau ysgrifenedig i gyfarfod sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw, ar yr amod y caniateir i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod at y diben o wneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, pa un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(2B) Pan fyddwch yn cyflwyno cynrychioliadau ysgrifenedig o dan is-baragraff (2A), rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw weithdrefn y caiff eich awdurdod ei fabwysiadu ar gyfer cyflwyno cynrychioliadau o'r fath.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfod —

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor trosolwg neu graffu, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau'n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod gollyngiad wedi ei roi i chi ar yr amod—

(i) eich bod yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod a bod hwnnw'n cynnwys —

(aa) manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu'n gysylltiedig ag ef;

(cc)manylion y gollyngiad a'r dyddiad pryd y'i rhoddwyd; a

(chch) eich llofnod.

(4) Os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar ollyngiad, rhaid i chi ddarparu manylion am y gollyngiad o fewn unrhyw gynrychioliad ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf hwn, rhaid i chi ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer eich awdurdod o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

## RHAN 4
## COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU

### Cofrestru Buddiannau Personal

**15.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl—

(a) i god ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(b) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach),

20.

gofrestru eich buddiannau personol, os ydynt yn dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw newid i fuddiant personol a gofrestrwyd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r newid hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.

(4) Nid yw is-baragraffau (1), (2) a (3) yn gymwys i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(5) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

(6) Pan fyddwch yn datgelu buddiant personol yn unol â pharagraff 11 am y tro cyntaf, rhaid i chi gofrestru'r buddiant personol hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.

### Gwybodaeth sensitif

**16.**—(1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r buddiant hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r buddiant o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff (1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod, neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod gan ofyn am i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" ("*sensitive information*") yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fygythion.

### Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

**17.** Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno.

------------------

ATODIAD 2

NODYN BRIFFIO AR GYFER CLERCOD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED
Y gofynion cyfreithiol mewn perthynas â Datgan Diddordeb gan Aelodau

A. Cefndir

Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2015 wedi egluro'r sefyllfa mewn perthynas â datgan (llafar) a chofrestru (ysgrifenedig) diddordebau gan Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned. Nod y Nodyn Briffio hwn yw crynhoi'r gofynion hynny.

B. Y Gofynion

Mae **Atodiad 1** yn cynnwys dyfyniad o gyngor a ddosbarthwyd gan Un Llais Cymru. Cynghorir Clercod i ddarllen y cyngor hwn ac i dynnu sylw eu Haelodau ato.

(i) Dyletswydd Aelod:

- Cydymffurfio â'r safonau a osodir yng Nghod Ymddygiad eu Cyngor.
- **Peidio defnyddio eu statws i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad sy'n debygol o roi mwy o fantais/anfantais iddynt (neu gydnabod personol) na'r rhelyw o drigolion y ward.**
- I ddatgan diddordeb personol* neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu** ar lafar os, a phan, fydd y diddordeb hwnnw'n ymwneud â mater sy'n cael ei ystyried. Mae'n rhaid gwneud hynny pa un ai yw'r cyfarfod yn un ffurfiol neu'n anffurfiol.
- Mae'r gofyn i ddatgan diddordeb personol* neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu** hefyd yn cynnwys unrhyw rodd a/neu letygarwch a dderbyniwyd os yw'n gysylltiedig â'r mater sy'n cael ei ystyried.
- Mewn cyfarfodydd ffurfiol:

  □ Os yw aelod yn datgan diddordeb personol* / diddordeb sy'n rhagfarnu** am y tro cyntaf, mae'n rhaid i'r Aelod gyflwyno cadarnhad ysgrifenedig o'r diddordeb hwnnw i'r Clerc cyn diwedd y cyfarfod.

  Mae'n rhaid i'r cadarnhad gynnwys y canlynol o leiaf:-

  - Manylion am y diddordeb personol*/sy'n rhagfarnu**
  - Manylion am yr eitem busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag o;
  - Llofnod yr Aelod.

CC-19456-MY/350737

Os yw'r diddordeb yn un sy'n rhagfarnu**, mae'n rhaid i'r cadarnhad ysgrifenedig ddatgan hefyd ei fod o / ei bod hi wedi gadael yr ystafell gyfarfod a heb gymryd rhan yn y drafodaeth.

Er hwylustod, argymhellir bod Clercod yn defnyddio dogfen safonol ar gyfer cofrestru'r diddordeb.

☐ Os nad oes cofrestriad, ni fydd datganiad llafar yn unig yn ddigonol a bydd yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

☐ Mae'n rhaid cadarnhau yn ysgrifenedig unrhyw newid o safbwynt diddordebau personol*/sy'n rhagfarnu** yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod i'r newid ddigwydd.

(ii) Dyletswydd y Clerc:

- Cofnodi unrhyw ddiddordebau a gofrestrir gan Aelodau am y tro cyntaf mewn cyfarfod ffurfiol, yng Nghofrestr Diddordebau'r Cyngor.
- Nid oes ffurf benodedig ar gyfer y Gofrestr, ond mae defnyddio ffurflen safonol ar gyfer pob cofrestriad a'u casglu ynghyd mewn ffeil unigol, yn ôl dyddiad, neu yn ôl Aelod, yn ddigonol. Mae'r ffurflenni unigol hyn, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r Gofrestr.
- Sicrhau bod y Gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio ar unrhyw amser rhesymol, ac yn electronig ar wefan y Cyngor.
- Ychwanegu unrhyw gofnodion newydd i'r Gofrestr cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib ar ôl pob cyfarfod.
- Cofnodi datganiadau llafar a wneir mewn cyfarfodydd, yn y cofnodion, a sicrhau bod y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi, unwaith y byddant wedi cael eu cadarnhau.

(iii) Yn gyffredinol:-

Nid oes gofyn i Aelodau Cyngor Tref/Cymuned gwblhau cofrestr sefydlog o ddiddordebau h.y. cofrestru manylion ymlaen llaw am gyflogaeth/busnes/daliadau tir/aelodaeth ar gyrff allanol ayb. Dyletswydd Aelodau Tref/Cymuned yw datgan diddordeb "ar y pryd" os, a phan, fydd hynny'n codi mewn cyfarfod.

Mae'n rhaid i Aelodau hefyd gadw mewn cof bod angen iddynt ddatgan diddordeb personol* a diddordeb sy'n rhagfarnu** mewn cyfarfodydd anffurfiol, a thu allan i'r Cyngor, os ydynt yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel Aelodau. Mae'n debygol mai datganiad llafar yn unig fydd hwn, gan ei bod yn annhebygol y bydd system yn bodoli ar gyfer cofnodi datganiadau o'r fath.

Efallai y byddai'n arfer dda i Aelodau gadw eu cofnod eu hunain o unrhyw ddatganiadau a wneir o dan y fath amgylchiadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r Nodyn Briffio hwn, cysylltwch â:

Mared Wyn Yaxley ar mwycs@ynysmon.gov.uk/01248 752566,
Lynn Ball ar lbxcs@ynysmon.gov.uk <mailto:lbxcs@ynysmon.gov.uk>/01248 752586 neu
Robyn Wyn Jones ar rwjcs@ynysmon.gov.uk / 01248 752134

Troednodyn

* Diddordebau Personol - Cyfeiriwch at y Cod Ymddygiad sy'n cynnwys rhestr gyflawn o ddiddordebau personol posib

** Diddordebau sy'n Rhagfarnu – Diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsyllwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o gyfaddawdu gallu Aelod i weithredu er budd y cyhoedd.

CC-19456-MY/350737

ATODIAD 3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Canllawiau Statudol

# Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref

Mai 2015

OGL

ISBN digidol 978 1 4734 3399 1
© Hawlfraint y Goron 2015
WG25090

# CANLLAW LLYWODRAETH CYMRU

# GWYBODAETH AM GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

## Statws a Chymhwyso

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir, yn rhannol o dan adran 55(1) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan adran 55(1) y Ddeddf mae'n ddyletswydd statudol ar Gynghorau Cymuned a Thref i ystyried y canllaw hwn.

Mae'r canllaw hefyd yn berthnasol i'r ddarpariaeth yn y Ddeddf sy'n ymwneud â hysbysiadau cyhoeddus, cyfarfodydd a thrafodion y cynghorau a chofrestrau o fuddiannau aelodau.

## Cefndir

1. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ( Democratiaeth ) (Cymru ) 2013, y cyfeirir ati fel "y Ddeddf" yn y canllaw hwn, Gydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2013. Prif bwrpas y Ddeddf oedd diwygio cyfansoddiad a swyddogaethau'r hyn a elwir bellach yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Fodd bynnag, cyflwynodd y Ddeddf amrywiaeth o ddarpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol.

2. Mae adrannau 55 i 58 o'r Ddeddf yn ymwneud â mynediad at wybodaeth, ac yn fwyaf penodol, fynediad at wybodaeth am Gynghorau Cymuned. (At ddibenion y canllaw hwn, mae unrhyw gyfeiriad at Gyngor neu Gynghorau Cymuned yn cynnwys unrhyw Gyngor Cymuned, Tref neu Ddinas sy'n gwasanaethu cymuned neu gymuned wedi'i grwpio ac a gafodd ei sefydlu yn unol â Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ( "Deddf 1972").

3. I grynhoi, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gael gwefannau; i gyhoeddi hysbysiadau a phapurau'n electronig; ac i gyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau'r aelodau yn electronig (y rhai a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ).

## Gwefannau Cynghorau Cymuned – Adran 55

4. Mae Adran 55 o Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi gwybodaeth yn electronig am sut i gysylltu â hwy ac, os yw'n wahanol, sut i gysylltu â'r clerc. Mae'r wybodaeth a ddylai fod

ar gael yn electronig yn cynnwys rhif ffôn, cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost.

5. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi'n electronig wybodaeth am bob un o'i aelodau, gan gynnwys rhestr o aelodau'r cyngor, enw pob aelod, manylion am sut i gysylltu â hwy, eu hymlyniad gwleidyddol (os o gwbl) ac unrhyw swydd a ddelir ganddynt neu bwyllgor y maent yn perthyn iddo o fewn y cyngor. Os yw'r gymuned dan sylw wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol, rhaid dangos y ward y mae pob aelod yn ei chynrychioli.

6. Rhaid i'r Cyngor Cymuned hefyd gyhoeddi cofnodion electronig o'i gyfarfodydd ac, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ddogfennau y cyfeirir atynt yn y cyfarfodydd hynny. Mae'n rhaid iddynt hefyd gyhoeddi eu cyfrifon archwiliedig blynyddol yn electronig. Yn y ddau achos hyn, mae'n ofynnol i gynghorau gyhoeddi deunydd a gynhyrchwyd ar ôl y dyddiad pan ddaeth adran 55 i rym yn unig.

Nid yw'n ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi unrhyw wybodaeth y maent yn cael eu hatal rhag ei datgelu gan unrhyw ddeddfwriaeth arall.

7. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 55, mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned roi sylw i'r canllaw hwn.

**Canllaw ynglyn Gwefannau Cynghorau Cymuned**

8. Penderfyniad i bob Cyngor Cymuned unigol yw a fyddant yn gweithredu eu gwefan annibynnol eu hunain, neu a fyddant yn penderfynu cysylltu â Chynghorau Cymuned eraill yn eu hardal, neu â'r prif gyngor, neu ag unrhyw gorff arall sy'n hapus i gynnal eu safle. Fodd bynnag, mae'n ofynnol bod y gwefannau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd a bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a ddisgrifir uchod.

9. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella cysylltiadau'r cyhoedd â llywodraeth leol yn gyffredinol a Chynghorau Cymuned yn benodol. Rydym yn teimlo ei bod yn angenrheidiol bod modd cysylltu'n electronig â phob awdurdod lleol a'u bod wedi cyhoeddi gwybodaeth ar y we. Byddai trigolion lleol yn disgwyl cael y cyfleuster hwn yn yr oes hon.

10. Mae gan y rhan fwyaf o'r Cynghorau Cymuned yng Nghymru bresenoldeb ar-lein ac maent yn cyhoeddi gwybodaeth yn electronig eisoes. Mae Cynghorau Cymuned yn cael eu hannog i ofyn am gymorth

gan Un Llais Cymru, eu Prif Gyngor neu ffynonellau dibynadwy eraill os oes angen er mwyn datblygu eu presenoldeb ar y we.

11. O dan adran 55, mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'n electronig ei rif ffôn, ei gyfeiriad post ac e-bost ar y wefan. Mae'n rhaid cael yr wybodaeth hefyd ar gyfer clerc y Cyngor os yw'n wahanol i fanylion cysylltu â'r Cyngor. Byddai hefyd o fantais cael cyfeiriad e-bost cyffredinol at ddefnydd aelodau ac o bosibl Cadeirydd y cyngor. Mewn rhai achosion, bydd gan y Cyngor Cymuned ei swyddfeydd ei hun, neu bydd yn rhannu swyddfeydd, a byddai'n briodol cael rhif ffôn, cyfeiriad post ac e-bost y rhain hefyd. Ond bydd disgwyl i'r cynghorau gael trefniadau yn eu lle i ddarllen ac ymateb i negeseuon yn rheolaidd.

12. Nid yw'n orfodol i aelodau unigol gael cyfeiriadau e-bost. Mewn Prif Gyngor byddai hyn yn ddisgwyliedig oherwydd gall y Cyngor ei hun fel arfer roi cyfeiriadau e-bost ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhestru enwau'r aelodau a rhaid bod manylion ar-lein am sut i gysylltu â hwy. Bydd rhai cynghorau'n dymuno rhoi ffotograffau o bob aelod ar eu gwefan ond mae hyn yn benderfyniad iddynt hwy.

13. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi ymlyniad gwleidyddol aelodau'r cynghorau. Mae rhai Cynghorau Cymuned yn dewis peidio â gwneud hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hawl gan y cyhoedd i wybod beth yw argyhoeddiad gwleidyddol y rhai sydd mewn swydd etholedig, neu a ydynt yn annibynnol o unrhyw grŵp. Mae'n annerbyniol i aelod gelu ei ymlyniad gwleidyddol.

14. Os yw'r Cyngor Cymuned wedi'i rannu'n wardiau cymunedol, rhaid cyhoeddi'r ward y mae'r aelod yn ei chynrychioli. Os yw'n dal swydd o ryw fath yn y cyngor neu os yw'n perthyn i un o bwyllgorau'r cyngor, rhaid i hynny gael ei gyhoeddi ar y wefan.

15. Dylai aelodau cyfetholedig gael eu cofnodi er budd tryloywder i'w gwahaniaethu oddi wrth aelodau etholedig.

16. Mae paragraffau 4 i 6 uchod yn disgrifio'r dogfennau sydd angen eu rhoi ar y wefan. Dylai Cynghorau ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer cadw eu gwefan mewn trefn, gan gadw archif o ddogfennau'r gorffennol am gyfnod rhesymol, ond bod modd cael gafael arnynt yn hawdd o'r dudalen flaen.

17.Os oes gan y Cyngor Gynllun Iaith Gymraeg a'i arfer o dan y Cynllun Iaith Gymraeg yw i gynhyrchu deunydd yn ddwyieithog, yna mae hynny'n berthnasol yr un fath i ddeunydd sy'n cael ei gynhyrchu yn electronig.

18.Dylai darpariaethau y Ddeddf cael ei hystyried yn amlinellu'r gofynion sylfaenol. Bydd llawer o gynghorau yn awyddus i roi llawer mwy o wybodaeth na hyn ar eu tudalennau gwe ac yn cael eu hannog i wneud hynny. Bydd angen i gynghorau roi sylw i'r Côd Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol wrth ystyried pa mor briodol yw hyn y maent yn dymuno eu cyhoeddi.

http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/local-authority-publicity-wales/?lang=cy

19. Byddem yn disgwyl Cynghorau Cymuned i ystyried anghenion cymunedol gan gynnwys iaith, cyfathrebu a hygyrchedd. Mae gwefan Diverse Cymru yn rhoi arweiniad pellach.
http://www.diversecymru.org.uk

20. Dylai pob Cynghorau Cymuned a Thref gofrestru gyda'r wefan ganlynol,os hoffech Band Eang uwch gyflym gael eu hystyried yn eich cymuned leol.

http://btsf-wales-uat.lbi.co.uk/home?lang=_alt

21.O dan ddeddfwriaeth bresennol mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned osod unrhyw hysbysiadau cyhoeddus mewn un neu ragor o fannau amlwg yn eu hardal, ac mewn unrhyw fan arall sy'n ymddangos yn ddymunol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhybudd (adran 232 o Ddeddf 1972). Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar Gynghorau Cymuned i gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn electronig.

**Gwybodaeth am gyfarfodydd a thrafodion**

22. O dan ddeddfwriaeth mewn bodolaeth, mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned i bostio unrhyw hysbysiadau cyhoeddus mewn un neu fwy amlwg le yn eu hardal, ac yn unrhyw le arall sy'n ymddangos yn ddymunol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhybudd (adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972). Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar Gynghorau Cymuned i gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn electronig.

23.Mae deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned i roi rhybudd o gyfarfodydd y Cyngor sydd ar ddod dri diwrnod clir cyn y cyfarfod cael ei gynnal drwy arddangos hysbysiad mewn lle amlwg yn y gymuned. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar gyfer hysbysiadau o'r fath i gael ei gyhoeddi yn electronig. Rhaid gwneud hyn dri diwrnod clir cyn y cyfarfod. Mae gofyniad i gyhoeddi yn electronig, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r busnes i'w drafod yn y cyfarfod

hefyd. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r dogfennau yn ymwneud â busnes sydd, ym marn y Cyngor, yn debygol i'w drafod yn breifat neu lle byddai datgelu dogfennau o'r fath yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth arall.

24.O dan Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mae'n bosibl i gyfarfod cymunedol cael ei alw ar unrhyw adeg gan grŵp o etholwyr llywodraeth leol cyfanswm o 10% o'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned, neu 50 o'r etholwyr (os yw 10% yn fwy na 50 o etholwyr ). Rhaid i'r rhai sy'n galw'r cyfarfod rhoi rhybudd i Gyngor Cymuned neu, os nad oes Cyngor Cymuned wedi'i sefydlu yn yr ardal, rhaid rhoi rhybudd i'r Prif Gyngor. O dan y darpariaethau newydd, gellir rhoi rhybudd i'r Cyngor Cymuned naill ai'n ysgrifenedig neu'n electronig. Lle mae'n cael ei roi ar ffurf electronig, rhaid i'r hysbysiad gydymffurfio â'r gofynion technegol a osodwyd gan y Prif Gyngor.

25. Mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned a Prif Gynghorau ddarparu cyfleusterau ar gyfer hysbysiadau sydd i'w rhoi'n electronig a rhaid cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus o'r cyfarfod cymunedol yn electronig yn ogystal â thrwy gyfryngau traddodiadol.

26.Yn olaf, mae'r Ddeddf yn cynnwys gofynion newydd sy'n ymwneud â chofrestru buddiannau aelodau. Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn am Gyngor Cymuned (yn ogystal ag awdurdodau eraill) i gadw a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau ariannol ac eraill aelodau fel a bennir yn y cod ymddygiad enghreifftiol (a ragnodir gan Orchymyn o dan adran 50 o'r Deddf 2000 *). Cyn cychwyn adran 58 o'r Ddeddf, mae'r gofrestr sydd ei angen i fod ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ar bob adeg resymol. Mae Adran 58 o'r Ddeddf yn mynnu bod y gofrestr yn cael ei gyhoeddi ar ffurf electronig hefyd. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am sefydlu a chynnal cofrestr o fuddiannau gan swyddog monitro'r prif awdurdod i'r 'swyddog priodol' o bob Cyngor Cymuned. Y 'swyddog priodol' yw'r aelod o staff y Cyngor a ddynodwyd gan y Cyngor i'r diben hwn.

* Ar hyn o bryd, 'Y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008'

ATODIAD 4

# DATGANIADAU O DDIDDORDEB GAN AELODAU MEWN CYFARFODYDD

| |
|---|
| Enw'r Aelod: |
| Enw'r Cyfarfod: |
| Dyddiad y Cyfarfod: |
| Eitem ar y Rhaglen (rhif a theitl): |

**Rhaid i Aelodau lenwi blychau 1, 2, 3 a 4 isod.**

**1.** Natur y diddordeb personol yw:

**2.** Busnes y Cyngor y mae'r diddordeb personol yn ymwneud ag ef yw:

**3. Rhaid i'r Aelodau roi tic mewn un blwch**

☐ **Nid yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** ac fe gymerais ran yn yr eitem **NEU**

☐ **Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** a gadewais y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod **NEU**

☐ **Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** ond rwyf wedi cael caniatâd arbennig.

*Diddordeb sy'n rhagfarnu yw diddordeb personol sydd mor sylweddol fel y byddai aelod gwybodus o'r cyhoedd yn credu'n rhesymol na fyddai'r Aelod yn gallu gweithredu ar y mater er budd y cyhoedd.

4. Yn fy marn i, mae fy niddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu NEU sydd ddim yn rhagfarnu oherwydd:

Llofnod......................................    Dyddiad Llofnodi..........................

**DYLID RHOI'R FFURFLEN HON AR ÔL EI CHWBLHAU I AELOD O STAFF Y GWASANAETHAU PWYLLGOR YN YSTOD, NEU'N UNION AR ÔL, Y CYFARFOD.**



CC-016602-LB/160035

| **Cyngor Tref a Chymuned /**<br><br>**Town and Community Council** | **Ymateb wedi ei dderbyn ? (Do/Na)**<br><br>**Response Received? (Yes/No)** | **Dyddiad y cyfarfod**<br><br>**Date of Meeting** | **Copi o'r Cofnodion wedi eu darparu? (Do/Na)**<br><br>**Copy of Minutes supplied? (Yes/No)** |
|---|---|---|---|
| Cyngor Cymdeithas **Aberffraw** Community Council | Do / Yes | 19/7/2017 | Na. Ni fydd cyfarfod i gadarnhau y munudau wedi cymryd lle erbyn 13/9/2017<br><br>No. Meeting to confirm the minutes will not have taken place by 13/9/2017 |
| Cyngor Tref **Amlwch** Town Council | Do / Yes | 25/4/2017 | Do / Yes |
| Cyngor Tref **Biwmares / Beaumaris** Town Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas **Bodedern** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas **Bodffordd** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas **Bodorgan** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas **Bryngwran** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Tref **Caergybi / Holyhead** Town Council | Do / Yes | 4/4/2016 | Do / Yes |
| Cyngor Bro **Cwm Cadnant** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Bro **Cylch y Garn** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymuned **Llanbadrig** | Do / Yes | 15/5/2017 | Do / Yes |

| **Cyngor Tref a Chymuned /**<br><br><br>**Town and Community Council** | **Ymateb wedi ei dderbyn ?**<br>**(Do/Na)**<br><br>**Response Received? (Yes/No)** | **Dyddiad y cyfarfod**<br><br>**Date of Meeting** | **Copi o'r Cofnodion wedi eu darparu? (Do/Na)**<br><br>**Copy of Minutes supplied? (Yes/No)** |
|---|---|---|---|
| Community Council | | | |
| Cyngor Cymdeithas **Llanddaniel-Fab** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas **Llanddona** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas **Llanddyfnan** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas **Llaneilian** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymuned **Llanerchymedd** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymuned **Llaneugrad** Community Council | Do / Yes | 26/4/2017 | Do / Yes |
| Cyngor Cymdeithas **Llanfachraeth** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas **Llanfaelog** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas **Llanfaethlu** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymuned **Llanfair Mathafarn Eithaf** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas **Llanfair yn Neubwll** Community Council | Do / Yes | 16/5/2017 | Do / Yes |
| Cyngor Cymuned **Llanfairpwll** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas **Llanfihangelesceifiog** Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Tref **Llangefni** Town Council | Do / Yes | 02/5/2017 + 15/5/2017 | Do / Yes |

| **Cyngor Tref a Chymuned /**<br><br>**Town and Community Council** | **Ymateb wedi ei dderbyn ?**<br>**(Do/Na)**<br><br>**Response Received?**<br>**(Yes/No)** | **Dyddiad y cyfarfod**<br><br>**Date of Meeting** | **Copi o'r Cofnodion wedi eu darparu?**<br>**(Do/Na)**<br><br>**Copy of Minutes supplied?**<br>**(Yes/No)** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llangoed a Phenmon /**<br>**Llangoed and Penmon**<br>Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llangristiolus**<br>Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llanidan**<br>Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Mechell**<br>Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymuned<br>**Moelfre**<br>Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymuned<br>**Penmynydd a Star /**<br>**Penmynydd and Star**<br>Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Pentraeth**<br>Community Council | Na / No | | |
| Cyngor Tref<br>**Porthaethwy / Menai Bridge**<br>Town Council | | | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Rhoscolyn**<br>Community Council | Do / Yes | 18/4/2017 | Do / Yes |
| Cyngor Cymuned<br>**Rhosybol**<br>Community Council | Na / No | | |
| Cyngor<br>**Rhosyr**<br>Council | Do / Yes | 30/5/2017 | Do / Yes |
| Cyngor Bro<br>**Trearddur**<br>Community Council | Do / Yes | 15/5/2017 | Do / Yes |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Tref Alaw**<br>Community Council | Na / No | | |

| **Cyngor Tref a Chymuned /**<br><br>**Town and Community Council** | **Ymateb wedi ei dderbyn ? (Do/Na)**<br><br>**Response Received? (Yes/No)** | **Dyddiad y cyfarfod**<br><br>**Date of Meeting** | **Copi o'r Cofnodion wedi eu darparu? (Do/Na)**<br><br>**Copy of Minutes supplied? (Yes/No)** |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bro **Trewalchmai** Community Council | Do / Yes | 15/5/2017 | Do / Yes |
| Cyngor Cymuned **Y Fali / Valley** Community Council | Na / No | | |

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Medi 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiad Blynyddol o'r Cofrestrau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cytuno ar y Broses a'r Amserlen** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

Heblaw am yn 2016-17, pan ganolbwyntiodd y Pwyllgor Safonau'n llwyr ar y cofrestrau o ddiddordebau sy'n cael eu cynnal gan y cynghorau tref a chymuned, mae'r Pwyllgor wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r tair cofrestr o ddiddordebau sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor Sir mewn perthynas â'i aelodau.

Gan fod 30 aelod etholedig, y trefniant arferol yw bod aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn adolygu cofrestrau unrhyw chwe aelod etholedig, wedi eu dethol ar hap.

Y cofrestrau yw:-

- Y Gofrestr "Sefydlog" h.y. cofrestru ymlaen llaw y diddordebau hynny y gellir eu rhagweld yn rhesymol o dan y categorïau a nodir. Mae'r ffurflen safonol ynghlwm yn

  **http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/cynghorwyr-ac-aelodau-cyfetholedig-syn-pleidleisio-datganiadau-diddordeb?redirect=false**

- Datganiadau mewn Cyfarfodydd. Mae'r ffurflen safonol ynghlwm yn **ATODIAD 1**. Yn ogystal, cyhoeddwyd nodyn briffio ar gyfer aelodau mewn perthynas â diddordebau personol a diddordebau personol sy'n rhagfarnu.

- Rhoddion a Lletygarwch. Mae'r ffurflen safonol ynghlwm yn **ATODIAD 2**. Yn ogystal cyhoeddwyd nodyn briffio i aelodau ynglŷn â rhoddion a lletygarwch.

Mae tair Cofrestr ar gael i'r cyhoedd ar-lein ond ar ffurf crynodeb yn unig. Mae'r dogfennau llawn ar gael i'r cyhoedd hefyd, ar gais, ac i'r Pwyllgor, os oes angen. Mae'r Gofrestr Sefydlog a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar gael i aelodau eu cwblhau ar ffurf electronig yn unig. Mae'r Gofrestr o Ddatganiadau mewn Cyfarfodydd ar gael i aelodau ar bapur yn unig.

Yn wreiddiol, cynhaliwyd y broses adolygu fel ymarfer “desg” yn unig gydag aelodau’r Pwyllgor yn ystyried nodyn o gyngor cyffredinol (sydd wedi'i ddiweddaru) yn **ATODIAD 3** ac aelodau etholedig yn cael eu hysbysu o’r adolygiad. Anfonwyd y llythyr diwethaf ynglŷn â hyn at aelodau, cyn yr adolygiad diweddaraf ar 23 Tachwedd 2015 **ATODIAD 4**. Bydd aelodau’n cofio, wrth gynnal y ddau adolygiad diwethaf, er mai adolygiadau “desg” oeddynt, fod aelodau’r Pwyllgor wedi cysylltu’n uniongyrchol ag aelodau etholedig os oedd angen esboniad neu eglurhad ynglŷn â chofnodion penodol yn y Cofrestrau.

Yn dilyn yr adolygiad diweddaraf, rhoddodd y Pwyllgor Safonau gyfarwyddyd i swyddogion gyhoeddi cyngor generig i aelodau. Mae copi o’r cyngor generig diweddaraf yn **ATODIAD 5**.

## 2. ARGYMHELLION

1. Bod aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiad o’r tair cofrestr o ddiddordebau aelodau, gyda’r niferoedd yn cael eu rhannu’n gyfartal a’r enwau’n cael eu dethol ar hap;

2. Bod aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiad o gofrestrau o ddiddordeb aelodau cyfetholedig y Pwyllgorau Sgriwtini a’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;

3. Bod aelodau Cyngor Tref a Chymuned newydd y Pwyllgor Safonau, pan fyddant wedi eu penodi, yn cynnal adolygiad o ddiddordebau aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau;

4. Bod y broses adolygu y cyfeirir ati yn 1 a 2 uchod yn dechrau ar ....... (dyddiad y cytunir arno gan y Pwyllgor Safonau) ac yn gorffen erbyn .... (dyddiad y cytunir arno gan y Pwyllgor Safonau) a bod aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod yn anffurfiol i drafod canfyddiadau’r adolygiad cyn gynted ag sy’n bosib ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cwblhau’r gwaith.

5. O leiaf fis cyn dyddiad dechrau’r adolygiad, bydd y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at holl aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y Cyngor i’w hysbysu y bydd yr adolygiad yn digwydd, er mwyn sicrhau fod unrhyw ddiweddariadau’n cael eu cwblhau, ac i gadarnhau y bydd aelodau’r Pwyllgor Safonau o bosib yn cysylltu â nhw i drafod eu datganiadau o ddiddordeb unigol;

6. Yn dilyn trafodaeth anffurfiol gan y Pwyllgor Safonau, bydd llythyr yn cael ei gylchredeg i’r holl aelodau yn cadarnhau canlyniad yr adolygiad, yn unol â’r amserlen y cytunir arni yn y cyfarfod anffurfiol y cyfeirir ato ym mharagraff 4 uchod. Cyhoeddir gwybodaeth gyffredinol o’r fath ar raglen cyfarfod y Pwyllgor Safonau nesaf yn dilyn hynny a bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau’n codi unrhyw faterion cyffredinol yng nghyfarfod nesaf yr Arweinyddion Grwpiau yn dilyn yr adolygiad.

**ATODIAD 1**

## DATGANIADAU O DDIDDORDEB GAN AELODAU MEWN CYFARFODYDD

| |
|---|
| Enw’r Aelod: |
| Enw’r Cyfarfod: |
| Dyddiad y Cyfarfod: |
| Eitem ar y Rhaglen (rhif a theitl): |

**Rhaid i Aelodau lenwi blychau 1, 2, 3 a 4 isod.**

**1.** Natur y diddordeb personol yw:

**2.** Busnes y Cyngor y mae’r diddordeb personol yn ymwneud ag ef yw:

**3. Rhaid i’r Aelodau roi tic mewn un blwch**

☐ **Nid yw’r diddordeb personol yn un sy’n rhagfarnu*** ac fe gymerais ran yn yr eitem **NEU**

☐ **Mae’r diddordeb personol yn un sy’n rhagfarnu*** a gadewais y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod **NEU**

☐ **Mae’r diddordeb personol yn un sy’n rhagfarnu*** ond rwyf wedi cael caniatâd arbennig.

*Diddordeb sy’n rhagfarnu yw diddordeb personol sydd mor sylweddol fel y byddai aelod gwybodus o’r cyhoedd yn credu’n rhesymol na fyddai’r Aelod yn gallu gweithredu ar y mater er budd y cyhoedd.

4. Yn fy marn i, mae fy niddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu NEU sydd ddim yn rhagfarnu oherwydd:

Llofnod……………………………..….  Dyddiad Llofnodi………………………

**DYLID RHOI’R FFURFLEN HON AR ÔL EI CHWBLHAU I AELOD O STAFF Y GWASANAETHAU PWYLLGOR YN YSTOD, NEU’N UNION AR ÔL, Y CYFARFOD.**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

# DATGANIAD GAN AELODAU AC AELODAU CYFETHOLEDIG EU BOD WEDI DERBYN RHODD AC/NEU LETYGARWCH

Darllenwch y Canllawiau isod a nodir yn y Protocol ar Roddion a Lletygarwch yn 5.9 yng Nghyfansoddiad y Cyngor os gwelwch yn dda ac yna cwblhewch y manylion isod:

| | |
|---|---|
| Enw'r Aelod/Aelod Cyfetholedig | |
| Enw'r Rhoddwr/Darparwr | |
| Disgrifiad o'r rhodd neu'r lletygarwch | |
| Gwerth/amcangyfrif o werth y rhodd/lletygarwch | |
| Pryd a lle derbyniwyd y rhodd/lletygarwch | |
| Oedd unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n cyfiawnhau derbyn y rhodd neu'r lletygarwch hwn? | |
| A oes gennych unrhyw gyswllt gyda'r person neu'r sefydliad sy'n rhoi'r rhodd neu'r lletygarwch un ai yn eich swyddogaeth fel cynghorydd neu fel arall? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda | |
| Manylion am unrhyw gontract y mae gan y Rhoddwr/Darparwr diddordeb i'w sicrhau | |
| Sylwadau ychwanegol (os o gwbl) | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

# ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU – NODYN O GYNGOR CYFFREDINOL (GORFFENNAF 2017)

Mae'r dogfennau adolygu yn cynnwys y canlynol:-

1. **Y Gofrestr Sefydlog -** Mae hon i'w gweld ar wefan y Cyngor yn:

   **http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/cynghorwyr-ac-aelodau-cyfetholedig-syn-pleidleisio-datganiadau-diddordeb?redirect=false**

   Mae'r gofrestr hon ar gael i aelodau ei chwblhau ar-lein yn unig.

1.1 Mae hon yn cael ei chwblhau o fewn 28 diwrnod o etholiad ac wedyn yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen pan mae newidiadau yn digwydd. Anfonir llythyr blynyddol i'r holl aelodau i'w hatgoffa o'r gofynion yn y Côd Ymddygiad i aelodau ddiweddaru eu cofrestr o fewn 28 diwrnod o unrhyw newid o bwys yn eu diddordebau perthnasol.

1.2 Un pryder ydi'r anghysondeb rhwng aelodaeth o gyrff allanol sydd wedi cael eu cofnodi gan y Cyngor o'i gymharu â datganiadau o aelodaeth o gyrff allanol sydd wedi cael eu gwneud gan rai aelodau. Mae rhestr gyfredol y Cyngor o gyrff allanol, yn cynnwys rhestr o lywodraethwyr ysgol, ar gael ar-lein yn:

   **http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListOutsideBodies.aspx?bcr=1&LLL=1**

1.3 Cafwyd achosion yn y gorffennol lle 'roedd yn ymddangos bod ffurflenni wedi eu cwblhau cyn i aelodau gael eu penodi i wasanaethu ar gyrff allanol ond nid oeddent yn cael eu diweddaru wedyn ar ôl i'r penodiadau gael eu gwneud. Atgoffwyd yr Aelodau bod angen iddynt ddiweddaru eu cofnod yn y gofrestr sefydlog cyn pen 28 diwrnod pryd bynnag y cânt eu penodi i wasanaethu ar gorff allanol neu pan fyddant yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o gorff allanol.

   Daeth i sylw'r Pwyllgor hefyd nad yw rhai aelodau wedi bod yn cwblhau adran 1.6 y ffurflen sy'n nodi cyfeiriad unrhyw dir (yn cynnwys eu cartrefi) y mae ganddynt fuddiant llesiannol ynddo.

2. **Cofrestr o Ddatganiadau o Ddiddordebau mewn Cyfarfodydd –** Mae hon i'w gweld ar-lein yn:

   **http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?bcr=1&LLL=1**

   Mae'r gofrestr hon ar gael i aelodau ei chwblhau ar bapur yn unig.

2.1 Efallai eich bod yn dymuno datgan barn ynglŷn ag a yw'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn y ffurflenni hyn wedi gwella o gwbl o ganlyniad i adolygu'r ffurflenni hyn gan y Pwyllgor Safonau a chyhoeddi'r nodyn briffio ynglŷn â diddordebau personol a diddordebau personol sy'n rhagfarnu.

2.2 Ydi'ch adolygiad yn dangos os yw aelodau yn cael anhawster gyda'r ffurflen ai peidio? Os ydynt, a ydych eisiau rhoi cyngor pellach?

2.3 Mae wedi dod yn amlwg yn ystod adolygiadau blaenorol nad yw rhai aelodau bob amser yn rhoi disgrifiad digon eglur o'r tiroedd y maent yn eu dal. Mae'n rhaid i aelodau roi disgrifiad llawn a chywir o ddaliadau tir ac eiddo, ac mae'r un egwyddor yn wir am adeiladau hefyd.

2.4 Oes yna arwydd bod yr aelodau yn dal i ddatgan diddordebau nad ydynt yn berthnasol? Wrth ddadansoddi'r datganiadau o ddiddordeb a wnaed mewn cyfarfodydd ac ati fe ddarganfuwyd, yn gyffredinol, bod ffurflenni wedi eu cwblhau'n "frysiog" ac roeddent weithiau yn eithaf anodd ei darllen ac roedd teimlad y dylai'r aelodau wneud mwy o ymdrech i'w cwblhau mewn ffordd a fydd yn gwneud synnwyr i'r sawl sy'n eu darllen (h.y. aelodau o'r cyhoedd nad oes ganddynt wybodaeth neu arbenigedd penodol mewn perthynas â'r côd). Yn gyffredinol ac fel mater o egwyddor, dylai'r ffurflenni hyn "sefyll ar eu pennau eu hunain" i'r cyhoedd ddeall beth yw'r diddordeb a sut mae'n ymwneud â'r eitem dan sylw yn y rhaglen, a'r cysylltiad gyda'r eitem honno, p'un ai yw'n ddiddordeb personol neu'n diddordeb personol sy'n rhagfarnu y bu angen i'r aelod adael y cyfarfod o'i herwydd.

2.5 Daeth i'r amlwg hefyd bod rhai aelodau'n bod yn fwy gofalus nag sydd raid o ran datgan diddordebau mewn cyfarfodydd, yn arbennig felly mewn perthynas ag aelodau o'r teulu a gyflogir gan y Cyngor, lle 'roedd yn ymddangos nad oedd unrhyw eitem ar y rhaglen yr oedd y diddordeb hwnnw'n ymwneud â hi. Roedd hyn yn creu argraff nad yw rhai aelodau efallai yn meddwl digon ynghylch eu cyfrifoldebau i ddatgan diddordebau a'u bod efallai wedi dod i'r casgliad anghywir bod datganiadau cyffredinol a hollgynhwysol o'r fath yn rhoi iddynt ryw fath o ddiogelwch.

2.6 A yw aelodau'n cyflwyno digon o wybodaeth ynglŷn â diddordeb a sut mae'n berthnasol i'r eitemau ar y rhaglen? Os ydych yn dymuno edrych ar y mater mewn mwy o fanylder mae'r rhaglenni, adroddiadau a chofnodion ar gael ar wefan y Cyngor yn

**http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieDocHome.aspx?Categories=-13004&bcr=1&LLL=1**

Efallai y byddai'r Pwyllgor Safonau'n dymuno edrych arnynt er mwyn eu cymharu/cysoni â datganiadau mewn cyfarfodydd?

2.7 A oes unrhyw newidiadau yr hoffech eu hawgrymu i'r ffurflen er mwyn cynorthwyo aelodau neu wella eglurder neu dryloywder er mwyn y cyhoedd?

2.8 Yn ystod adolygiadau blaenorol darganfuwyd rhai enghreifftiau o aelodau yn datgan diddordebau mewn cyfarfodydd ond wedyn ddim yn cwblhau'r ffurflen datganiadau o ddiddordeb a wnaed mewn cyfarfodydd. Mae'n rhaid i aelodau gwblhau'r ffurflenni hyn a'u cyflwyno i'r swyddog pwyllgor perthnasol cyn diwedd y cyfarfod y datganwyd y diddordeb ynddo.

3. **Cofrestr o Roddion a Lletygarwch –** Mae hon i'w gweld ar-lein yn:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListGifts.aspx?bcr=1&LLL=1

Mae'r gofrestr hon ar gael i aelodau ei chwblhau ar-lein yn unig.

3.1 Mae'n rhaid gwneud Datganiadau o fewn 28 diwrnod o dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch sydd yn uwch na'r cyfyngiad o £20.

3.2 Gofynnir i chi adolygu'r cofrestriadau i weld os ydynt yn cydymffurfio gyda'r Protocol. Oes digon o wybodaeth yn cael ei chyflwyno? Ydi'r cofrestriadau yn amserol? Ydych yn meddwl bod y ffurflen yn rhoi digon o eglurder a thryloywder? Ellwch chi gynnig unrhyw welliannau pellach neu gyngor sydd angen ei gyflwyno i aelodau?

3.3 Efallai bod pryder yn y ffaith bod cyn lleied o gofrestriadau wedi cael eu gwneud, yn arbennig ynglŷn â lletygarwch. Efallai y byddwch eisiau cyflwyno nodyn i atgoffa aelodau ynglŷn â'r disgwyliadau.

**ATODIAD 4**

23/11/2015

Annwyl Gynghorydd/Aelod Cyfetholedig

**ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU DATGAN DIDDORDEB GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ysgrifennaf i'ch atgoffa bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnal ei adolygiad blynyddol o'r Cofrestrau sy'n cael eu dal gan y Cyngor ynglŷn â datganiadau o ddiddordebau gan Gynghorwyr / Aelodau Cyfethioledig yn fuan.

Cyn cynnal yr adolygiad yn ystod mis Ionawr/Chwefror 2016 rhoddir cyfle i Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig edrych ar eu manylion yn y Cofrestrau a'u gwirio er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir. Byddwch yn gwerthfawrogi bod yn rhaid rhoi gwybod am unrhyw newid o fewn 28 diwrnod i'r newid hwnnw gael ei wneud.

Mae 3 Cofrestr ar gael yn awr ar-lein a gellir eu gweld trwy ddilyn y cyswllt canlynol :-
http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/cynghorwyr-ac-aelodau-cyfetholedig-syn-pleidleisio-datganiadau-diddordeb?redirect=false

Er mwyn bod o gymorth, amgaeaf gopi o e-bost gafodd ei anfon i chi ar 13 Ebrill 2015 yn cadarnhau'r casgliadau a'r argymhellion o'r adolygiad diwethaf.

Felly, byddwn yn ddiolchgar petaech yn gwirio'r yr ydych wedi ei gofnodi yn y gofrestr a'u diweddaru hwy os yn briodol. Mae'n hanfodol fod yr holl ddiweddariadau i'r Gofrestr Sefydlog a'r Gofrestr o Roddion a Lletygarwch yn cael eu diweddaru drwy'r system Mod Gov. a bydd angen gwneud unrhyw ddiweddariadau i'r gofrestr o ddiddordebau mewn cyfarfodydd drwy'r Adain Bwyllgorau. Bydd y Pwyllgor Safonau hefyd yn adolygu cofnodiadau hyfforddiant ac adroddiadau blynyddol yr Aelodau.

Yn gywir

Mike Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Chair of the Standards Committee
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council
Document: CC-017471-AP/286453

**Medwen Jones**

**From:** Dafydd Humphreys
**Sent:** 13 April 2015 13:33
**To:** Aelodau GW6
**Cc:** Michael Wilson
**Subject:** Y Tair Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau / The Three Registers of Members' Interests

Annwyl Gynghorydd,

Fel y gwyddoch mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiad blynyddol o'r tair Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau. Mae'r Pwyllgor Safonau yn credu mai ei swyddogaeth yw cynorthwyo Cynghorwyr i gydymffurfio â'u dyletswyddau yn hytrach 'na chwilio am gamgymeriadau, ac rydym yn gobeithio bydd argymhellion yr adolygiad yn ddefnyddiol i chi.

Diolch am eich cymorth a'ch cefnogaeth gyda'r adolygiad, ac am ddiweddaru eich ffurflenni pan yn angenrheidiol cyn i'r adolygiad gael ei gynnal.

Yn dilyn yr adolygiad eleni, mae'r pwyllgor yn gofyn i chi roi sylw dyledus i'r casgliadau cyffredinol sydd fel a ganlyn:-

**Y Gofrestr Sefydlog**

1. Rydym yn atgoffa Aelodau yn benodol i sicrhau bod eu cyfeiriadau a'u daliadau tir wedi eu disgrifio yn glir yn rhan 1.6 o'r gofrestr. Os nad oes gan Aelod ddiddordeb mewn tir yna dylai nodi 'Dim' neu 'Dim diddordeb' ar y gofrestr.

2. Mae'n bwysig hefyd i Aelodau ddatgelu eu haelodaeth o gyrff cyhoeddus eraill, elusennau a chymdeithasau. Dylai Aelodau nodi enw a chyfeiriad llawn y cyrff/elusennau y maent yn aelodau ohonynt.

3. Mae yna hefyd anghysondebau o ran aelodaeth o gyrff allanol, fel y cofnodwyd gan y Cyngor, a'r rheini a ddatganwyd; nid ydynt yn cael eu datgan yn y ffurflenni bob amser er eu bod yn cael eu rhestru ar "dudalen flaen" pob Cynghorydd. Gellir gweld enghraifft o "dudalen flaen" Cynghorydd ar y ddolen a ganlyn:- http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=650&LLL=1

4. Pan fo Aelodau yn datgan diddordeb busnes nid ydynt yn rhoi digon o wybodaeth ynglŷn â natur y diddordeb busnes.

**Datgan diddordebau mewn cyfarfodydd**

1. Mae yna lawer o enghreifftiau o Aelodau yn ticio'r blwch i ddweud fod ganddynt ddiddordeb ond nid ydynt yn rhoi manylion am y diddordeb. Mae angen rhoi manylion am beth yw'r diddordeb a hefyd a yw'r diddordeb yn un personol neu'n un sydd yn rhagfarnus neu'r ddau.

2. Nid yw Aelodau yn rhoi digon o wybodaeth am natur y diddordeb a sut mae'n ymwneud â'r eitemau ar y rhaglen. Mae angen bod yn fwy eglur yn hyn o beth;

3. Mae yna ddatganiadau diddordeb anghyson yn cael eu gwneud mewn gwahanol gyfarfodydd gan yr un Aelod ynghylch yr un mater. Mae Aelodau weithiau yn pleidleisio mewn rhai cyfarfodydd

ac ymatal mewn rhai eraill pan mae'r un mater yn cael ei drafod. Mae hyn yn awgrymu diffyg dealltwriaeth. Os nad yw Aelod yn sicr a oes yna ddiddordeb sydd angen ei ddatgelu, dylai'r Aelod ofyn am gyngor.

4. O bryd i'w gilydd, mae Aelodau yn datgan diddordeb mewn cyfarfodydd ar lafar, ond ddim yn cwblhau'r gwaith papur. Bydd angen cwblhau'r ffurflen ar gyfer datgan diddordeb mewn cyfarfod bob tro lle mae diddordeb fel hyn yn cael ei ddatgan ar lafar, gan nid yw yn ddigon i ddatgan diddordeb ar lafar yn unig.

5. Mae rhai datganiadau'n parhau i gael eu gwneud heb fod raid, er enghraifft, datganwyd diddordeb gan un Aelod pan nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**Cofrestr o roddion a lletygarwch**

Ychydig iawn o ddatganiadau sydd yn cael eu gwneud ynghylch rhoddion a lletygarwch a gwahoddir Aelodau i ailymgyfarwyddo gyda'r Protocol ar gyfer Rhoddion a Lletygarwch:- http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/cyfansoddiad-59-protocol-ar-roddion-a-lletygarwch?redirect=false

**Hyfforddiant**

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi nodi bod sawl Aelod wedi methu â dod i ddigon o sesiynau hyfforddiant eleni.

Mae'r casgliadau yma yn gosod allan y canlyniadau cyffredinol o'r adolygiad, ond mi fydd aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn cysylltu gydag ambell Aelod Etholedig yn uniongyrchol lle bydd angen, er mwyn sicrhau fod yr Aelodau yna yn diweddaru eu datganiadau lle teimlwyd fod problem wedi codi yn ystod yr adolygiad. Os gwelwch yn dda a fuasech felly yn barod i drafod eich cofrestr gyda'r Pwyllgor Safonau rhag ofn bod un ohonynt yn cysylltu gyda chi.

Mae'r pwyllgor yn gwerthfawrogi eich bod i gyd yn brysur iawn ac yn ymwybodol mai dim ond un o nifer o'r tasgau y mae'n rhaid i chi roi sylw iddynt yw hon. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio fod yr argymhellion uchod o gymorth i arbed amser i Aelodau oherwydd fod gwella safon y ffurflenni, gyda gobaith, yn osgoi cyflwyno cwynion di sail sy'n draul ar amser.

*****************************************************************************

Dear Councillor,

As you know, the Standards Committee conducts an annual review of the three Registers of Members' Interests. The Standards Committee believe their role is to assist councillors to comply with their duties, not to look for errors, and we hope that you will find the recommendations from the review helpful.

Thank you for your support and assistance with the review, and for updating your forms where necessary prior to the review being conducted.

Following this year's review, the Committee asks that you have due regard to its general findings, which are as follows:-

**The Standing Register**

1. We would remind Members specifically to ensure that their addresses and land holdings are clearly described in section 1.6 of the register. If a Member has no interest in land they should enter 'None' or 'No Interest' on the register.

2. It is also important that Members disclose their membership of other public bodies, charities and associations. Members should provide the full name and address of organisations/charities of which they are members.

3. There are also inconsistencies in terms of membership of external organisations between those listed by the Council and those declared by individual members; they are not always recorded on the forms although they are listed on every Councillor's "front page". An example of a Councillor's "front page" can be found via the following link:-
http://democracy.anglesey.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=650&LLL=0

4. Where members are declaring a business interest they're not providing enough information on what the business interest is.

**Declaration of interests in meetings**

1. There are many examples of Members ticking the box to declare an interest but not providing details of that interest. Details are required of the nature of the interest and whether that interest is a personal or a prejudicial interest or both.

2. Members do not provide sufficient information regarding the nature of the interest and how it relates to the items on the agenda. Greater clarity is required in this respect.

3. Inconsistent declarations of interest are made in various meetings by the same Member on the same matter. Members occasionally vote in some meetings and abstain in others when the same matter is being discussed. This suggests a lack of understanding. If Members are unsure as to whether they have a declarable interest they should seek advice.

4. Members occasionally declare an interest orally at meetings but do not complete the paperwork. The form needs to be completed for declarations of interest at every meeting where such an interest is declared orally, as oral declarations of interest alone are not sufficient.

5. Some interests are continuing to be declared unnecessarily, for example, one Member declared an interest when he was not present at the meeting.

**Register of Gifts and Hospitality**

Few declarations are made with regard to gifts and hospitality and members are invited to re-familiarise themselves with the Protocol of Gifts and Hospitality:-
http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/constitution/constitution-part-5-codes-and-protocols/constitution-59-protocol-on-gifts-and-hospitality/

**Training**

The Standards Committee has observed that several members have failed to attend sufficient training this year.

These findings set out the general conclusions of the review but Members of the Standards Committee will be contacting some elected Members direct, if needed, in order to ensure that they update their declarations where it is felt that a problem has arisen during the review. Would you therefore please be ready to discuss your register with the Standards Committee in case one of them contacts you.

The Committee appreciates that you are all very busy and is aware that this task is only one of a number that you have to address. However, we hope that the above recommendations will assist in saving time for Members as improving the standard of the forms will hopefully avoid groundless and time consuming complaints.

Yn Gywir / Regards

Mike Wilson

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau /Chair of the Standards Committee,
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council
Document: CC-017471-AP/257200

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **13 Medi 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Aelod Annibynnol – Swydd Wag Achlysurol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Diweddariad ar y broses recriwtio** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

Mae swydd wag achlysurol wedi codi ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

Mae proses statudol y mae'n rhaid ei dilyn wrth recriwtio aelodau annibynnol, sy'n gofyn am Banel Dethol.

Rhaid i'r Panel Dethol gynnwys tri chynghorydd sir, un cynghorydd tref/cymuned ac un aelod o'r cyhoedd. Ni chaniateir i'r rhai hynny sydd ar y Panel Dethol fod yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau hefyd.

Mae'r Cyngor wedi penodi tri chynghorydd sir i'r Panel Dethol ac mae'r cynghorydd tref/cymuned wedi ei benodi yn dilyn proses o enwebu/dethol gan y cynghorau tref/cymuned. Fodd bynnag, mae wedi profi'n fwy heriol penodi aelod o'r cyhoedd i'r panel. Ni chafwyd unrhyw ymgeiswyr yn dilyn proses o hysbysebu cyhoeddus (**ATODIAD 1**), nid oedd y cyn-aelod yn gallu ymgymryd â'r rôl gan nad oedd hi bellach yn bodloni'r meini prawf ac nid oedd ein cynghorau sir cyfagos wedi penodi aelod annibynnol i'w paneli dethol. O dan yr amgylchiadau, yn dilyn trafodaeth ymysg Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor, gofynnwyd i rywun penodol yn uniongyrchol a fyddai ganddynt ddiddordeb ac fe benodwyd yr unigolyn hwnnw.

Ers hynny, mae wedi profi'n anodd trefnu cyfarfod cyntaf y Panel Dethol. O ganlyniad i broblemau parhaus o safbwynt argaeledd aelodau, rydym bellach am gynnal cyfarfod o'r Panel â chworwm o bedwar aelod (i gynnwys y cynghorydd tref/cymuned a'r aelod annibynnol), a bydd yn cyfarfod ar 20 Medi, 2017.

## 2. GWAITH Y PANEL DETHOL

Bydd y Panel Dethol yn cyfarfod ar 20 Medi, 2017 er mwyn cymeradwyo'r broses hysbysebu, y ffurflen gais a'r canllawiau a bydd dyddiad yn cael ei drefnu i'r Panel gyfarfod eto, er mwyn llunio rhestr fer.

Yna, bydd ymgeiswyr sydd wedi eu rhoi ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd am gyfweliad gan y Panel ar ddyddiad/dyddiadau i'w gytuno arno/cytuno arnynt.

Bydd Agenda y Panel Dethol a phapurau'r Adroddiad yn cael eu cyhoeddi ar 13 Medi 2017

Yn dilyn y broses gyfweld ac ar ôl cael geirdaon, bydd y Panel yn penodi unigolyn er bydd angen i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r penodiad yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr, 2017.

## 3. ARGYMHELLIAD

Nid oes gan y Pwyllgor Safonau rôl i'w chwarae yn y penodi a darperir yr adroddiad hwn er mwyn diweddaru'r Pwyllgor am y sefyllfa bresennol a'r dyddiad a ragwelir ar gyfer cwblhau'r broses.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**GWAHODDIR CEISIADAU AM AELOD I WASANAETHU AR BANEL I DDEWIS AELODAU NEWYDD AR GYFER PWYLLGOR SAFONAU'R CYNGOR**

Yn dilyn ymddiswyddiad un Aelod, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn bwriadu penodi aelod annibynnol o'r cyhoedd i fod ar ei Bwyllgor Safonau.

Ond yn gyntaf bydd raid i'r Cyngor sefydlu Panel Dethol ac arno dri chynghorydd sir, un cynghorydd tref/cymuned ac un aelod annibynnol o'r cyhoedd.

**Felly rydym yn gwahodd y cyhoedd sydd eisiau cael eu penodi fel aelodau annibynnol o'r Panel Dethol i gyflwyno cais ac :-**

- sydd wedi eu cofrestru i bleidleisio yn Ynys Môn;
- sy'n dymuno bod yn aelod annibynnol o'r Panel Dethol;
- sydd yn bodloni'r gofynion perthnasol a hynny'n cynnwys profiad o recriwtio a dewis a hefyd sydd gyda gwybodaeth am faterion cyfleon cyfartal;
- sydd yn annibynnol yn wleidyddol a heb unrhyw gyswllt gyda'r Cyngor;
- sydd ar gael i fynychu cyfarfodydd yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni er mwyn:
  - dewis aelod annibynol er mwyn llenwi'r swydd wag gyfredol;
  - dewis aelodau annibynnol newydd er mwyn llenwi unrhyw swyddi gwag achlysurol pellach cyn 17.12.2019; a
  - dewis aelodau annibynnol newydd i fod ar y Pwyllgor Safonau o 17.12.2019 pan fydd y tymor presennol yn dod i ben.

**APPLICATIONS INVITED FOR MEMBERSHIP OF A PANEL TO CHOOSE NEW MEMBERS OF THE COUNCIL'S STANDARDS COMMITTEE**

Following the resignation of one Member, The Isle of Anglesey County Council intends to appoint an independent member of the public to its Standards Committee.

To do so the Council must establish a Selection Panel of three county councillors, one town or community councillor and one independent member of the public.

**Applications are therefore invited from members of the public who wish to be appointed as the independent member of this Selection Panel, and who :-**

- are registered to vote on Anglesey;
- wish to be appointed as the independent member of the Selection Panel;
- meet the relevant criteria, including current experience of recruitment and selection and knowledge of equal opportunities issues;
- are politically independent and have no connection to the Council; and
- are available to attend meetings at the Council Offices in Llangefni to:
  - Select a new independent member to fill the current vacancy;
  - To select new independent members to fill any further casual vacancy before 17.12.2019; and
  - To select new independent members to the Standards Committee from 17.12.2019 when the current term ends.

Ni fydd tâl am y gwaith ond telir rhai costau yn unol â chynllun y Cyngor Sir.

Gallwch gael ffurflen gais a manylion am y broses trwy gysylltu â Miss Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW. Ffôn 01248 752586

**Bydd raid dychwelyd y ffurflenni wedi eu cwblhau i'r Cyngor erbyn 5 o'r gloch dydd Mawrth, 28 Chwefror 2017.**

Polisi'r Cyngor yw hyrwyddo ac integreiddio Cyfleon cyfartal ym mhob agwedd ar ei waith ac felly mae'n gwahodd ac yn annog ymgeiswyr o'r grwpiau hynny sydd, ar hyn o bryd, wedi eu tangynrychioli – ac yn cynnwys merched, lleiafrifoedd ethnig a phobl gydag anableddau. Yn y broses defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a phenodir yn ôl gallu a rhinweddau'r unigolyn yn seiliedig ar gais ysgrifenedig yn unig. Ni fydd cyfweliadau yn cael eu cynnal.

**Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei ddewis yn fuan ym mis Mawrth 2017. Rhoddir gwybod i'r holl ymgeiswyr cyn gynted ag y bo'n bosib ar ôl hynny.**

The appointment will not be remunerated but certain expenses will be payable in accordance with the County Council's scheme.

An application form and further details may be obtained from Miss Lynn Ball, Head of Function (Council Business)/Monitoring Officer, County Council Offices, Llangefni, Isle of Anglesey LL77 7TW. Phone No. 01248 752586.

**Completed forms must be received by the Council no later than 5pm on Tuesday, 28 February 2017.**

The policy of the County Council is to promote and integrate equality of opportunity into all aspects of its work. The Council therefore welcomes and encourages applications from groups currently under represented, including women, ethnic minorities and people with disability. The principles of fair and open competition will apply and the appointment will be made on merit as demonstrated by the written application alone. No interviews will be conducted.

**Selection is due to take place in early March 2017. All candidates will be notified in writing as soon as possible thereafter.**

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg.
Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English.
You will receive the same standard of service in both languages.

EITEM 12

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Medi, 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Seddau Gwag ar y Pwyllgor Safonau – Aelodau Cynghorau Cymuned / Tref** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau am y sefyllfa gyfredol o ran recriwtio / penodi** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

Dywed Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016: -

"Ni fydd cyfnod swydd aelod o bwyllgor safonau awdurdod lleol sy'n aelod o gyngor cymuned yn hwy na'r cyfnod tan yr etholiadau cyffredin nesaf ar gyfer y cyngor cymuned y mae ef neu hi yn aelod ohono yn dilyn ei benodiad / phenodiad i'r pwyllgor safonau".

Oherwydd y cynhaliwyd yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017, mae cyfnodau'r Cynghorydd John Roberts (Cyngor Cymuned Llanfairpwll) a'r Cynghorydd John Chorlton (Cyngor Tref Caergybi), fel cynrychiolwyr cynghorau cymuned ar y Pwyllgor Safonau wedi dod i ben yn awtomatig ac felly mae'n ofynnol ar y Cyngor Sir i ddechrau proses ddethol o'r newydd.

Yn ôl y ddeddfwriaeth 'does ond raid cael un cynrychiolydd ar gyfer cynghorau tref / cymuned ar y Pwyllgor Safonau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu ei fod angen dau, er mwyn sicrhau bod ganddo gynrychiolydd bob amser pe byddai

datganiad o ddiddordeb yn codi (e.e. os yw'r cynrychiolydd yn aelod o'r cyngor tref / cymuned dan ystyriaeth).

Mae'n rhaid i'r Cyngor Sir gadarnhau'r penodiad terfynol yn dilyn proses enwebu a dethol y mae'r holl gynghorau tref a chymuned yn cymryd rhan ynddi.

## 2 Y BROSES HYD YMA

Er mwyn casglu manylion am enwebeion, anfonwyd llythyr at glercod yr holl gynghorau tref a chymuned ar 31 Mai 2017 yn egluro'r cyd-destun a'r broses. Mae copi o'r llythyr hwnnw ynghlwm yn **ATODIAD 1.**

Darparwyd ffurflen gais a gofynnwyd bod manylion am enwebiadau yn cael eu hanfon i'r Cyngor Sir erbyn dim hwyrach na 5pm ar 31 Gorffennaf 2017 a gwahoddwyd pob cyngor tref / cymuned i enwebu un ymgeisydd yn unig.

Erbyn y dyddiad cau, sef 31 Gorffennaf 2017, roedd saith o enwebiadau wedi dod i law ac fe'u cylchredwyd i'r holl glercod cyngor tref / cymuned ar 8 Awst 2017.Mae'r e-bost/llythyr ar gael yn **ATODIAD 2.** Gofynnwyd i bob cyngor tref / cymuned bleidleisio i ddim mwy na dau o'r saith ymgeisydd ar y papur pleidleisio a'i ddychwelyd i'r Cyngor Sir erbyn dim hwyrach na 5pm ar 29 Medi 2017.

## 3. Y BROSES DDILYNOL

Unwaith y bydd y dyddiad cau wedi mynd heibio, sef 5pm ar 29 Medi 2017, bydd Cadeirydd y Cyngor Sir a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau yn goruchwylio'r cyfrif ac os bydd dau neu ragor o'r ymgeiswyr sydd eu hangen wedi cael yr un nifer o bleidleisiau, bydd Cadeirydd y Cyngor yn gwneud y dewis trwy dynnu enwau.

Yn dilyn y broses hon bydd yr ymgeiswyr a'r holl gynghorau tref a chymuned yn cael gwybod. Yna, bydd yn rhaid i'r Cyngor Sir gadarnhau'r penodiadau'n ffurfiol. Rhagwelir y bydd hynny'n digwydd yn y cyfarfod cyffredin nesaf o'r Cyngor Sir ar 12 Rhagfyr 2017. Fodd bynnag, os cynhelir cyfarfod arbennig yn y cyfamser, yna mae'n dra phosib y gellid defnyddio'r cyfarfod hwnnw i gadarnhau'r penodiadau. Bydd y penodiadau yn parhau i fod mewn grym tan 8 Mai 2022, neu'n dod i ben cyn y dyddiad hwnnw os na fydd un / y ddau o'r rheini a benodir yn parhau i gwrdd â'r meini prawf cymhwyster.

## 4. ARGYMHELLIAD

Er gwybodaeth

**ATODIAD/ENCLOSURE 1**

**BUSNES Y CYNGOR / COUNCIL BUSINESS**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.) Cyfreithiwr/Solicitor**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

CYNGOR SIR YNYS MON /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn / Anglesey
LL77 7TW

DX: 701771 – LLANGEFNI

ffôn / tel: (01248) 752586
ffacs / fax: (01248) 752132
E-Bost – E-mail: LBXCS@anglesey.gov.uk

Ein Cyf – Our Ref. LB/MWJ/CC-019937-MWY
Eich Cyf – Your Ref.

I Clercod holl Cynghorau Tref a Cymuned
To all Clerks Town and Community Councils

31/5/2017

Annwyl Glerc

**PWYLLGOR SAFONAU - CYNRYCHIOLWYR Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED AR Y PWYLLGOR**

Yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016: "Ni fydd tymor aelod o bwyllgor safonau awdurdod lleol sy'n aelod o gyngor cymuned yn parhau am gyfnod a fydd yn hwy na'r cyfnod **tan yr etholiadau arferol nesaf ar gyfer y cyngor cymuned** y mae ef neu hi yn aelod ohono yn dilyn ei benodiad/ei phenodiad i'r pwyllgor safonau." (18A(1)) **(fy mhwyslais i)**.

Wrth gwrs, cynhaliwyd yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017 ac o'r herwydd mae tymor y Cynghorwyr John Roberts (Cyngor Cymuned Llanfairpwll) a John Chorlton (Cyngor Tref Caergybi) fel aelodau o'r Pwyllgor Safonau, bellach wedi dod i ben. O'r herwydd, rhaid i'r Cyngor Sir gynnal

Dear Clerk

**STANDARDS COMMITTEE - TOWN AND COMMUNITY COUNCIL REPRESENTATIVES ON THE COMMITTEE**

In accordance with The Local Government (Standards Committees, Investigations, Dispensations and Referral) (Wales) (Amendment) Regulations 2016: "The term of office of a member of a local authority standards committee who is a community committee member shall be no longer than the period **until the next ordinary elections for the community council** of which he or she is a member following his or her appointment to the standards committee." (18A(1)) **(my emphasis)**.

Local elections have, of course, taken place in May 2017 and so the term of office of Councillors John Roberts (Llanfairpwll Community Council) and John Chorlton (Holyhead Town Council), as members of the Standards Committee, have now ended. The County Council must therefore

proses ddethol o'r newydd.

Yn ôl y ddeddfwriaeth, dim ond un Cynghorydd Tref/Cymuned sydd ei angen fel cynrychiolydd ar y Pwyllgor Safonau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir hwn wedi penderfynu ei fod angen dau er mwyn sicrhau bod ganddo gynrychiolaeth bob amser petai gwrthdrawiad diddordeb yn codi (e.e. bod y cynrychiolydd yn aelod o'r Cyngor Tref / Cymuned sydd dan ystyriaeth). Ar y sail hon, dim ond un enw gaiff bob Cyngor Tref / Cymuned ei gyflwyno.

**Os hoffai eich Cyngor chi enwebu un o'i aelodau etholedig i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, gofynnwn os gwelwch yn dda i chi drefnu i'r ffurflen gais dydd ynghlwm gael ei llenwi a'i dychwelyd i mi erbyn 5pm ar 31 Gorffennaf 2017.**

Bydd yr holl ffurflenni cais a dderbynnir (p'un ai ar bapur neu'n electronig) erbyn y dyddiad cau, yn cael eu rhannu gyda'r holl Gynghorau Tref a Chymuned a fydd wedyn yn cael cyfle i bleidleisio, drwy'r post, am yr ymgeiswyr y maent yn eu ffafrio.

Bydd y broses yn cael ei goruchwylio gan Gadeirydd y Cyngor a Chadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau. Os ceir yr un nifer o bleidleisiau ar gyfer mwy na dau ymgeisydd, bydd Cadeirydd y Cyngor yn dewis drwy bleidlais.

Bydd canlyniad y broses yn cael ei rannu a'r holl glercod yn cael gwybod.

Bydd cyfnod y penodiad yn parhau hyd at yr etholiadau arferol nesaf ar gyfer y Cyngor Tref/Cymuned y mae'r ymgeisydd llwyddiannus yn aelod ohono. Gellir penodi aelod o Gyngor Tref/Cymuned ar y Pwyllgor Safonau am hyd at ddau dymor. Nodwch os gwelwch nad yw Cynghorwyr Sir cyfredol a phobl sy'n gweithio ar hyn o bryd i Gyngor Sir Ynys Môn yn gymwys i gael eu

embark on a fresh selection process.

The legislation only requires one Town/Community Councillor representative on the Standards Committee. However, this County Council has decided that it requires two, so as to ensure that it always has a representative in the event of a conflict of interest arising (e.g. if the representative is a member of the Town/Community Council under consideration). On this basis, a maximum of only one name may be put forward by each Town/Community Council.

**If your Council would like to nominate one of its elected members to sit on the Standards Committee then we ask that you please arrange for the attached application form to be completed and returned to me by 5pm on 31 July 2017.**

All application forms received (whether on paper or electronically) by the deadline will be shared with all Town and Community Councils, who will then be given an opportunity to vote, by post, for their two preferred candidates.

The process will be overseen by the Chairman of the Council and the Independent Chairman of the Standards Committee. In the event of an equality of votes for more than two candidates, the Chairman of the Council will make the selection by ballot.

The outcome of the process will be shared and all clerks will be informed.

The period of appointment will be until the next ordinary elections for the Town/Community Council of which the successful applicant is a member. A Town/Community Council member on the Standards Committee may be appointed for up to two terms. Please note that current County Councillors and current employees of the Isle of Anglesey County Council are

henwebu.

not eligible to be nominated.

Telir cydnabyddiaeth am y rôl hon yn unol â'r Cynllun Lwfansau i Aelodau'r Cyngor.

The role is remunerated in accordance with the Council Members' Allowances Scheme.

**Felly, i grynhoi, os hoffech enwebu rhywun i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, sicrhewch os gwelwch yn dda fy mod yn derbyn eu ffurflen enwebu wedi ei chwblhau erbyn 5pm ar 31 Gorffennaf 2017 fan bellaf.**

**So, to recap, if you would like to put forward a nominee to sit on the Standards Committee please ensure that I receive their completed nomination form by no later than 5pm on 31st July 2017.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch neu anfonwch e-bost ataf - 01248 752586 / lynnball@ynysmon.gov.uk

If you have any queries please telephone or email me on 01248 752586 / lynnball@anglesey.gov.uk

Diolch o galon

Many thanks

Cofion

Regards

Lynn Ball
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Head of Function (Council Business) / Monitoring Officer

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

Nodwch y bydd yr Uned Gyfreithiol a Chwiliadau Tir ond ar gael i dderbyn galwadau ffôn rhwng 10 y bore a hanner dydd a dau a pedwar yn y pnawn o hyn ymlaen. Os oes mater gwirioneddol frys y tu allan i'r oriau yma dylwch anfon e-bost i'r unigolyn gan gynnwys "BRYS" yn y llinell destun.

Note that the Legal and Land Charges Section will only answer phone calls between 10am and noon and 2 and 4 pm from now on. If a matter is truly urgent outside of these hours then send an email to the individual containing the word "URGENT" in the subject line.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Pwyllgor Safonau

| Ar gyfer Aelodaeth o'r Pwyllgor Safonau –<br>Cynghorwyr Tref a Chymuned |
|---|

**Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau Rhan 1 o'r ffurflen hon, a Rhan 2 a Rhan 3 fel y mae'r ymgeisydd yn ystyried yn briodol.**

**Rhan 1: YR YMGEISYDD**

Enw Llawn: ______________________________

(Rhowch enw'r Cynghorydd Tref/Cymuned sy'n dymuno cyflwyno cais)

Enwebwyd gan: ______________________________

(Rhowch enw'r Cyngor Tref/Cymuned y mae'r ymgeisydd yn aelod ohono)

Gwybodaeth gyswllt: ______________________________

(Rhowch enw a chyfeiriad cyswllt Clerc y Cyngor Tref/Cymuned sy'n gwneud yr enwebiad)

Rhan 2 : **GWYBODAETH BERTHNASOL**

## 2.1 Profiad

**Gofynnir i ymgeiswyr ddarparu unrhyw wybodaeth y dymunent ei rhannu, ynglŷn â'u haddysg, hyfforddiant, profiad neu sgiliau y credent eu bod yn berthnasol i waith y Pwyllgor Safonau, fel y'i disgrifir yn yr atodiad.**

2.1.1 Rhowch fanylion am wybodaeth perthnasol, fel y disgrifir ym mharagraff 2.1 uchod, a gafwyd drwy gyflogaeth, neu hunangyflogaeth; pa un ai yn y sector preifat, sector cyhoeddus, neu'r ddau.

2.1.2 Rhowch fanylion am wybodaeth perthnasol, fel y disgrifir ym mharagraff 2.1 uchod, a gafwyd heblaw am drwy gyflogaeth. Er enghraifft, fel llywodraethwr ysgol, mewn sefydliad gwirfoddol, elusennol neu grefyddol, neu mewn cyd-destun arall.

**Rhan 3 : Os oes unrhyw wybodaeth ychwanegol y dymuna'r ymgeisydd ei rhannu, mewn perthynas â'u haddasrwydd ar gyfer y swyddogaeth hon, rhowch fanylion isod.**

## Rhan 4 : NODIADAU AR GYFER YR YMGEISYDD/CLERC

1. Ar ôl ei chwblhau, anfonwch y ffurflen hon at Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Adain Gyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni LL77 7TW erbyn 5pm ar 31 Gorffennaf 2017.

2. Yn anffodus, ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried.

3. Rhennir yr wybodaeth a gynhwysir yn y ffurflen hon â'r holl Gynghorau Tref/Cymuned eraill, fel eu bod yn gallu asesu addasrwydd yr holl ymgeiswyr yn ystod y broses bleidleisio drwy'r post.

   Bydd enwau unrhyw ymgeisydd/ymgeiswyr nad ydynt yn dymuno cyflwyno gwybodaeth yn Rhan 2 neu Ran 3 y ffurflen yn cael eu cynnwys ar y ffurflen bleidleisio drwy'r post serch hynny.

4. Unwaith y bydd y dyddiadau cau wedi bod, bydd yr holl geisiadau a dderbyniwyd yn cael eu cydnabod drwy gysylltu â'r Clerc perthnasol a bydd yr holl ohebiaeth ynglŷn â'r ceisiadau'n cael ei gwneud drwy'r Clercod.

### Nodwch, os gwelwch yn dda

Ni fydd enwebiadau gan unrhyw a gyflogir gan y Cyngor Sir ar hyn o bryd, neu sy'n aelod etholedig o'r Cyngor Sir, yn cael eu hystyried.

Ni chaniateir derbyn enwebiadau gan unrhyw Gynghorydd sydd eisoes wedi gwasanaethu am ddau dymor yn olynol fel cynrychiolydd Tref/Cymuned ar y Pwyllgor Safonau.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Standards Committee

For Membership of the Standards Committee – Town/Community Councillors

**Applicants are asked to please complete Part 1 of this form, and Part 2 and Part 3 as applicants consider appropriate.**

**Part 1: THE APPLICANT**

Full Name: ______________________________________________

(Please insert name of the Town/Community Councillor wishing to submit an application)

Nominated by: ___________________________________________

(Please insert name of the Town/Community Council of which the applicant is a member)

Contact information:______________________________________

(Please insert name and preferred contact details of the Clerk to the nominating Town/Community Council)

## Part 2 : RELEVANT INFORMATION

### 2.1 Experience

**Applicants are asked to please provide any information they would like to share, concerning their education, training, experience or skills which they believe may be relevant to the work of the Standards Committee as described on the attachment.**

2.1.1 Please provide details of relevant information, as described in paragraph 2.1 above, gained through employment, or self-employment; whether in the private sector, public sector, or both.

| |
|---|
| |

2.1.2 Please provide details of relevant information, as described in paragraph 2.1 above, gained other than through employment. For example, as a school governor, in a voluntary, charitable or religious organisation, or in some other context.

**Part 3 : ADDITIONAL INFORMATION**

**If there is any other information, which applicants would like to share, as to their suitability for this role, then please provide details below.**

Part 4 : **NOTES FOR THE APPLICANT/CLERK**

1. When completed, please return this form to Lynn Ball, Head of Function (Council Business)/Monitoring Officer, Legal Section, Isle of Anglesey County Council, Llangefni LL77 7TW to be received by 5pm on 31st July 2017.

2. Regrettably, late applications cannot be considered.

3. The information contained in the completed form will be shared with all other Town/Community Councils, in order to enable them to assess the suitability of all applicants during the postal voting process.

   Any applicant/s who does not wish to provide the information in Part 2 or Part 3 of the form will still have their names included on to the postal ballot form.

4. Once the deadline has passed, all applications received will be acknowledged to the relevant Clerk and all communication regarding the applications will be conducted through the Clerks.

**Please note**

Nominations cannot be considered from anyone who is currently an employee, or an elected member, of the County Council.

Nominations cannot be accepted by any Councillor who has already served two consecutive terms as a Town/Community Council representative on the Standards Committee.

BUSNES Y CYNGOR / COUNCIL BUSINESS

LYNN BALL LL.B., (Hons.) Cyfreithiwr/Solicitor
PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) /
SWYDDOG MONITRO
HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) /
MONITORING OFFICER

CYNGOR SIR YNYS MON /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn / Anglesey
LL77 7TW

DX: 701771 – LLANGEFNI

ffôn / tel: (01248) 752586
ffacs / fax: (01248) 752132
E-Bost – E-mail: LBXCS@anglesey.gov.uk

Clerc/Clerk
Cyngor Cymuned Rhoscolyn a Llaneugrad
Community Council

4/8/2017

Ein Cyf – Our Ref. LB/MWJ/CC-019937-MWY
Eich Cyf – Your Ref.

Annwyl Clerc

**Aelodau Cyngor Tref/Cymuned o Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn**

Cyfeiriaf at ein llythyr dyddiedig 31 Mai 2017. Mae'r enwebiadau isod yn awr wedi dod i law mewn perthynas â'r ddwy sedd wag i gynrychiolwyr o Gynghorau Tref / Cymuned ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn:-

Dear Clerk

**Town/Community Council Members of the Isle of Anglesey County Council's Standards Committee**

Further to our letter of the 31st May 2017, the following nominations have now been received in relation to the two Town / Community Council vacancies on the Isle of Anglesey County Council's Standards Committee:-

Y Cynghorydd/Councillor W J Chorlton
Cyngor Tref Caergybi/Holyhead Town Council

Y Cynghorydd/Councillor Roger Dobson
Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Y Cynghorydd/Councillor Iorwerth Roberts
Cyngor Cymuned Bryngwran Community Council

Y Cynghorydd/Councillor Keith Roberts
Cyngor Cymuned Trearddur Community Council

Y Cynghorydd/Councillor Ken Taylor
Cyngor Cymuned Y Fali/Valley Community Council

CC-019937-MWY/388239

Y Cynghorydd/Councillor Gordon Warren
Cyngor Tref Amlwch Town Council

Y Cynghorydd/Councillor Stanley Zalot
Cyngor Tref Biwmares Town Council

Gwahoddir pob Cyngor Tref a Chymuned yn awr i ddewis y ddau ymgeisydd y maent yn eu ffafrio cyn i'r penodiadau gael eu cadarnhau'n ffurfiol gan y Cyngor Sir. Daw'r apwyntiadau i rym o dyddiad y penodiad hyd at 8 Mai 2022 neu am y cyfnod y bydd y sawl a benodir yn parhau i fod yn Gynghorwyr Tref/Cymuned.

Each Town and Community Councils is now invited to select their two preferred candidates, before the appointments are formally confirmed by the County Council. The appointments will be effective from the date of appointment up to the 8th May 2022; or for as long as those appointed remain Town/Community Councillors.

Byddir yn pleidleisio trwy gyfrwng <u>pleidlais bost</u> ac rydym yn amgáu'r papur pleidleisio ynghyd â chopïau o'r ceisiadau a dderbyniwyd gan bob un o'r saith ymgeisydd. Sicrhewch os gwelwch yn dda bod eich Chyngor yn dewis y ddau ymgeisydd y mae'n eu ffafrio ac yna'n dychwelyd y papur pleidleisio i ni <u>erbyn dim hwyrach na 5pm ar 29 Medi 2017</u>.

Voting will be by <u>postal ballot</u> and we attach the ballot paper together with copies of the applications received from each of the seven candidates. Please ensure that your Council chooses its two preferred candidates, and then return the completed ballot paper to us <u>no later than 5pm on 29th September 2017</u>.

Mae croeso i chi ddychwelyd y papur pleidleisio drwy'r post i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Adain Gyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW neu drwy anfon e-bost at medwenjones@ynysmon.gov.uk

You are welcome to return the ballot paper by post to the Head of Function (Council Business)/Monitoring Officer, Legal Section, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW or by email to medwenjones@anglesey.gov.uk

Diolch

Thank you

Cofion

Regards

<u>Lynn Ball</u>
<u>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro</u>
<u>Head of Function (Council Business) / Monitoring Officer</u>

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

**From:** Lynn Ball
**Sent:** 04 August 2017 16:30
**To:** Clercod Holl Cynghorau Tref a Cymuned Clerks Town and Community Councils
**Subject:** FW: Aelodau Cyngor Tref/Cymuned o Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn / Town/Community Council Members of the Isle of Anglesey County Council's Standards Committee (19937)

Cyfeiriaf at ein llythyr dyddiedig 31 Mai 2017. Mae'r enwebiadau isod yn awr wedi dod i law mewn perthynas â'r ddwy sedd wag i gynrychiolwyr o Gynghorau Tref/Cymuned ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn:-

Y Cynghorydd W J Chorlton – Cyngor Tref Caergybi
Y Cynghorydd Roger Dobson – Cyngor Cymuned Llanbadrig
Y Cynghorydd Iorwerth Roberts – Cyngor Cymuned Bryngwran
Y Cynghorydd Keith Roberts – Cyngor Cymuned Trearddur
Y Cynghorydd Ken Taylor – Cyngor Cymuned Y Fali
Y Cynghorydd Gordon Warren – Cyngor Tref Amlwch
Y Cynghorydd Stanley Zalot – Cyngor Tref Biwmares

Gwahoddir pob Cyngor Tref a Chymuned yn awr i ddewis y ddau ymgeisydd y maent yn eu ffafrio cyn i'r penodiadau gael eu cadarnhau'n ffurfiol gan y Cyngor Sir. Daw'r apwyntiadau i rym o dyddiad y penodiad hyd at 8 Mai 2022 neu am y cyfnod y bydd y sawl a benodir yn parhau i fod yn Gynghorwyr Tref/Cymuned.

Byddir yn pleidleisio trwy gyfrwng pleidlais bost ac rydym yn amgáu'r papur pleidleisio ynghyd â chopïau o'r ceisiadau a dderbyniwyd gan bob un o'r saith ymgeisydd. Sicrhewch os gwelwch yn dda bod eich Chyngor yn dewis y ddau ymgeisydd y mae'n eu ffafrio ac yna'n dychwelyd y papur pleidleisio i ni erbyn dim hwyrach na 5pm ar 29 Medi 2017.

Mae croeso i chi ddychwelyd y papur pleidleisio drwy'r post i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Adain Gyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW neu drwy anfon e-bost at medwenjones@ynysmon.gov.uk

Diolch

Cofion

--------------

Further to our letter of the 31st May 2017, the following nominations have now been received in relation to the two Town/Community Council vacancies on the Isle of Anglesey County Council's Standards Committee:-

Councillor W J Chorlton – Holyhead Town Council
Councillor Roger Dobson – Llanbadrig Community Council
Councillor Iorwerth Roberts – Bryngwran Community Council
Councillor Keith Roberts – Trearddur Community Council
Councillor Ken Taylor – Valley Community Council
Councillor Gordon Warren – Amlwch Town Council
Councillor Stanley Zalot – Beaumaris Town Council

Each Town and Community Councils is now invited to select their two preferred candidates, before the appointments are formally confirmed by the County Council. The appointments will be effective from the date of appointment up to the 8th May 2022; or for as long as those appointed remain Town/Community Councillors.

Voting will be by postal ballot and we attach the ballot paper together with copies of the applications received from each of the seven candidates. Please ensure that your Council chooses its two preferred candidates, and then return the completed ballot paper to us no later than 5pm on 29th September 2017.

You are welcome to return the ballot paper by post to the Head of Function (Council Business)/Monitoring Officer, Legal Section, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW or by email to medwenjones@anglesey.gov.uk

Thank you

Regards

Lynn Ball
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Head of Function (Council Business) / Monitoring Officer
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council
Ffôn / Phone: 01248 752586
E-bost / E-mail: LBXCS@ynysmon.gov.uk

Cymraeg **Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg**
**Please write to me in Welsh or English**

CC-019937-MWY/387504

Nodwch y bydd yr Uned Gyfreithiol a Chwiliadau Tir ond ar gael i dderbyn galwadau ffôn rhwng 10 y bore a hanner dydd a dau a pedwar yn y pnawn o hyn ymlaen. Os oes mater gwirioneddol frys y tu allan i'r oriau yma dylwch anfon e-bost i'r unigolyn gan gynnwys "BRYS" yn y llinell destun.

*Note that the Legal and Land Charges Section will only answer phone calls between 10am and noon and 2 and 4 pm from now on. If a matter is truly urgent outside of these hours then send an email to the individual containing the word "URGENT" in the subject line.*

This page is intentionally left blank

EITEM 13

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Medi 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Caniatâd Arbennig** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig a dderbyniwyd ers 8 Mawrth 2017** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Os oes gan gynghorydd sir/cynghorydd tref/cymuned ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn mater sy'n cael ei ystyried gan eu hawdurdod, mae'n ofynnol o dan y côd ymddygiad fod y diddordeb yn cael ei ddatgan/gofrestru a bod yr aelod yn gadael y cyfarfod a ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth nac yn dylanwadu ar y penderfyniad(au).

Mae'r côd ymddygiad yn ymgorffori "caniatâd arbennig" o dan rai amgylchiadau cyfyngedig a restrir ym mharagraff 12(2) y côd.

Yn ogystal, os nad yw paragraff 12(2) y Côd o gymorth, yna mae gan y Pwyllgor Safonau'r disgresiwn i roi caniatâd arbennig i aelod, o dan amgylchiadau penodol, sy'n cael eu rhestru mewn rheoliadau statudol.

Os yw'n cael ei ganiatáu, mae'r caniatâd arbennig yn goresgyn elfen ragfarnus y diddordeb (hynny yw y rhagfarn neu'r rhagfarn ymddangosiadol) a bydd yn galluogi'r aelod i gymryd rhan yn y mater; efallai y bydd cyfyngiad ar gyfraniad yr aelod ac fe roddir y caniatâd am gyfnod penodol o amser.

## 2. CEFNDIR

Er mwyn cynorthwyo aelodau i ddefnyddio'r broses caniatâd arbennig pryd bynnag y bo hynny'n briodol, ac mor effeithiol â phosib, mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyhoeddi Nodyn o Gyngor ac Arweiniad. Yn ogystal, rhoddwyd gwybodaeth i glercod cynghorau tref a chymuned am y posibilrwydd o dderbyn caniatâd arbennig mewn e-bost wedi ei ddyddio 6 Mawrth 2017 **ATODIAD 1**.

Yn aml mae angen caniatâd arbennig ar fyr rybudd, ac o fewn y cyfnod o rybudd cyfreithiol lleiaf posibl, ac oherwydd hynny mae'r Pwyllgor Safonau wedi sefydlu trefn lle y gellir galw ar Banel o dri aelod i ddelio ag unrhyw gais a dderbynnir rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor llawn. Gall unrhyw dri aelod annibynnol / Cyngor Sir gynnal gwrandawiad i geisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr sir (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol) a chynhelir gwrandawiad i geisiadau gan gynghorwyr tref/cymuned gan aelodau annibynnol ac aelodau cyngor tref/cymuned (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol).

## 3. CEISIADAU A DDERBYNIWYD ERS 8 MAWRTH 2017

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau, derbyniwyd un cais am ganiatâd arbennig. Galwyd y Panel yn ffurfiol ar 12 Gorffennaf 2017, derbyniwyd cais ysgrifenedig llawn ar 17 Gorffennaf 2017 a chafodd ei gylchredeg ar y dyddiad hwnnw, a bu i'r Panel gyfarfod ar 18 Gorffennaf 2017 i wrando ar achos yr ymgeisydd ac i benderfynu ar y cais.

Mae'r dogfennau canlynol ynghlwm yn **ATODIAD 2**:-

1. Copi o'r cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Carwyn Jones
2. Penderfyniad y Panel Caniatâd Arbennig
3. Cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig

## 4. PENDERFYNIAD Y PANEL CANIATÂD ARBENNIG

Roedd y Panel Caniatâd Arbennig yn cytuno â'r ymgeisydd fod ei ddiddordeb personol yn ddiddordeb sy'n rhagfarnu hefyd, ond wedi clywed gan y Cynghorydd a chael cyfle i ofyn cwestiynau iddo, roedd y Panel yn unfrydol eu barn mai prif gymhelliad y Cynghorydd dros fod eisiau cymryd rhan yn y broses ymgynghori/drafodaeth ynglŷn â dyfodol addysg yn ei ward oedd budd ehangach y cyhoedd, yn hytrach na diddordeb yn ymwneud â chyflogaeth/addysg aelodau agos o'i deulu yr oedd wedi cyfeirio atynt yn ei gais.

O dan yr amgylchiadau, penderfynodd y Panel roi caniatâd arbennig cyfyngedig yn galluogi'r ymgeisydd i:-

- Ymgymryd yn llawn â'i rôl fel aelod lleol;
- Ysgrifennu at swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r cynigion;
- Cymryd rhan mewn unrhyw bwyllgorau/cyrff y Cyngor, er mwyn mynegi ei safbwyntiau ac i ateb unrhyw gwestiynau;
- Aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth ar y mater a chymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth (pan yn aelod o'r corff hwnnw);
- Nid yw'r caniatâd arbennig yn rhoi'r hawl i bleidleisio o dan unrhyw amgylchiadau os yw'r diddordeb sy'n rhagfarnu yn bodoli;
- Bydd y caniatâd arbennig (os yw'n parhau i fod yn berthnasol) yn dod i ben ar 8 Mai 2022;
- Rhoddwyd y caniatâd arbennig ar y sail ganlynol:-

    - Mae natur diddordeb yr aelod yn golygu na fyddai ei gyfranogiad i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag o yn cael effaith andwyol ar hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes (yn arbennig gan

nad oedd y caniatâd arbennig yn cynnwys gwneud penderfyniadau, ond yn hytrach cymryd rhan a dylanwadu yn unig);

- Mae cyfiawnhad dros ganiatáu i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag o oherwydd rôl benodol neu arbenigedd yr aelod (hynny yw, fod y Cynghorydd yn llywodraethwr wedi ei benodi gan y Cyngor Sir, yn gadeirydd y llywodraethwyr yn un o'r ysgolion sydd dan ystyriaeth, ac yn aelod lleol dros yr ardal).

- Roedd yn ymddangos i'r Panel y byddai dileu'r rhwystr o fudd i drigolion yr ardal (sef ward Seiriol) cyhyd ag y bo Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod i roi'r caniatâd arbennig (noder fod yr hysbysiad hwn wedi ei roi a'i gydnabod).

## 5. ARGYMHELLIAD

1. Fod y Pwyllgor yn nodi'r caniatâd arbennig a roddwyd ynghyd â'r sail a'r amgylchiadau dros ei ganiatáu.

2. Fod aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, Dilys Shaw a Denise Harris-Edwards) yn cadarnhau/diwygio'r cofnodion drafft yn **Atodiad 2**.

**Medwen Jones**

**From:** Medwen Jones
**Sent:** 06 March 2017 14:37
**To:** Aberffraw; Amlwch; Beaumaris; Bodedern; Bodffordd a Llanfachraeth; Bodorgan a Llangristiolus; Bryngwran; Cwm Cadnant a Llanfihangelesceifiog; Cylch-y-Garn Community Council; Holyhead Town Council; Llanbadrig; Llanddaniel Fab; Llanddona a Llangoed; Llanddyfnan; Llaneilian; Llanerchymedd; Llanfaelog; Llanfaethlu; Llanfair ME; Llanfair yn Neubwll; Llanfairpwll; Llangefni; Llanidan; Mechell; Menai Bridge; Moelfre; Penmynydd a Star; Pentraeth; Rhosybol; Rhosyr; Trearddur; Tref Alaw; Trewalchmai; Valley
**Subject:** Dispensation / Caniatad Arbennig (019560)
**Attachments:** 363162 - Ffurflen Caniatad Arbennig - Cynghorwyr Tref a Chymuned - Cymraeg (S.354274).doc; 354274 - Dispensation Form - Town and Community Councillor - English (C.363162).doc; 364641 - Nodyn Briffio i Gynhorwyr Tref a Chymuned - Caniatâd Arbennig - Cymraeg (S.354288).doc; 354288 - Briefing Note to Town and Community Councillors - Dispensations - English (C.364641).doc

Annwyl Glercod,

Ar 6ed Ionawr, 2017, anfonwyd e-bost yn cadarnhau bod newidiadau deddfwriaethol wedi eu gwneud mewn perthynas â'r seiliau statudol y gall Cynghorwyr ddibynnu arnynt er mwyn gwneud cais am Ganiatâd Arbennig os oes ganddo/ganddi ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Yn yr e-bost hwnnw esboniwyd bod y ffurflen er mwyn ymgeisio am ganiatâd arbennig yn cael ei diwygio. Mae'r newidiadau hyn wedi eu cwblhau erbyn hyn.

Felly, mae Nodyn Briffio ar "Ganiatâd Arbennig" ynghlwm i'r e-bost hwn, sy'n rhoi gwybodaeth am y sail ychwanegol, ynghyd â Ffurflen Gais ddiwygiedig am Ganiatâd Arbennig. Mae'n rhaid i'r Cynghorydd gwblhau a chyflwyno'r Ffurflen Gais am Ganiatâd Arbennig i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir bob tro y mae o/hi yn dymuno gwneud cais am Ganiatâd Arbennig. Mae'r broses yn cael ei hamlinellu yn y Nodyn Briffio.

Byddai'r Pwyllgor Safonau yn ddiolchgar o gymaint o rybudd â phosib fod cais am Ganiatâd Arbennig am gael ei gyflwyno, yn arbennig os ydi o'n gais sy'n ymwneud â sawl Cynghorydd o fewn yr un Cyngor. Yn ddelfrydol, hoffai'r Pwyllgor dderbyn isafswm o bum diwrnod gwaith rhwng derbyn y Ffurflen Gais a dyddiad y cyfarfod Cyngor Tref neu Gymuned pan fo'r Caniatâd Arbennig (os yn cael ei ganiatau) yn cael ei ddibynnu arno; wrth gwrs, deallir nad ydi hyn yn bosib bob tro. Ni ddylai Cynghorwyr ymatal rhag cyflwyno Ffurflen Gais ar sail y ffaith fod amser yn gyfyng.

Nid yw'r Pwyllgor Safonau wedi derbyn llawer o geisiadau am Ganiatâd Arbennig gan Gynghorau Tref a Chymuned. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi petaech chi, fel Clercod, yn tynnu sylw'r Cynghorwyr at yr e-bost hwn ynghyd â'r atodiadau. Mae pryder mai'r rheswm dros dderbyn cyn lleied o geisiadau gan y Cynghorau Tref a Chymuned yw diffyg gwybodaeth am fodolaeth y "Caniatâd Arbennig", neu canfyddiad mai rhywbeth ar gyfer Cynghorwyr Sir yn unig ydyw.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr e-bost hwn neu'r dogfennau sydd ynghlwm, cysylltwch â Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro lbxcs@anglesey.gov.uk / 01248 752586), Robyn Jones, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (rwjcs@anglesey.gov.uk / 01248 752134), neu Mared Yaxley, Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol a Chontractau (mwycs@anglesey.gov.uk / 01248 752566). Dylai unrhyw gais gael ei anfon ar y ffurflen berthnasol at sylw un o'r swyddogion hyn hefyd.

Gyda diolch.

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

Dear Clerks,

On the 6th January 2017, an email was sent confirming there had been legislative changes to the grounds on which Councillors can rely to apply for a Dispensation where he/she has a prejudicial interest. In that email it was explained that the form to apply for a dispensation was in the process of being amended. These changes have now been finalised.

I therefore attach to this email a Briefing Note on "Dispensations", which provides information on this additional ground, together with an amended Dispensation Application Form. The Dispensation Application Form must be completed by the Councillor and submitted to the Standards Committee of the County Council each time he/she wishes to apply for a Dispensation. The process is outlined in the Briefing Note.

The Standards Committee would be grateful for as much notice as possible that an application for a dispensation is to be submitted, especially if the application relates to a number of Councillors within the same Council. Ideally, the Committee would seek a minimum of five working days' between receiving the Application Form and the date of the Town or Community Council meeting at which the dispensation (if granted) is to be relied upon; however, it is of course appreciated that this is not always possible. Councillors should not refrain from submitting an Application Form merely because of a shorter time frame than this.

The Standards Committee has not received many applications for Dispensations from Town and Community Councils. The Committee would be grateful if you, as Clerks, could please bring this email, together with the attachments, to the attention of your Councillors. There is concern that the reason so few applications are received from Town and Community Councils is perhaps a lack of knowledge of the existence of the "Dispensation", or a perception that they are only available for County Councillors.

Should you have any questions on this email or its attachments please contact Lynn Ball, Head of Function (Council Business)/Monitoring Officer (lbxcs@anglesey.gov.uk/01248 752586), Robyn Jones, Legal Services Manager & Deputy Monitoring Officer (rwjcs@anglesey.gov.uk/01248 752134), or Mared Yaxley, Solicitor - Corporate Governance (mwycs@anglesey.gov.uk / 01248 752566). Any applications should also be submitted to one of these officers on the relevant form.

Many thanks

Michael Wilson
Chairman of the Standards Committee

Document: CC-019560-MY/365597

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN Y PWYLLGOR SAFONAU GAN GYNGHORYDD TREF NEU GYMUNED**

| | |
|---|---|
| **Enw'r Ymgeisydd** | |
| **Manylion Cyswllt:** | |
| **Enw'r Cyngor Tref / Cymuned:** | |
| **Manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu* y gofynnir am Ganiatâd Arbennig yn ei gylch:** | |
| **Y busnes mae'r Ymgeisydd yn dymuno cymryd rhan ynddo:** | |
| **Y math o Ganiatâd Arbennig y gofynnir amdano (rhowch ✓ fel sy'n briodol a chynhwyswch unrhyw wybodaeth sydd ei hangen)** | o ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor /Cyngor Cymuned] ynglŷn â'r mater;<br>o siarad gyda swyddogion y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r mater [hefo/heb amodau];<br>o siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor /cyfarfodydd y Cyngor Cymuned ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater;<br>o aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â'r mater;<br>o pleidleisio;<br>o arall |
| **Sail statudol ar gyfer gofyn am Ganiatâd Arbennig:** | |
| **Dyddiad erbyn pryd y bydd angen y penderfyniad:** | |

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | **Dyddiad:** |

* Diddordeb sy'n Rhagfarnu – Diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsyllwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu Cynghorydd i weithredu er budd y cyhoedd.

## Amgylchiadau lle gall y Pwyllgor Safonau Roddi Caniatâd Arbennig i Gynghorydd Cymuned

Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn nodi y caniateir i Bwyllgor Safonau'r Cyngor roi caniatâd arbennig o dan Adran 81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 o dan yr amgylchiadau canlynol:

(a) Mae gan o leiaf hanner Cynghorwyr y Cyngor Cymuned neu Bwyllgor y Cyngor Cymuned (fel sy'n briodol) fydd yn ystyried y busnes ddiddordeb sy'n gysylltiedig â'r busnes hwnnw;

(b) DIM YN BERTHNASOL I GYNGHORAU CYMUNED;

(c) Byddai anallu i gymryd rhan yn effeithio ar y cydbwysedd gwleidyddol, i'r fath raddau y byddai'n debygol o effeithio ar y penderfyniad;

(d) Mae natur y diddordeb yn golygu na fyddai cyfranogiad i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef yn andwyol i hyder y cyhoedd;

(e) Mae'r diddordeb yn gyffredin i'r Cynghorydd a chyfran sylweddol o'r cyhoedd;

(f) Mae cyfranogiad yn cael ei gyfiawnhau yn rhinwedd swyddogaeth neu arbenigedd penodol y Cynghorydd;

(g) DIM YN BERTHNASOL I GYNGHORAU CYMUNED;

(h) Mae'r busnes yn ymwneud ag arian neu eiddo sefydliad gwirfoddol y mae'r Cynghorydd yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli, ond nid fel cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned, ac nid oes gan y Cynghorydd unrhyw ddiddordeb arall yn y busnes hwnnw, ar yr amod nad yw'r caniatâd arbennig yn cynnwys cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(i) Ymddengys i'r Pwyllgor Safonau fod y diddordeb yn ddiddordeb i drigolion ardal y Cyngor Cymuned ac y dylid dileu'r anallu, cyhyd â bod hysbysiad ysgrifenedig o roddi caniatâd arbennig yn cael ei roi i Weinidogion Cymru o fewn 7 niwrnod. Dylai hysbysiad o'r fath roi manylion am y Cynghorydd sydd wedi derbyn y caniatâd arbennig a rhesymau'r Pwyllgor Safonau dros ddileu'r anabledd;

(j) Ymddengys i'r Pwyllgor Safonau ei bod yn briodol rhoi caniatâd arbennig, fel ateb ymarferol i anabledd (gwendid) y Cynghorydd a fyddai'n golygu y byddai'n anodd iddynt adael yr ystafell/siambr pan drafodir mater y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â CHAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN GYNGHORYDD TREF NEU GYMUNED

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Enw'r person y dylid ei hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor Safonau** | o Clerc y Cyngor Tref/Cymuned<br>o Yr Ymgeisydd<br>o Eraill: ____________ |
| **Dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben:** | |

Yn unol â pharagraff [ ] Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu **rhoi caniatâd arbennig** i'r Cynghorydd [ ] mewn perthynas â'r diddordeb hwnnw y cyfeirir ato / y diddordebau hynny y cyfeirir atynt yn nhudalen 1 y Cais, sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:

- o ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor/Cyngor Cymuned] ynglŷn â'r mater;
- o siarad â swyddogion y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r mater [hefo/heb amodau];
- o siarad yng nghyfarfodydd Pwyllgorau/cyfarfodydd y Cyngor Cymuned ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater;
- o aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â'r mater;
- o pleidleisio;
- o arall

Mae gan y Cynghorydd felly hawl i siarad [a phleidleisio] yng nghyfarfodydd Pwyllgorau/ cyfarfodydd y Cyngor Cymuned ynghylch y mater ac ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau o'r Pwyllgor/Cyngor Cymuned [ond mae'n rhaid iddo/iddi adael y cyfarfod cyn y drafodaeth a'r bleidlais ar y materion hynny y mae'r Cynghorydd yn siarad yn eu cylch] NEU [a chaniateir iddynt aros yn yr ystafell yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ond ni chaniateir iddynt bleidleisio ar y mater].

Cyn i'r Cynghorydd siarad â, neu ysgrifennu at, swyddogion y Cyngor Cymuned, neu siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor/cyfarfodydd y Cyngor Cymuned ar y mater, mae'n rhaid i'r Cynghorydd :-

- ddatgan diddordeb yn y mater; a
- cadarnhau bod caniatâd arbennig wedi ei roi er mwyn caniatáu i'r Cynghorydd siarad [a phleidleisio] ar y mater; a
- cwblhau hysbysiad ysgrifenedig i'r Clerc yn manylu ar y diddordeb a'r caniatâd arbennig.

Drwy awdurdod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiedig:____________________

# Nodyn Briffio i Gynghorwyr Tref a Chymuned yn Ynys Môn

## Caniatâd Arbennig

Mae hwn yn nodyn briffio i Gynghorwyr Tref a Chymuned ynglŷn â 'Chaniatâd Arbennig'. Os oes gan Gynghorwyr neu Glercod unrhyw gwestiynau, dylid cysylltu â'r Swyddog Monitro yng Nghyngor Sir Ynys Môn:

Lynn Ball – lbxcs@ynysmon.gov.uk

Yn unol â'u Cod Ymddygiad, ni chaniateir i unrhyw Gynghorydd gymryd rhan mewn mater os oes ganddo ef/hi ddiddordeb sy'n rhagfarnu* yn y mater hwnnw oni bai bod caniatâd arbennig wedi ei roi ymlaen llaw gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn.

**Y Rhesymau dros roi caniatâd arbennig**

Mae'r rhesymau dros roi caniatâd arbennig yn statudol ac fe'u rhestrir isod:-

1. Ni fyddai o leiaf hanner y Cynghorwyr perthnasol (y Cyngor Cymuned / Pwyllgor o'r Cyngor Cymuned) yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfod oherwydd diddordeb sy'n rhagfarnu;

2. Mae natur y diddordeb yn golygu na fyddai cyfranogiad yn cael effaith andwyol ar hyder y cyhoedd yn y penderfyniad;

3. Mae diddordeb y Cynghorydd sy'n Ymgeisio'n gyffredin i gyfran sylweddol o'r cyhoedd;

4. Byddai swyddogaeth neu arbenigedd y Cynghorydd sy'n Ymgeisio'n cyfiawnhau caniatáu iddo/iddi gymryd rhan;

5. Mae'r busnes yn ymwneud ag arian neu eiddo sefydliad gwirfoddol ac mae'r Cynghorydd sy'n Ymgeisio yn aelod o'i fwrdd neu bwyllgor yn ei rinwedd/rhinwedd ei hun, ac nid oes ganddo/ganddi unrhyw ddiddordeb arall [er yn yr achos hwn, ni fyddai unrhyw ganiatâd arbennig yn caniatáu i'r Cynghorydd sy'n Ymgeisio bleidleisio ar y mater];

6. Mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn y byddai cyfranogiad y Cynghorydd sy'n Ymgeisio o fudd i drigolion ardal y Cyngor Cymuned a bod y Pwyllgor yn hysbysu Gweinidogion Llywodraeth Cymru o fewn 7 niwrnod i roi'r caniatâd arbennig; neu

7. Mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn ei bod yn briodol rhoddi caniatâd arbennig, fel ateb ymarferol i anabledd (gwendid) y Cynghorydd Ymgeisio a fyddai'n golygu y byddai'n anodd iddynt adael yr ystafell/siambr pan drafodir mater y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo.

**Sut mae gwneud cais am ganiatâd arbennig?**

Mae'n rhaid i'r Cynghorydd sy'n Ymgeisio wneud cais ysgrifenedig i Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn ac yn arferol disgwylir iddo/iddi fod yn bresennol yng nghyfarfod Panel y Pwyllgor Safonau fydd yn gwneud y penderfyniad.

Gall Cynghorydd sy'n Ymgeisio wneud cais fel unigolyn, neu, mewn amgylchiadau cyffredin, gellir cyflwyno cais ar y cyd neu gais torfol ar gyfer mwy nag un Cynghorydd.

Bydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried yr holl geisiadau ar sail y ffeithiau a gyflwynir ym mhob achos; gan gydbwyso'r budd i'r cyhoedd o atal y sawl sydd â diddordebau sy'n rhagfarnu* rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau gyda'r angen i sicrhau cymaint o gyfranogiad ag sy'n bosibl yn y broses ddemocrataidd.

Mater i ddisgresiwn y Pwyllgor Safonau yw a ddylid rhoi caniatâd ai peidio. Bydd y Pwyllgor Safonau'n egluro ei resymau. Y Pwyllgor Safonau fydd yn penderfynu ar amodau a hyd unrhyw ganiatâd arbennig.

Os yw'r Pwyllgor Safonau yn cymeradwyo'r cais mae'n rhaid iddo roi'r caniatâd arbennig yn ysgrifenedig. Ni fydd modd i unrhyw Aelod ddibynnu ar ganiatâd arbennig hyd nes y bydd y penderfyniad ysgrifenedig wedi'i gylchredeg. Os oes angen, ac os yw'n bosib, fe wneir hyn yn ddiymdroi.

**Gofynion ar Aelodau pan fyddant yn dibynnu ar ganiatâd arbennig**

Unwaith fydd y Pwyllgor Safonau wedi cymeradwyo cais ac wedi rhoi caniatâd arbennig, a hynny'n ysgrifenedig, bydd gan y Cynghorydd hawl wedyn i gymryd rhan (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodwyd) er bod ganddo/ganddi ddiddordeb sy'n rhagfarnu*.

(a) Mewn cyfarfodydd ffurfiol:

Os yw Cynghorydd wedi derbyn caniatâd arbennig a'i fod/bod yn dymuno cymryd rhan mewn cyfarfod i drafod y mater perthnasol hwnnw, mae'n rhaid i'r Cynghorydd:

(i) ddatgan yn y cyfarfod, pan fydd yr eitem yn cael ei thrafod, ei fod o/hi yn dibynnu ar ganiatâd arbennig; a

(ii) cyn, neu yn syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, mae'n rhaid iddo ef/iddi hi roi hysbysiad ysgrifenedig** i'r Cyngor Cymuned.
Mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys:

1. manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu* y derbyniwyd y caniatâd arbennig ar ei gyfer;
2. manylion y busnes y mae'r diddordeb sy'n rhagfarnu* yn ymwneud ag ef;
3. manylion y caniatâd arbennig, yn cynnwys y dyddiad y cafodd ei roi, a
4. llofnod y Cynghorydd.

(b) Mewn cyfarfodydd anffurfiol:

Os yw Cynghorydd wedi derbyn caniatâd arbennig, ac mae'n gwneud sylwadau llafar mewn cyfarfodydd anffurfiol, rhaid i'r Cynghorydd hwnnw/honno:

(i) gynnwys manylion y caniatâd arbennig mewn unrhyw sylwadau llafar, a

(ii) rhoi hysbysiad ysgrifenedig** i'r Cyngor o fewn 14 diwrnod ar ôl gwneud y sylwadau llafar.

(c) <u>Sylwadau Ysgrifenedig</u>:

Os yw Cynghorydd wedi derbyn caniatâd arbennig, ac mae'n gwneud sylwadau ysgrifenedig i'w Gyngor Cymuned, mae'n rhaid i'r Cynghorydd gynnwys manylion am y caniatâd arbennig mewn unrhyw ohebiaeth ar y pwnc y mae'r caniatâd arbennig yn ymwneud ag ef.

Troednodyn/Diffiniadau

* Diddordeb sy'n Rhagfarnu – Diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsyllwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu Cynghorydd i weithredu er budd y cyhoedd.

** hysbysiad ysgrifenedig - mewn cyfarfodydd ffurfiol, gall Cynghorwyr ddefnyddio'r ffurflen safonol ar gyfer gwneud datganiad. Mewn cyfarfodydd anffurfiol mae'n rhaid i Gynghorwyr ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i'r swyddog arweiniol a gofyn i'r caniatâd arbennig gael ei gynnwys mewn unrhyw gofnod anffurfiol/nodyn ffeil ar gyfer y cyfarfod.

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

## CAIS GAN AELOD O'R CYNGOR SIR I'R PWYLLGOR SAFONAU AM GANIATÂD ARBENNIG

| | |
|---|---|
| **Enw'r Aelod:** | Y Cynghorydd Carwyn Jones |
| **Manylion Cyswllt:** | Tan y Garnedd, Black Horse Lane, Llansadwrn, Ynys Môn LL75 8YP |
| **Ward:** | Seiriol |
| **Natur y diddordeb sy'n rhagfarnu* y mae'r Caniatâd Arbennig yn cael ei geisio amdano:** | 1. Rwy'n un o dri Chynghorydd sy'n cynrychioli'r ward aml-aelod Seiriol.<br><br>2. Mae'r Cyngor Sir ar hyn o bryd wrthi'n llunio ei strategaeth ar gyfer dyfodol tymor canolig a thymor hir addysg ar yr Ynys; gan gynnwys y tair ysgol gynradd o fewn y Ward yr wyf yn ei chynrychioli ar y cyd â dau o'm cyd gynghorwyr. Gallai creu a gweithredu'r strategaeth effeithio ar ward Seiriol am weddill tymor y Cyngor hwn. Mae'n debygol y teimlir yr effeithiau am genhedlaeth. Mae copi o ddrafft cyntaf cynigion y Cyngor Sir wedi'i atodi fel **Atodiad 1**.<br><br>3. Rydw i'n llywodraethwr penodedig gan y Cyngor yn Ysgol Gynradd Llandegfan sef un o'r tair ysgol o dan ystyriaeth yn ward Seiriol. Yn y cyswllt hwnnw, rydw i hefyd yn Gadeirydd Corff Llywodraethu'r ysgol. Rwy'n deall mai diddordeb personol yw hwn sydd angen i mi ddatgan diddordeb ynddo ond nad yw'n ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Fodd bynnag, mae fy nghefnder cyntaf yn cael ei gyflogi yn Ysgol Gynradd Biwmares, sy'n un o'r ysgolion sydd hefyd o dan ystyriaeth yn y ward. Mae mab fy nghefnder hefyd yn mynychu Ysgol Gynradd Llandegfan. Mae ein perthynas deuluol yn un agos ac yn gysylltiadau personol agos yn unol â'r ystyr yn y Cod; ac mae'r effaith bosibl (colli cyflogaeth a newid ysgol) yn ddiddordebau sy'n rhagfarnu. Mae copi o'r Cod wedi'i atodi fel **Atodiad 2** ac mae'r adran berthnasol wedi'i hamlygu.<br><br>4. Yn fy rôl fel aelod lleol, rwy'n dymuno cymryd rhan yn llawn yn y broses o gasglu a rhannu gwybodaeth yn fy ward ar y cynigion ar gyfer dyfodol addysg yn yr ardal, yn cynnwys mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a Tref/Cymuned er mwyn ystyried ac adlewyrchu'r farn leol. Rydw i hefyd yn dymuno gweithredu fel cyswllt rhwng fy nghymuned a'r Cyngor Sir er mwyn sicrhau bod llais y gymuned yn cael ei glywed ac yn cael gwir ystyriaeth yn y broses/penderfyniadau a gymerir drwy |

| | |
|---|---|
| | gydol y camau ymgynghori/gweithredu. Dyma yr ydw i wedi cael fy ethol i'w wneud a dyma'r disgwyliad rhesymol ohonof gan fy etholwyr.<br><br>Gallai hyn gynnwys cyfleoedd i siarad mewn cyfarfodydd yn y Cyngor Sir ac hefyd cynnig unrhyw strategaeth amgen neu strategaethau y dymunwn eu cyflwyno ar y dechrau ac wrth i'r ymgynghoriadau / opsiynau ddatblygu.<br><br>5. O dan yr amgylchiadau, gofynnaf yn barchus i'r Pwyllgor Safonau ystyried rhoi caniatâd arbennig i mi oresgyn y ddau ddiddordeb sy'n rhagfarnu a nodir uchod, am y rhesymau a nodir yn y ffactorau isod:-<br><br>- Tra bo gennyf ddiddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu yn y cais hwn, mewn perthynas â dwy o'r tair ysgol, hoffwn siarad ar ran y gymuned yn gyffredinol a'r opsiwn y byddwn yn ei ffafrio fyddai y dylai'r tair ysgol o dan ystyriaeth aros yn agored fel rhan o strategaeth gymunedol ehangach a fyddai'n rhoi cyfle i'r tair ysgol ffynnu.<br><br>Tra fy mod yn cydnabod fy nghysylltiadau teuluol, fy nghymhelliad cyffredinol yw lles y ward. Credaf fod yr agwedd ward gyfan yr ydw i a fy nghyd gynghorwyr yn bwriadu ei mabwysiadu yn dangos fy mod yn bwriadu gweithredu er lles y diddordeb cyhoeddus ehangach.<br><br>- Gofynnaf i'r Pwyllgor Safonau gefnogi fy rhan fel aelod lleol, ar lefel gymunedol, ond mewn perthynas â'r Cyngor Sir credaf y dylid cyfyngu fy rôl i siarad (ac ysgrifennu) ar y mater a phryd bynnag y bydd cyfleoedd yn codi; i gynnwys cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol ac i gynnwys sefyllfaoedd lle rwy'n aelod a enwir o gorff neu lle rwy'n cael fy ngwahodd. Fodd bynnag, er mwyn lleihau'r canfyddiad o effaith sy'n rhagfarnu hoffwn ofyn i unrhyw ganiatâd arbennig a roddir fy ngalluogi i siarad (gydag unrhyw ganiatâd angenrheidiol gan y Cadeirydd perthnasol) ac i ateb unrhyw gwestiynau ond nid i bleidleisio. Os yw'r pwyllgor o'r farn bod hyn yn briodol, rydw i wrth gwrs yn barod i adael y cyfarfod ar ôl i mi gael cyfle i siarad, tra bydd y drafodaeth a'r pleidleisio'n parhau.<br><br>- Petai unrhyw gyfle neu gyfleoedd yn ystod y broses i gynrychiolwyr y tair ysgol berthnasol siarad dros eu hysgolion yna buaswn yn gadael i gynrychiolwyr eraill o'r ysgolion gyflawni'r rôl honno gan na fyddwn yn dymuno eirioli ar ran un ysgol ar draul y gweddill. |
| **Busnes y mae'r Aelod yn dymuno** | Holl faterion yn ymwneud â dyfodol addysg yn Ward |

| | |
|---|---|
| **cymryd rhan ynddo:** | Seiriol. |
| **Math o ganiatâd arbennig y gwneir cais amdano (ticiwch yn ôl yr angen a nodwch unrhyw wybodaeth angenrheidiol):** | ✓ Ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor Gwaith/Cyngor] ynglŷn â'r mater<br>✓ Siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater ar yr amod y gwneir nodyn o unrhyw drafodaethau o'r fath<br>✓ Siarad mewn cyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol o'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgorau/Cyngor ac ati ac ateb unrhyw gwestiynau ar y mater.<br>o Aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/pleidlais ar y mater;<br>o Pleidleisio mewn cyfarfodydd o'r fath;<br>✓ Arall - ymgymryd â rôl lawn o ran cynrychioli'r gymuned tu allan i'r Cyngor Sir, yn cynnwys mewn cyfarfodydd Cynghorau Tref / Cymuned. |
| **Sail Statudol y gofynnir caniatâd arbennig amdano (Gweler dros y dudalen am y mathau gwahanol)** | Mae'r darpariaethau perthnasol wedi'u hamlygu |
| **Yw'r budd wedi'i gofrestru yn unol ag Adran 81(1) a (2) DLIL 2000:** | Na; ddim yn berthnasol |
| **Dyddiad y mae angen gwneud penderfyniad erbyn:** | 18 Gorffennaf 2017 |
| Llofnod: | Dyddiad: 12 Gorffennaf 2017 |

* Diddordebau sy'n rhagfarnu – Diddordebau personol yw'r rhain y byddai sylwedydd gwrthrychol yn eu hystyried mor sylweddoli eu bod yn debygol o gyfaddawdu gallu aelod i weithredu er lles y cyhoedd.

## Amgylchiadau y Caniateir i Bwyllgor Safonau Roi Caniatâd Arbennig

Mae Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn nodi y caniateir i Bwyllgor Safonau'r Cyngor roi caniatâd gollyngiadau yn unol ag Adran 81(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000:

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau Pwyllgor Gwaith y Cyngor (h.y yr Arweinydd a'r Pwyllgor Gwaith) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) os byddai analluogi aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(d) os yw natur diddordeb yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r diddordeb yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(e) os yw'r diddordeb yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(f) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r diddordeb yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod

(g) os yw'r diddordeb cofrestredig y mae'r diddordeb yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw diddordeb yr aelod yn fuddiant ariannol;

(h) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(i) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r analluogi gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod. Fe ddylai hysbysiad o'r fath nodi'r Aelod y bydd y caniatâd yn berthnasol iddo a rhesymau'r Pwyllgor Safonau dros dynnu'r analluogi; neu

(j) mae'n ymddangos yn briodol i'r pwyllgor i roi'r gollyngiad, fel ateb ymarferol i analluogi'r aelod (gwendid) a fyddai fel arall yn ei gwneud hi'n anodd iddynt adael yr ystafell / siambr pan fydd mater y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo yn cael ei drafod.

ATODIAD/ ENCLOSURE
1

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Gorffennaf 2017** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn –Rhaglen Amlinellol Strategol. Diweddariad Band B.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Delyth Molyneux** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Cyflwynodd yr Awdurdod ei Raglen Amlinellol Strategol (RhAS neu SOP) i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013. Roedd y ddogfen strategol wedi ei rannu mewn i 4 Band sef Band A (2013-2019), Band B (2019-2022), Band C (2022-2025) a Band D (2025-2028).

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Awdurdodau Lleol Cymru ddiweddaru eu cynlluniau Band B a chyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol diwygiedig i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Gorffennaf 2017. Ers cyflwyno'r RhAS neu SOP i Lywodraeth Cymru, mae ffactorau fel poblogaeth ysgolion a nifer penaethiaid cynradd wedi newid. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bydd Band B yn gyfnod o 5 mlynedd ac yn rhedeg o 2019-2024.

Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn parhau yn flaenoriaeth gorfforaethol, ac wedi gwneud cynnydd sylweddol ers cyflwyno'r RhAS diwethaf.

Mae ffactorau eraill yn gyrru'r angen i adolygu'r rhaglen:

1. Er bod y Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diweddar, mae angen i'r Cyngor arbed tua £3.5 miliwn y flwyddyn o 2017/18 am dair blynedd. Golyga hyn fod angen i'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes wneud arbedion fyddai'n cyfrannu at arbedion corfforaethol.
2. Oherwydd y gofyn uchod, bydd angen i'r broses moderneiddio ysgolion gyflymu

Mae'r adroddiad hwn yn ymgais i gyfleu ffeithiau sy'n dangos yr angen i adolygu darpariaeth addysg gynradd ac uwchradd yn Ynys Môn mewn trefn amser sy'n wahanol i'r hyn a amlinellir yn y ddogfen rhaglen amlinellol strategol blaenorol a gyflwynwyd gan yr awdurdod i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013.

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:

1. Ystyried moderneiddio ysgolion cynradd ac uwchradd, a hefyd ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhannu'r un campws neu ysgolion 3-16/3-18 oed.
2. Ystyried cyfraniad awdurdod lleol o thua £18miliwn tuag at Fand B y rhaglen
3. Ystyried yr opsiynau fel yr amlinellir yn yr achos economaidd o'r RhAS/SOP a disgwyl dadansoddiad manwl pellach yn yr achosion busnes manwl sydd i ddilyn.
4. Parhau i gefnogi achos dros newid a gyflwynwyd drwy'r rhaglen moderneiddio ysgolion, a'r gyrwyr newid.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Opsiynau wedi eu hystyried yn y SOP ddiwygiedig ar gyfer newid cyfeiriad y rhaglen er mwyn cwrdd ag anghenion am lefydd mewn ysgolion ble mae eu hangen nhw fwyaf, ac er mwyn symud ymlaen efo'r rhaglen moderneiddio ysgolion. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw – Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 13, 2014. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Asesiad Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| |

**G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 20fed Mehefin 2016
2. Papur Adolygu'r SOP
3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 23ain Mai 2016
4. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.
5. Llythyr gan Lywodraeth Cymru Ionawr 31, 2014

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Y Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) - Band B - y wybodaeth ddiweddaraf

## Arweiniad

Pwrpas y ffurflen hon yw cofnodi'r newidiadau arfaethedig i'ch Rhaglen Band B ers y cytunwyd ar y fersiwn fwyaf diweddaf o'ch Rhaglen Amlinellol Strategol/Strategaeth Ystadau.

Byddwch cystal â llenwi pob un o adrannau perthnasol y ffurflen hon gan gynnwys datganiad cymeradwyaeth y wybodaeth hon yn **Adran 12.**

Sylwch fod y gyllideb ar gyfer Band B y Rhaglen yn gyllideb sefydlog a bydd prosiectau'n cael eu blaenoriaethu os bydd y ceisiadau am arian yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael. Yn y lle cyntaf bydd prosiectau'n cael eu blaenoriaethu ar sail digonolrwydd a chyflwr adeiladau, ond efallai y bydd ffactorau eraill yn cael eu hystyried fel hyblygrwydd asedau, effeithlonrwydd yr ystâd addysg ac amddifadedd.

**Byddwch cystal â dychwelyd copi electronig wedi'i llofnodi o'r ffurflen at Jo Larner, Cyfarwyddwr Rhaglen y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif erbyn dydd Llun 31 Gorffennaf at:**

**21stcenturyschools@wales.gsi.gov.uk**

## Cynnwys yr Adrannau:

TOC

## 1. Amlen Rhaglen Band B sy'n cael ei geisio

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr amlen Band B sy'n cael ei geisio**<br>*e.e. £15,000,000* | **£36,136,501** |
| **Y Cyfraniad sy'n cael ei geisio gan Lywodraeth Cymru**<br>*e.e. £7,500,000* | £18,068,250 |
| **Cyfraniad yr ALI/ Sefydliad AB**<br>*e.e. £7,500,000* | £18,068,250 |

## 2. Crynodeb o'r newidiadau

| |
|---|
| **Beth sydd wedi newid ers fersiwn ddiweddaraf eich RhAS/Strategaeth Ystadau?**<br>*Dim mwy na 1000 o eiriau* |

- Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol a gwnaed cynnydd sylweddol ers y RhAS blaenorol.
- Mae Byrddau'r rhaglen gorfforaethol wedi cael eu diwygio
- Adeiladwyd dwy ysgol ardal newydd, a byddant yn agor yn 2017. Cymeradwywyd achos busnes llawn ar gyfer ysgol newydd ym Mro Rhosyr ac Aberffraw, yn ogystal ag addasu dwy ysgol arall.
- Mae trefn a blaenoriaethu'r prosiectau wedi newid, fel yr amlinellir yn yr Achos Economaidd a'r ddogfen Cais am Newid (Ionawr 2017)
- Bydd Fframwaith Contractwyr Gwaith Mawr Gogledd Cymru 2 yn cael ei ddefnyddio i gaffael y prosiectau Band B
- Noda Tîm Adolygu Porth Llywodraeth Cymru bod Ynys Môn yn enghraifft o arfer da o ran Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif
- Gwersi wedi eu dysgu - yr allwedd i brosiectau llwyddiannus yw dysgu o heriau a llwyddiannau'r prosiect yn y gorffennol.

## 3. Yr Achos Strategol

**Sut mae'ch Rhaglen yn cysylltu â strategaethau lleol a chenedlaethol e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, strategaethau gofal plant a chyfrwng Cymraeg?**
*Dim mwy na 1000 o eiriau*

Hyd yma, mae moderneiddio ysgolion a'r prosiectau cysylltiedig wedi eu halinio â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r rhaglen wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a'r holl bartneriaid perthnasol i sicrhau bod y prosiectau yn cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)**
Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn anelu at gyfrannu tuag at y 7 nod llesiant, fel y dangosir yn y tabl a ganlyn:

| 7 nod llesiant | Sut bydd y Strategaeth moderneiddio ysgolion yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| Ffyniannus<br>Cydradd | Gweledigaeth yr Awdurdod - eisiau i bob unigolyn ifanc, beth bynnag yw eu cefndir a'u hamgylchiadau, lwyddo. |
| Cydnerth | Mae'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a chyflawni prosiectau newid i foderneiddio ysgolion. Mae'r prosiectau wedi eu cynllunio'n effeithiol ac ymgynghorwyd arnynt, er mwyn lleihau ymwrthedd a chyflawni amcanion y prosiect. |
| Iachach | Bydd ysgolion Môn yr 21ain ganrif yn 'ysgolion cymunedol' a gellir eu defnyddio i hyrwyddo Gwasanaethau iechyd, corfforol a chymunedol, yn ogystal â hyrwyddo dewisiadau ffordd o fyw iach ymhlith disgyblion, rhieni a darparwyr gofal plant. |
| Cymunedau cydlynus | Bydd rhanddeiliaid yn cyfrannu at gynllunio a chyfeiriad prosiect drwy'r prosesau ymgynghori ac ymgysylltu.<br><br>Bydd Band B Ynys Môn yn parhau i ymgynghori, ymgysylltu a gweithio gyda phartneriaid, yn arbennig mewn perthynas â datblygu lleoedd mewn ysgolion ochr yn ochr â digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg gyda Mudiad Meithrin, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru a phartneriaid yn y sector gofal plant preifat i rai rhwng 0 a 3 oed. Bydd Gofal Plant a chyfleusterau cofleidiol, ynghyd â defnydd cymunedol o'r adeiladau y tu hwnt i'r flwyddyn ysgol (ac fel pwyntiau cyswllt ar gyfer Gwasanaethau corfforaethol, fel mannau codi i lyfrgelloedd, er enghraifft) yn cynyddu cydlyniant cymunedol yn ystod Band B. Bydd datblygu dewisiadau o ran sicrhau ansawdd ac |

| | |
|---|---|
| | effeithlonrwydd yn y ddarpariaeth ôl-16 hefyd yn cael ei ystyried mewn ymgynghoriad â'r sector Addysg Bellach a'r cyngor sir cyfagos. |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn agwedd allweddol ar y Strategaeth Iaith Gymraeg gorfforaethol a Strategaeth Iaith statudol y Gymraeg mewn Addysg. Bydd cynlluniau ar gyfer Band B i ystyried ymgorffori cyfleusterau 0-3 cyn-ysgol a gofal plant cofleidiol drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn cynyddu darpariaeth y darparwyr Cymraeg ar yr Ynys, a bydd yn sylfaen ieithyddol gadarn i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn unol â thargedau CSYM a Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang | Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion bresennol yn cyfrannu at wella amgylchedd cymdeithasol, economaidd, a diwylliannol yr ynys, a bydd Band B yn barhad o'r rhaglen hon. |

Yn ddiweddar, cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn asesiad llesiant, a gadarnhaodd bod diffyg cyrhaeddiad yn cydberthyn â diffyg llesiant unigolion drwy gydol eu bywydau, ac felly mae angen sicrhau bod capasiti a photensial pob disgybl i lwyddo yn cael ei gyflawni. Ar ben hynny, mae tystiolaeth ddiweddar yn cyfeirio at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cael effaith negyddol hirdymor ar blant ifanc. Mae angen sicrhau bod pob plentyn yn cael profiadau cadarnhaol yn ystod eu plentyndod er mwyn eu galluogi i ffynnu a thyfu i fod yn aelodau gweithgar a chyfranogol o'u cymunedau. Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn sicrhau bod adeiladau ein hysgolion yn addas i'r pwrpas i hybu llesiant corfforol a darparu amgylcheddau ffisegol ac offer, yn ogystal â staff cymorth, nad oes modd eu darparu mewn ysgolion 19eg ganrif.

**Recriwtio a chadw staff**
Gan fod recriwtio arweinwyr a rheolwyr canol â chymwysterau addas yn parhau i fod yn broblem, mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion hefyd yn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ysgolion bach lle mae problemau staffio a recriwtio yn arwain at heriau o ran darparu addysg a phrofiadau dysgu o ansawdd rhagorol sy'n gyson yn dda ar gyfer ein disgyblion. Mae'r rhaglen 21ain ganrif yn cyfrannu at wella ansawdd addysgu a dysgu, gan leihau'r amrywiaeth o ran perfformiad a chyfleoedd rhwng ysgolion, ac yn cyfrannu at sicrhau cyfleoedd dysgu sy'n ymateb i anghenion y dysgwyr ac, yn wir, y gymuned ehangach.

**Cyfleusterau Gofal Plant a Chymunedol i rieni a thrigolion hŷn**
Uned Cefnogi Teuluoedd Ynys Môn sy'n gyfrifol am sicrhau lleoedd gofal plant digonol yn Ynys Môn, ac mae'n cymryd rhan yn y cynllun peilot cenedlaethol o gynnig 30 awr o ofal plant am ddim. Mae'r Uned yn gweithio'n agos gyda'r rhaglen moderneiddio ysgolion ac yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu achosion busnes cysylltiedig, yn enwedig wrth bennu rhagamcanion am ddisgyblion ar gyfer y dyfodol. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod cyfle i hyrwyddo gweledigaeth o ddatblygu darpariaeth gofal cofleidiol ar un safle i bob disgybl dan 11 oed, gan gynnwys brodyr a chwiorydd sy'n fabanod ar rai safleoedd. Rhagwelir y bydd sicrhau darpariaeth feithrin ar gyfer plant 0-3 oed ar safle ysgolion newydd neu rai sy'n cael

eu haddasu, (i gael eu rheoli gyda phartner yn y sector gofal plant lleol) er mwyn darparu gofal rhwng 8.00am a 6.00pm ar gyfer teuluoedd, ynghyd ag addysg feithrin, gofal 'cofleidiol' a chlybiau gofal ar ôl ysgol/gwyliau, yn agwedd allweddol ar raglen ysgolion Band B. Yn ogystal, bydd buddion cymunedol eraill fel ystafelloedd at ddefnydd y gymuned, llyfrgell sefydlog neu bwyntiau gollwng / codi i lyfrgelloedd teithiol a gwasanaethau awtomataidd hunan-gymorth ar gyfer busnes y cyngor, yn fanteisiol ac yn gwella cydlyniant cymunedol. Bydd gwaith i werthuso a datblygu'r modelau hyn ymhellach yn cael sylw yn yr achosion busnes ar gyfer prosiectau penodol.

**Y Gymraeg**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir feddu ar y sgiliau priodol i fod yn hyderus yn eu dwyieithrwydd. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw gynllun newydd a gyflwynir - fel prosiectau sy'n deillio o'r rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

Er mwyn cynyddu cyfran disgyblion y cyfnod sylfaen sy'n cyflawni targedau Iaith Gymraeg fel yr amlinellir mewn dogfennau strategol gan Lywodraeth Cymru a chynlluniau lleol, bwriedir hefyd defnyddio'r modelau gofal plant uchod i gynyddu capasiti gofal plant Cymru ar Ynys Môn. Mae gan y model partneriaeth gofal plant y potensial i fod yn gyfrannwr allweddol tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd y rhaglen foderneiddio yn cydymffurfio â'r polisïau a strategaethau iaith a ganlyn:
- Strategaeth Iaith Cyngor Sir Ynys Môn 2016 - 2021
- Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn
- Strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

**Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) 2013**

Cyflwynwyd y RhAS ar gyfer y rhaglen moderneiddio ysgolion yn 2013. Mae'r ddogfen yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer moderneiddio'r system ysgolion, i sicrhau addasrwydd cyfleusterau ar gyfer anghenion y presennol a'r dyfodol. Mae newidiadau demograffig a chynnydd mewn problemau recriwtio oherwydd proffil oedran y penaethiaid presennol (ar hyn o bryd mae 50% dros 50 oed) a ffactorau eraill wedi arwain at yr angen i adolygu'r drefn blaenoriaethu prosiectau a gyflwynir yn y RhAS. Cyflwynwyd dogfen cais am newid i Lywodraeth Cymru a Phwyllgor Gwaith y Cyngor, ac fe'i cymeradwywyd ym mis Awst 2016. Mae'r RhAS Band B yn adlewyrchu'r newidiadau hynny.

**Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn**

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn amlinellu blaenoriaethau strategol yr Awdurdod. Roedd y cynllun corfforaethol blaenorol (2013-2017) yn cynnwys y flaenoriaeth a ganlyn - 'addysg, gwella sgiliau a moderneiddio ein hysgolion'. Mae'r cynllun corfforaethol ar gyfer 2017-2022 wedi cael ei ddrafftio, a dyma'r allbynnau sy'n gysylltiedig â moderneiddio ysgolion:

parhau i wella safonau addysgol a chyrhaeddiad ein plant
datblygu'r rhaglen moderneiddio ysgolion ymhellach drwy gwblhau ysgol newydd ym Mro Aberffraw, gweithredu prosiect Llangefni a chadarnhau prosiectau Band B, i gynnwys ystyriaeth o ysgolion 3-16 oed ac addysg ôl-16.
adolygu'r trefniadau arweinyddiaeth ar gyfer ysgolion llai o faint, gan gynnwys Ffederaleiddio, penodi penaethiaid strategol aml-safle ac ysgolion cynaliadwy a chost-

effeithiol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a newidiadau a awgrymwyd i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

**Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2015-2020**
Diben y Cynllun yw darparu fframwaith strategol ar gyfer rheoli asedau'r Cyngor.
Mae'r cynllun yn cyfeirio at y rhaglen moderneiddio ysgolion a'r defnydd o ysgolion ar ôl iddynt ddod yn wag. Cyfeirir hefyd at sut y mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn cyfrannu tuag at y strategaeth effeithlonrwydd ynni corfforaethol. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod, a lleihau defnydd ystâd yr ysgolion o ynni yn unol â strategaeth effeithlonrwydd ynni'r Awdurdod, ac mae'n un o'r ffactorau llwyddiant allweddol a amlinellir yn RhAS Band B.
Mae cynllun corfforaethol diwygiedig y Cyngor hefyd yn cyfeirio at asedau'r cyngor yn y dyfodol ac yn rhagweld rôl allweddol i'n cymunedau weithio gyda'i gilydd, mewn ffordd gydlynol a phwrpasol, i ddiogelu ein hasedau, ac i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Amgylchiadau Cyfredol**

- Ni adeiladwyd y stoc presennol o ysgolion i ystyried Dysgu yn yr 21$^{ain}$ ganrif, na'r defnydd cymunedol gwell o gyfleusterau fel gofal plant 0-3 oed, clybiau ar ôl ysgol, defnydd cymunedol o gyfleusterau y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau, llyfrgell a chyfleusterau pwynt gwasanaeth y cyngor.
- Mae capasiti dros ben lleoedd ysgol yn y sector uwchradd yn arwain at ddewisiadau pwnc anymarferol a phenderfyniadau staffio anodd mewn rhai ysgolion. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn y dewisiadau cwricwlwm i ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 4 ac ôl-16, er gwaethaf trefniadau Consortiwm effeithlon rhwng ysgolion a darparwyr hyfforddiant galwedigaethol, a'r defnydd o ystafelloedd capasiti dros ben gan wasanaethau eraill y cyngor ac addysg. Mae rhai ysgolion yn wynebu diffygion ariannol sylweddol a bydd hyn yn cynyddu os nad yw dulliau amgen o ddarparu yn cael eu mabwysiadu yn y sector uwchradd o fewn Band B.
- Mae cyflwr stoc presennol ein hysgolion yn is na'r cyfartaledd, ac mae costau cynnal a chadw cysylltiedig yn parhau i fod yn uchel gan fod y catalog ôl-groniad o waith cynnal a chadw ac addasiadau sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â gofynion DDA a Chyfnod Sylfaen yn rhy ddrud i'w hystyried o fewn y cyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw sy'n gyfyngedig ac sydd hefyd yn crebachu, o ran y rhai datganoledig a'r rhai a gedwir yn ganolog.
- Mae'r Awdurdod yn ei chael yn fwyfwy anodd recriwtio uwch arweinwyr addas a chymwys sy'n siarad Cymraeg yn y sector ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r rhaglen foderneiddio arfaethedig yn un ffactor strategol sy'n cyfrannu at leddfu'r broblem o ran cynllunio olyniaeth arweinyddiaeth ysgolion a sicrhau modelau arweinyddiaeth gwasgaredig sy'n gynaliadwy ac sy'n hyrwyddo safonau uchel ac arweinyddiaeth ragorol yn gyson.
- Mae symudiadau demograffig dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at newidiadau o ran lle mae rhieni yn dymuno anfon eu plant i'r ysgol, a gostyngiad nodedig mewn teuluoedd ifanc mewn rhai ardaloedd.
- Mae rhai ysgolion cynradd yn orlawn tra bod lleoedd gwag gormodol mewn rhai ysgolion o hyd.
- Ar hyn o bryd mae 19 o ysgolion cynradd bach sydd â llai na 75 o ddisgyblion, sydd wedi arwain at anghysondeb annerbyniol yn swm yr arian a ddyrannir fesul plentyn ar draws y sir, ac anawsterau wrth sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, wedi ei ddysgu gan staff â chymwysterau addas sydd â gafael ac arbenigedd priodol ar draws amrywiaeth o bynciau, dan arweiniad pennaeth cymwys a phrofiadol.

**Angen Busnes**
Mae angen i'r Awdurdod barhau i foderneiddio ei ysgolion. Nid yw ei weledigaeth graidd wedi newid ers y RhAS blaenorol ac mae'n cael ei yrru gan yr egwyddorion allweddol a ganlyn:

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i fynychu eu hysgol briodol agosaf lle gallant gael mynediad at yr amrywiaeth lawn o gyfleusterau;
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at gyfleusterau addas sy'n caniatáu cyflwyno amrywiaeth lawn o brofiadau addysgol.
- Lleihad yn nifer y lleoedd heb eu llenwi yn ein hysgolion yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Cefnogi datblygu sgiliau arwain o fewn ac ar draws ysgolion er mwyn datblygu system hunan-wella lle mae ymrwymiad a rennir i ragoriaeth.
- Y posibilrwydd o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cydleoli ar yr un campws.
- Alinio Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn i strategaethau allweddol eraill: Cynllun Corfforaethol, y Gymraeg, Rheoli Asedau, 30 awr o ofal plant.

Gallai Band B arwain at godi ysgolion newydd neu adnewyddu ysgolion. Fodd bynnag, i rai cymunedau lleol, bydd yn golygu cau neu uno eu hysgolion. Nid yw hyn rhywbeth newydd i Ynys Môn ers dechrau Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif, gan fod yr Awdurdod wedi bod yn cynnal gwaith moderneiddio ysgolion i uwchraddio'r ystâd ac mae hyn yn cynnwys cymysgedd o gau, cyfuno, ailwampio ac adeiladu ysgolion newydd. Mae hyn wedi arwain at gau/cyfuno 5 ysgol y tu allan i raglen gyfredol Ysgolion yr 21ain ganrif.

Gan fod Ynys Môn yn ynys sy'n cynnwys cymunedau gwledig a threfol, rydym yn rhagweld y bydd Strategaeth Ysgolion ddiwygiedig yr awdurdod a RhAS Band B yn parhau, gyda dull 'economi gymysg' wedi ei deilwra i anghenion lleol yn seiliedig ar y canlynol:

1. ysgolion i rai 0-11 oed gyda chyfleusterau gofal plant a chymunedol ar/gerllaw'r safle;
2. ysgolion i rai 0-11 oed gyda chyfleusterau gofal plant a chymunedol ar/gerllaw'r safle, wedi eu ffederaleiddio ag ysgol arall/ysgolion eraill;
3. ysgolion i rai 3-11 oed gyda chyfleusterau / heb gyfleusterau gofal plant a chymunedol ar/gerllaw'r safle, mewn trefniant ffederaleiddio;
4. Ysgolion i rai 3-16 neu 3-18 oed NEU ysgolion cynradd ac uwchradd ar un safle ac yn rhannu staff arbenigol a chyfleusterau.
5. Ysgolion uwchradd i rai 11-16 neu 11-18 oed, yn rhannu staff arbenigol ag ysgol arall / ysgolion eraill.

**Disgrifiwch unrhyw wahaniaethau i'ch achos strategol ers i fersiwn ddiwethaf eich RhAS/strategaeth Ystadau gael ei llunio.**

**Rhowch fanylion buddion a risgiau eich Rhaglen.**
*Dim mwy na 1000 o eiriau*

Cyflwynwyd cyd-destun strategol y broses moderneiddio ysgolion yn y RhAS blaenorol. Ers hynny, mae'r rhaglen wedi bod cyflawni yn unol â'i hamcanion strategol.

Mae moderneiddio ysgolion wedi bod yn flaenoriaeth gorfforaethol ers y RhAS flaenorol, ac mae'r rhaglen wedi cyflawni blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol yn sgil adeiladu 2 ysgol newydd a fydd yn agor yn 2017, a chymeradwyo achos busnes llawn ar gyfer Bro Rhosyr a Bro Aberffraw. Nododd yr Adolygiad Porth diweddaraf bod y rhaglen yn esiampl o arfer da mewn nifer o agweddau. Mae Cynllun Corfforaethol Ynys Môn yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ar gyfer 2017-2020, ac mae'r rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol ar gyfer y Cyngor.

Mae'r gyrwyr ar gyfer newid yn aros yn ddigyfnewid ers y RhAS blaenorol
1. lleihau lleoedd dros ben

Mae'r ffigurau isod yn dangos bod nifer y lleoedd dros ben yn sector cynradd Ynys Môn wedi gostwng. Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y newid hwn, fel cau ysgolion bach (y broses foderneiddio cyn sefydlu rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif), newidiadau demograffig a rhywfaint o dwf yn y boblogaeth

| RhAS 2013 | Capasiti | Niferoedd cyfredol | Lleoedd gwag |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 6326 | 4819 | 23.9% |
| Uwchradd | 5462 | 4097 | 25% |
| Cyfanswm | 11788 | 8916 | 24.4% |

| RhAS 2017 | Capasiti | Niferoedd cyfredol | Lleoedd gwag |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 5818 | 5188 | 13.0% |
| Uwchradd | 5171 | 3755 | 27.4% |
| Cyfanswm | 10989 | 8943 | 18.6% |

2. gwella safonau addysgu a chyrhaeddiad;
3. gwella deilliannau addysgol i blant a thorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel;
4. darparu adnoddau modern mewn perthynas ag ysgolion ac adnoddau ystafell ddosbarth
5. capasiti arweinyddiaeth a rheoli
6. hyrwyddo cyfleoedd cyfartal

**Y Risgiau**

Rheolir risgiau Moderneiddio Ysgolion yn y modd a ganlyn:

Tîm y rhaglen yn datblygu'r gofrestr risg, yn adnabod y risgiau, yn sgorio ac yn cynnig mesurau lliniaru. Y Bwrdd Trawsnewid Addysg yn herio a chymeradwyo'r gofrestr risg. Mae'r broses rheoli risg wedi aeddfedu ers y RhAS blaenorol. Mae'r gofrestr risg yn awr yn ddogfen fyw ac yn cael ei diweddaru'n rheolaidd, mae gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau'r Bwrdd o'u rôl mewn perthynas â rheoli risgiau, a sefydlwyd proses gadarn i reoli'r risgiau.
Ceir crynodeb o'r prif risgiau isod:

| Risg | Mesurau lliniaru |
|---|---|
| Diffyg cefnogaeth gan y cyhoedd | Cynnal digwyddiadau ymgynghori anstatudol a statudol, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Sefydlu Grwpiau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid. Cyfathrebu'n effeithiol a dangos parodrwydd i wrando, a defnyddio dulliau cyfathrebu amgen. |
| Llywodraeth Cymru yn peidio â chymeradwyo'r achosion busnes / RhAS diwygiedig | Yr Awdurdod i barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru. Herio / craffu ar yr holl ddogfennau perthnasol yn fewnol cyn cael cymeradwyaeth ffurfiol. |
| Derbynion cyfalaf yn llai nag a ragwelir, neu'n cael eu gohirio. | Y Grŵp Tir ac Asedau Corfforaethol i oruchwylio gweithredu'r Cynllun Rheoli Asedau ac adrodd yn ôl i'r Tîm Trawsnewid Addysg fel bo'n briodol. Cynhaliwyd asesiad gwaelodlin yng Nghaergybi o ddefnydd amgen y safleoedd fydd ar gael yn y dyfodol, ynghyd â'r safleoedd eraill sy'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd, cyn eu cau ym mis Awst 2017. |
| Arian cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn ddim yn cael ei wireddu | Tîm y rhaglen i sicrhau bod prosiectau moderneiddio ysgolion yn cael eu cynnwys yn y cynllun cyllido tymor canolig. Gweithio gyda'r Swyddog Adran 151 a'r Adran Gyllid ar gynllunio strategol ar Fand B a Sicrwydd Ansawdd yn erbyn targedau, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd ar fforddiadwyedd. |
| Tanamcangyfrif costau prosiectau | Cyfeirio at wersi a ddysgwyd ar brosiectau eraill, sydd wedi arwain at gostau uwch, e.e. materion yn gysylltiedig ag archaeoleg, costau sy'n gysylltiedig â rhyddhau staff, |

| | |
|---|---|
| | gweithgareddau disgyblion a chynllunio'r cwricwlwm.<br>Diweddaru costau'n fanwl yn ystod y gwaith o ddatblygu achosion busnes.<br>Sicrhau her gorfforaethol i'r holl gostau a ragwelir drwy gydol holl gamau datblygu'r achos busnes. |
| Risgiau sy'n gysylltiedig â phenodi penaethiaid, a chynllunio olyniaeth. | Y Bwrdd Trawsnewid Addysg i herio'r Adran Addysg a'r tîm prosiect ar gynyddu capasiti arweinyddiaeth ar draws y sector cynradd ac uwchradd.<br>Cymeradwywyd y Strategaeth Arweinyddiaeth a Chynllunio Olyniaeth gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor ym mis Mehefin, i'w weithredu o fis Medi 2017 ymlaen. |

**Manteision y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion**
Mae tîm y prosiect wedi datblygu Cynllun Gwireddu Buddion ar gyfer y rhaglen. Cyflwynwyd y Cynllun i'r Bwrdd Trawsnewid Addysg yn 2014 i'w gymeradwyo. Mae'r cynllun yn cynnwys disgrifiad o'r buddion, allbynnau a ragwelir, a dulliau o fesur y buddion (i ddechrau ar gam terfynu diwedd y prosiect). Cynhaliwyd asesiad manwl er mwyn canfod y dibyniaethau, nodi data sylfaenol, a'r dulliau ar gyfer casglu data perthnasol.
Bydd yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i fesur ac olrhain y buddion a ragwelwyd.

## 4. Yr Achos Economaidd

**Disgrifiwch unrhyw wahaniaethau i'r Achos Economaidd ers i fersiwn ddiweddaraf eich RhAS/strategaeth Ystadau gael ei llunio.**
*Dim mwy na 1000 o eiriau*

**Y Prif Ddewisiadau**

Roedd y dewisiadau cychwynnol a ystyriwyd fel y rhai a amlinellir yn RhAS 2013, gan roi ystyriaeth i 'Gwneud Dim', 'Gwneud y lleiaf posibl', 'Rhaglen Rhesymoli Ysgolion Bach' a 'Rhaglen Datblygu Lawn'.

**Dewis a Ffafrir**

Bydd y prosiectau a gaiff sylw ym Mand B yn cynnwys y canlynol. Nid yw'n bosib cyflwyno gwybodaeth derfynol ynghylch unrhyw opsiynau terfynol gan fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith. Yn sgil hyn mae'r costau a gyflwynir yn amcan gorau o'r opsiynau a nodir gan swyddogion fel posibilrwydd pendant.

| **Ardal Llangefni** | | |
|---|---|---|
| **Ysgolion** | **Cost** | **Amserlen** |
| **Y Graig, Talwrn, Gaerwen ac Henblas** | **£7.7M** | |

| **Ardal Amlwch** | | |
|---|---|---|
| **Ysgolion** | **Cost** | **Amserlen** |
| **i) Syr Thomas Jones ac ysgolion eraill cyfagos, gan gynnwys Llannerchymedd** | **£14.5M** | |

| **Ardal Lligwy** | | |
|---|---|---|
| **Ysgolion** | **Cost** | **Amserlen** |
| **Goronwy Owen, Llanbedrgoch, Moelfre a Phentraeth** | **£6.8M** | |

| **Ardal Seiriol** | | |
|---|---|---|
| **Ysgolion** | **Cost** | **Amserlen** |
| **Biwmares, Llandegfan a Llangoed** | **£7.1M** | |

Mae'r holl Gostau Cyfalaf ac Amserlenni uchod wedi cael eu haddasu ar gyfer Tuedd Optimistiaeth*.

*Mae tuedd i arfarnwyr prosiectau fod yn rhy optimistaidd. Er mwyn ystyried hyn, mae'r holl Gostau Cyfalaf ac amserlenni prosiectau wedi cael eu haddasu am i fyny. Cyfeirir at yr addasiad hwn fel Tuedd Optimistiaeth. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn argymell terfyn uchaf o 24% ar gyfer addasu costau cyfalaf ar adeiladau safonol. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn argymell terfyn uchaf o 4% ar gyfer addasu hyd gwaith ar adeiladau safonol. Gan fod y prosiectau / syniadau hyn ar gyfnod cynnar iawn, nid yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau wedi cael eu rheoli hyd yn hyn, felly mae'r terfyn uchaf wedi cael ei ddefnyddio wrth addasu ar gyfer y duedd optimistiaeth. Mae'r terfynau uchaf yn seiliedig ar y duedd hanesyddol gyfartalog a geir mewn achosion busnes amlinellol.

## 5. Yr Achos Masnachol

| **Disgrifiwch unrhyw wahaniaethau i'r Achos Masnachol ers i fersiwn ddiweddaraf eich RhAS/strategaeth Ystadau gael ei llunio.**<br><br>**Byddwch cystal â chynnwys manylion y modelau cyflenwi rydych yn eu hystyried e.e. fesul swp (*batching*) neu'n unigol (*single delivery*)**<br>*Dim mwy na 1000 o eiriau* |
|---|
| Mae'r Awdurdod yn adolygu'r hyn mae'n ei gynnig i'r sector preifat ar gyfer Band B. Dyma'r opsiynau mae'n eu hystyried:<br><br>Opsiwn 1 – Mae gan yr Awdurdod brofiad da drwy ei dîm dylunio mewnol ar ddylunio ysgolion newydd. Y tîm mewnol profiadol fydd yn gwneud yr holl waith Dylunio Pensaernïol. Bydd ymgynghorwyr allanol o Fframwaith Ymgynghorwyr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cael eu penodi i ategu'r Tîm Dylunio. Byddai Cyngor Môn yn awyddus i roi'r gwaith canlynol ar gontract allanol: Dylunio Saernïol, Dylunio Gwasanaethau Adeiladu, Cynghorwyr Iechyd a Diogelwch, Gwasanaethau Mesur Meintiau, Aseswyr BREEAM a Phenseiri Tirwedd. Byddai Ymgynghorwyr arbenigol eraill yn cael eu penodi ar brosiectau penodol yn ôl yr angen. Neu<br><br>Opsiwn 2 – Bydd y Tîm Dylunio Pensaernïol mewnol yn gwneud y dyluniad cysyniadol ar gyfer prosiect. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ysgwyddo'r rôl Rheolwr Prosiect ac yn penodi Tîm Dylunio cynhwysfawr drwy Fframwaith Ymgynghorwyr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i fynd â'r dyluniad cysyniadol drwy'r broses dyluniad manwl a gwahoddiad i dendro. Neu<br><br>Opsiwn 3 – Bydd y Tîm Dylunio Pensaernïol mewnol yn gwneud y dyluniad cysyniadol ar gyfer prosiect. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ysgwyddo'r rôl Rheolwr Prosiect ac yn penodi prif gontractwr drwy Fframwaith Contractwyr Gwaith Mawr Gogledd Cymru 2 i wneud dyluniad manwl a gwaith adeiladu'r cynllun. Neu<br><br>Opsiwn 4 – Bydd yr Awdurdod yn ysgrifennu manyleb canlyniadau ar gyfer y gwaith o ddylunio ac adeiladu'r ysgolion newydd, a gofynion yr ysgolion wedi'u hadnewyddu, a bydd yn gosod hyn drwy Fframwaith Contractwyr Gogledd Cymru 2. Y tîm mewnol fydd "asiantau'r cyflogwr" i sicrhau bod y contract yn llwyddo i gyflawni'r nod, ond y contractwr llwyddiannus fydd yn ysgwyddo'r risgiau dylunio ac adeiladu.<br>Bydd un o'r Opsiynau'n cael eu dewis ar gyfer pob cynllun unigol, yn seiliedig ar allu'r Tîm Dylunio, y llwyth gwaith ar y pryd a maint y prosiect.<br><br><br><br>**Strategaeth Caffael**<br>Byddwn yn defnyddio Fframwaith Contractwyr Gwaith Mawr Gogledd Cymru 2 i benodi ein partneriaid yn y sector preifat. Bydd y contractwr yn cael ei benodi drwy gynnal mini-gystadleuaeth. Mae'n fframwaith cydweithredol ac integredig sy'n adeiladu ar sylfeini buddion Fframwaith Contractwyr Gogledd Cymru 1 llwyddiannus ac arbedion sy'n deillio o ddefnyddio technoleg, prosesau gwell, arferion cydweithio, arbedion cyflenwi ac arbedion effeithlonrwydd drwy brosesau cydweithio cystadleuol, agored a theg ar brosiectau. |

- Sicrhau cymaint o effaith â phosib ar y gymuned leol drwy gydweithio â busnesau bach a chanolig a defnyddio prosesau dethol doeth sy'n seiliedig ar ansawdd, targedau pendant a meincnodau perfformiad.
- Ymrwymiad pendant i gefnogi a datblygu'r gadwyn gyflenwi leol drwy hyfforddiant a rhannu arferion gorau.
- Dod o hyd i fylchau yn y farchnad ac annog cwmnïau i ôl-lenwi'r bylchau hynny.
- Cydweithio ag asiantaethau ategol a sefydliadau addysg sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygu, a'u cyfeirio at gyllid sydd ar gael i wella sgiliau busnesau bach a chanolig lleol.
- Byddwn yn sicrhau bod ein canlyniadau'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan fesur y Fframwaith a pherfformiad y prosiect yn unol â'r Ddeddf.
- Mae arferion teg yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith a bydd hynny'n dal i ddigwydd, yn ogystal â'r ymrwymiad i hyfforddi a datblygu cenedlaethau'r dyfodol a hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Bydd Fframwaith Contractwyr Gogledd Cymru 2 yn cynnwys pum band ar gyfer gwerth tendr:
£250k > £1m
£1m > £2.5m
£2.5m > £5.5m
£5.5m > £10m
Dros £10m
Byddwn hefyd yn edrych ar wahanol opsiynau – gan gynnwys grwpio rhai o'n cynlluniau ac ystyried caffael ar y cyd wrth i awdurdodau ar draws Gogledd Cymru gydweithio. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod economi Ynys Môn a Gogledd Cymru mor hyfyw â phosib. Bydd cynlluniau i gaffael prosiectau mawr unigol ac i grwpio prosiectau llai yn cael eu hystyried.

**Prosesau caffael arloesol**

Mewn prosiectau llwyddiannus diweddar, mae cynnwys y contractwr yn gynnar yn y broses wedi bod yn allweddol wrth gyflawni'r prosiect. Mae'r fframwaith yn cefnogi'r dull hwnnw, a bydd nifer o Brosiectau ym Mand B yn dilyn yr opsiwn hwn. Bydd yn rhoi cyfle i'r tîm, gan gynnwys y contractwr, edrych yn fanwl ar adeiladwyedd y prosiect a'r gwaith rhaglennu. Byddwn yn ceisio sicrhau mwy o sicrwydd o ran pris cyn penodi'r cynigydd a ffefrir, a chydweithio er mwyn lleihau a dileu'r risgiau.
Mae dwy system adeiladu wahanol â fframiau pren wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar mewn ysgolion yn Ynys Môn, lle cafodd yr holl baneli to a waliau eu gwneud oddi ar y safle. Bydd y systemau hyn, ynghyd â systemau adeiladu oddi-ar-y-safle eraill, yn cael eu hymchwilio ym mhrosiectau Band B – gall y rhain gael effaith ddramatig ar y rhaglen ac ar leihau gwastraff y safle. Mae'r Awdurdod a'i swyddogion bob amser yn ceisio gwthio'r ffiniau ac ystyried dyluniadau arloesol a thechnegau adeiladu modern. Ysgol Rhyd y Llan yw'r ysgol gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael ei hadeiladu â phaneli bêls gwellt.

**Buddion i'r Gymuned**

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn dal i ddefnyddio cymalau Buddion i'r Gymuned safonol yn ei brosesau caffael ar gyfer pob prosiect. Mae sicrhau Buddion i'r Gymuned yn rhan ganolog o ddull caffael cydweithredol Fframwaith Contractwyr Gwaith Mawr

Gogledd Cymru 2. Mae'n ymrwymiad i gyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol rhanbarth Gogledd Cymru. Nod y Fframwaith a'r dull gweithredu yw sicrhau gwerth am arian gyda'r dull caffael a'r prosiectau eu hunain. Gellir gwneud hynny drwy sicrhau bod y prosiectau'n cynnig cymaint o fuddion â phosib i'r gymuned leol, a chynnal datblygiad economaidd ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn helpu i gefnogi agenda trechu tlodi Llywodraeth Cymru.
Mae'r hinsawdd economaidd bresennol a blaenoriaethau economaidd 6 awdurdod Gogledd Cymru yn ffactorau allweddol wrth sicrhau bod Buddion i'r Gymuned yn rhan ganolog o'r Fframwaith a'r dull gweithredu ehangach. Y cwmpas yw mynd ati'n strategol i reoli a chydlynu'r buddsoddiad enfawr yn y rhanbarth a'r arbedion maint i sicrhau buddion ehangach a sbarduno twf economaidd drwy sicrhau mwy o gyfleoedd hyfforddiant a gwaith, cadw swyddi, cynlluniau'r gadwyn gyflenwi a mentrau cymunedol. Bydd hyn yn sicrhau twf economaidd cynaliadwy sy'n creu cyfleoedd i bawb yng Nghymru.
Mae'r fframwaith presennol wedi bod yn llwyddiant ysgubol o ran y Buddion i'r Gymuned yn dilyn y ddau brosiect a gwblhawyd yn Ynys Môn, gyda 5 o swyddi'n cael eu creu, 12 prentis yn cael eu cyflogi, 40 o gyfleoedd hyfforddiant a 793 o achosion o ryngweithio â disgyblion.

## 6. Yr Achos Ariannol

**Disgrifiwch unrhyw wahaniaethau i'r Achos Ariannol ers i fersiwn ddiweddaraf eich RhAS/strategaeth Ystadau gael ei llunio.**

**Rhowch fanylion y trefniadau arian cyfatebol ar gyfer eich Rhaglen a chadarnhau a yw'n fforddiadwy neu ddim.**
*Dim mwy na 1000 o eiriau*

Mae'r costau cyfalaf dangosol, ynghyd â derbyniadau cyfalaf cysylltiedig ac amcangyfrif o'r arbedion refeniw, wedi'u nodi isod: **(Bydd angen llenwi'r tabl isod ar ôl penderfynu pa un o'r opsiynau yn rhan 4 a ddewisir).**

| **Disgrifiad** | **Amcangyfrif o'r Costau Cyfalaf** | **Amcangyfrif o'r Derbyniadau Cyfalaf** | **Amcangyfrif o'r (Arbedion Refeniw) / Costau Ychwanegol** |
|---|---|---|---|
| Y Graig a Talwrn | £3,870,660 | £140,000 | (£43,730) |
| Gaerwen | £3,251,739 | £0 | +£23,420 |
| Henblas | £618,307 | £0 | +£9,690 |
| Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd cyfagos gan gynnwys Llannerchymedd | £14,559,703 | £445,000 | (£99,854) |
| Goronwy Owen, Llanbedrgoch, Moelfre a Phentraeth | £6,727,327 | £1,830,000 | (£146,700) |
| Biwmares, Llandegfan a Llangoed | £7,108,765 | £1,416,000 | (£14,486) |
| | **£36,136,501** | **£3,831,000** | **(£271,660)** |
| | | | |

Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost, ac eithrio llog ar fenthyca digymorth ac arbedion refeniw'r rhaglen, yn hyd at £36miliwn.

Mae proffil cyllido sylfaenol wedi cael ei baratoi, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Bydd cymorth grant ar gael gan y Llywodraeth, hyd at '50% o'r Costau Cyfalaf' neu '50% o'r canllaw costau a argymhellir ar gyfer BB98/99'
- Bydd yr holl dderbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu'r hen gyfleusterau yn cael eu cynnwys yn y rhaglen;
- Bydd balans y gwariant yn cael ei dalu gan ddefnyddio dulliau benthyca digymorth.

Mae hyn yn arwain at y ffigurau a ganlyn:

| **FFYNONELLAU CYLLID** | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £18,068,250 |
| Derbyniadau Cyfalaf | £3,831,000 |
| Benthyca Digymorth | £14,237,251 |
| **Cyfanswm** | **£36,136,501** |

Mae'r costau benthyca i ad-dalu'r benthyca digymorth tua £673,422 y flwyddyn.

Byddai rhywfaint o gostau trosiannol tymor byr yn gysylltiedig â'r opsiynau rhataf, canolig a drytaf. Mae'r costau hyn yn cynnwys:
- Penodi Pennaeth yn gynnar cyn i ddisgyblion gael eu cofrestru yn yr ysgol newydd.
- Costau dileu swydd posib ar gyfer Penaethiaid / Athrawon.
- Diogelu tâl Penaethiaid neu Athrawon a fydd yn wynebu gostyngiad mewn cyflog o bosib.
- Costau eiddo ar gyfer yr ysgolion sydd wedi cau, nes bydd modd cael gwared ar yr ysgolion.

Mae fforddiadwyedd y cynllun yn dibynnu ar sicrhau digon o arbedion o Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion drwy ad-drefnu ysgolion neu nodi arbedion o wasanaethau eraill, neu drwy gynyddu'r dreth gyngor neu ddod o hyd i ffynonellau eraill o incwm.

## 7. Yr Achos Rheoli

**Disgrifiwch unrhyw wahaniaethau i'r Achos Rheoli ers i fersiwn ddiweddaraf eich RhAS/strategaeth Ystadau gael ei lunio.**
*Dim mwy na 1000 o eiriau*

Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion a'r prosiectau cysylltiedig yn dal i gael eu monitro gan y Bwrdd Trawsnewid Addysg. Y newid mwyaf o ran dull llywodraethu'r rhaglen yw diwygio byrddau'r rhaglen gorfforaethol. Roedd 3 bwrdd rhaglen yn wreiddiol, ac maent yn gweithredu fel dau fwrdd erbyn hyn. Roedd y Bwrdd Trawsnewid Addysg yn arfer bod yn atebol i'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaethau, ac mae'n atebol i Fwrdd y Rhaglen Gwella Gwasanaethau, Cymunedau a Phartneriaethau erbyn hyn. Mae rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd nawr yn cynnwys goruchwylio a sbarduno prosiectau a rhaglenni newid, gan gynnig cyfeiriad ac argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer rhaglenni cyllid a phrosiectau newid. Mae'r Bwrdd hefyd yn atebol am risgiau'r rhaglenni/prosiectau, cyrraedd cerrig milltir pwysig a chymeradwyo amserlenni rhaglenni mawr a chymhleth.
Mae'r Bwrdd Trawsnewid Addysg wedi mabwysiadu egwyddorion rheoli prosiectau a rhaglenni. Mae angen sêl bendith y Bwrdd Trawsnewid Addysg ar gyfer achosion busnes a phrosiectau moderneiddio ysgolion.

Mae rôl yr Uwch Swyddog Cyfrifol yn dal yn bodoli ers cyflwyno'r RhAS flaenorol er mwyn sicrhau y bydd y rhaglen yn llwyddiant, ac y bydd ei manteision yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, dydy'r Uwch Swyddog Cyfrifol ddim wedi newid – Delyth Molyneux, y Pennaeth Addysg, yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol presennol. Roedd y RhAS flaenorol hefyd yn nodi y dylid penodi Rheolwr Rhaglen i reoli'r llu o brosiectau. Mae'r Rheolwr Rhaglen wedi bod yn y swydd ers tair blynedd.

Mae Tîm Adolygiadau Gateway Llywodraeth Cymru wedi nodi Ynys Môn fel enghraifft o arfer da o ran Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif. Mae Adolygiadau Gateway wedi cadarnhau bod y rhaglen ar y trywydd iawn i gyflawni ei hamcanion. Mae'r Cyngor wedi integreiddio'r timau rheoli rhaglenni a pherfformiad corfforaethol er mwyn rhoi mwy o sylw i reoli perfformiad a chyflawniad.

Roedd y RhAS flaenorol yn pwysleisio pwysigrwydd sefydlu tîm prosiect. Mae'r tîm wedi cael ei sefydlu erbyn hyn ac mae'n llwyddiannus. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o sgiliau a gwybodaeth.

Mae'r cynllun cyfathrebu wedi newid yn sylweddol, ac mae tîm y prosiect wedi edrych ar wahanol ddulliau cyfathrebu er mwyn bodloni anghenion gwahanol randdeiliaid. Mae tudalen Moderneiddio Ysgolion wedi cael ei chreu ar Facebook, gyda dros 100 o ddilynwyr. Mae'r timau prosiect yn awyddus i edrych ar ddulliau eraill i gyfleu negeseuon pwysig, fel fideos a chyfweliadau ar orsafoedd radio lleol.

Mae logiau gwersi yn cael eu diweddaru a'u trafod yn aml, gan fod dysgu o heriau a llwyddiannau prosiectau yn y gorffennol yn hollbwysig er mwyn sicrhau prosiectau llwyddiannus. Mae rhagor o wersi wedi cael eu dysgu am y broses ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'r dogfennau a'r broses wedi cael eu diwygio yn sgil hynny, a byddant yn dal i gael eu datblygu. Bydd grwpiau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid sy'n annog trafodaeth agored yn cael eu sefydlu yn ystod cam datblygu'r prosiectau, gyda'r nod gyffredinol o sicrhau tryloywder a bod yr holl randdeiliaid yn ysgwyddo perchnogaeth dros y broses a'r prosiect.

**Rhowch fanylion y strwythurau sydd ar waith i gyflenwi'r prosiectau yn eich Rhaglen a manylion cysylltu'r tîm craidd.**
*Dim mwy na 500 o eiriau / organogram*

Mae gan yr Awdurdod system llywodraethu a rheoli prosiect corfforaethol ar gyfer y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion sy'n ddigon cadarn i sicrhau cynnydd; bod adnoddau digonol a phriodol yn cael eu defnyddio; bod rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynnwys a'u hysbysu fel y bo'n briodol, a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn amserol. Mae'r trefniadau'n adlewyrchu ac yn cydnabod maint yr ymrwymiad gwariant dan sylw a natur gymhleth yr ymgynghoriad wrth gyflawni'r prosiect hwn.

Bydd y Bwrdd Trawsnewid Addysg yn dal yn atebol i Fwrdd y Rhaglen Gwella Gwasanaethau, Cymunedau a Phartneriaethau – mae'r strwythur llywodraethu hwn yn sicrhau bod y Bwrdd Trawsnewid Addysg a'i brosiectau moderneiddio ysgolion yn gallu dangos i'r Uwch Dîm Arwain ei fod yn cyflawni'r gwaith yn gyflym. Mae'r Grŵp Rheoli Asedau Corfforaethol hefyd yn atebol i'r Bwrdd Trawsnewid Addysg i sicrhau dull cyson o reoli asedau'r Awdurdod. Mae'r Bwrdd Trawsnewid Addysg yn cadw at yr egwyddorion rheoli prosiect corfforaethol, yn gweithio'n unol â chynllun y prosiect ac yn rhoi gwybod am gynnydd. Bydd angen i bob prosiect moderneiddio ysgol a'i achos busnes gael sêl bendith y Bwrdd Trawsnewid Addysg.

Fel yr amlinellir uchod, mae tîm prosiect mewnol wedi cael ei sefydlu, yn seiliedig ar yr amrywiaeth eang o sgiliau a gwybodaeth a phrofiad o reoli prosiect. Bydd aelodau craidd y tîm prosiect mewnol yn cynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| **Uwch Swyddog Cyfrifol** | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu |
| **Rheolwr Rhaglen** | Emrys Bebb<br>Prince 2 a MSP |
| **Rheolwr Rhaglen** | Nonn Hughes<br>Prince 2 a MSP |
| **Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol** | Gareth Thomas<br>Pensaer Siartredig RIBA |
| **Cyfrifydd** | Arwyn Hughes |
| **Uwch Swyddog Prisio** | Dylan Edwards |
| **Swyddog Cynllunio** | Dewi Francis |
| **Cyfreithiwr** | Arwel Jones |
| **Peiriannydd** | Hugh Percy |
| | |

**Rheoli Materion**

Ystyr mater yw digwyddiad annisgwyl lle bydd rhaid i'r rheolwyr weithredu. Gallai fod yn broblem, yn ymholiad neu'n bryder sy'n effeithio mewn rhyw ffordd ar ran o'r rhaglen, neu'r rhaglen gyfan, neu'n risg sydd wedi dod yn wir. Bydd pob mater a fydd yn cael ei godi – o ba bynnag ffynhonnell – yn cael ei gofnodi ar y log materion, sy'n rhan o adnoddau rheoli'r rheolwr

prosiect. Bydd y materion yn cael eu codi ar lefel tîm y prosiect, ac os na fydd modd eu datrys byddant yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd Trawsnewid Addysg.

**Gwireddu Buddion**

Bydd y cynllun gwireddu buddion yn cael ei ddefnyddio fel adnodd i sicrhau bod y buddion a fwriedir (canlyniadau, prosesau newid) yn cael eu gwireddu a'u cynnal ar ddiwedd y prosiect. Bydd yr Awdurdod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i lunio adnodd tracio i gadw golwg ar y canlyniadau fel maent wedi'u nodi yn yr achos busnes, ac i adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Bydd y cynllun yn diffinio'r rôl a'r cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau buddion penodol, a'r dull a'r amserlen ar gyfer hynny. Bydd Uwch Swyddog Cyfrifol y rhaglen yn arwain yr adolygiadau buddion ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.

**Trefniadau ar gyfer rheoli risg**

Mae rheoli risg ar y prosiect hwn yn broses sy'n cynnwys nodi risgiau, asesu risgiau a strategaeth lliniaru. Bydd y Rheolwr Prosiect yn cadw Cofrestr Risgiau sy'n cael ei hadolygu:

i. yng nghyfarfodydd y Bwrdd Trawsnewid Addysg, ac

ii. yng nghyfarfodydd Tîm y Prosiect.

Mae'r Uwch Swyddog Cyfrifol hefyd yn annog disgyblaethau cryfach ar gyfer Rheoli Risg yn y Rhaglen gyda sbardunau pendant, a system uwchgyfeirio ac adrodd. Mae tîm y prosiect wedi llunio cofrestr risgiau ar gyfer y rhaglen. Gellir gweld copi o gofrestr risgiau'r prosiect ar gais.

**Trefniadau ar gyfer rheoli contractau**

O safbwynt contract, Gareth Thomas (Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol) fydd yn rheoli'r contract Adeiladu, a bydd yn cael cymorth gan Syrfëwr Meintiau a benodir yn allanol. Bydd rhaid i'r partïon drafod a chytuno ar bob cytundeb a newid yn y contract.

**Trefniadau adolygiadau Gateway**

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yr Awdurdod wedi cael ei hadolygu dair gwaith hyd yma, ac wedi cael y statws Ambr-Gwyrdd drwy gydol y broses o safbwynt ffydd yn y broses gyflawni.

Cynhaliwyd yr Adolygiad Gateway diweddaraf ar 9-11 Ionawr 2017, i gyd-daro â chyflwyno'r Achos Busnes Llawn hwn ar gyfer prosiect Bro Aberffraw / Rhosyr. Mae profiad a phroses adolygiad Gateway yn dal i gynnig sicrwydd i'r Uwch Swyddog Cyfrifol bod y Rhaglen yn dal i gymryd camau cadarnhaol tuag at lwyddiant. Mae'r adolygwyr yn cyfweld â rhanddeiliaid allweddol er mwyn nodi enghreifftiau o arferion da a chyfleoedd i ddathlu llwyddiant.

**Rheoli Newid**

Hanfod y rhaglen moderneiddio ysgolion yw rheoli newid. Mae newid yn gallu arwain at ddigwyddiadau annisgwyl a cholli ffydd rhanddeiliaid. Mae'r Uwch Swyddog Cyfrifol yn ffyddiog bod gan y rhaglen strwythur llywodraethu da i gadw rheolaeth dynn dros wyriadau a materion o bwys.

**Darparwch brif gerrig milltir ar gyfer y Rhaglen os gwelwch yn dda**

# *COPY PLAN HERE*

## 9. Gwneud cais am arian y Model Buddsoddi Cydfuddiannol

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n bwriadu cyflawni unrhyw rai o'ch prosiectau Band B gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol?**<br>*Dylech ddileu fel y bo'n briodol* | **Nac ydym** |

**Os:**

- **Nac ydych -** ewch i'r adran nesaf, **Adran 10**
- **Ydych -** llenwch yr adran berthnasol ar gyfer awdurdodau lleol neu Sefydliadau Addysg Bellach isod.

### (a) Awdurdodau Lleol

| **Ysgolion** | | **Nifer** | **Maint** | **Cost - ar sail arweiniad Llywodraeth Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodwch ar gyfer faint o adeiladau ysgol y byddech yn defnyddio'r cyllid hwn:** | **Cynradd** | | | |
| | **Uwchradd** | | | |
| | **Cyfanswm** | | | |

| |
|---|
| **Rhowch fanylion cryno gan gynnwys teitl ac amcangyfrif o gostau cyfalaf y prosiect(au):**<br>*Dim mwy na 1000 o eiriau* |

| |
|---|
| **Enghraifft:**<br><br>**Ysgol Uwchradd Westleaf**<br><br>**Amcangyfrif o'r Gost Cyfalaf - £20,000,000**<br>Dyma ysgol uwchradd newydd gyda lle i 1000 FTE yn nhref x a fydd yn disodli'r ddwy ysgol uwchradd sydd yno'n barod a chyflwr y rheini yn gyflwr categori C a D. |

**(b) Sefydliadau Addysg Bellach**

| **Colegau** |
|---|
| **Rhowch fanylion cryno prosiec(au) eich coleg, ynghyd ag amcangyfrif o'r gost cyfalaf gan ddefnyddio cyfradd cyfalaf Llywodraeth Cymru am bob m$^2$.**<br><br>**Rhowch fanylion am faint y gwaith a gynlluniwyd e.e. campws, amnewid bloc, estyniad a'r math o gyfleusterau e.e. adeiladu, trin gwallt a harddwch.**<br>*Dim mwy na 1000 o eiriau* |

**Enghraifft:**

**Canolfan celfyddydau creadigol a busnes Campws Eastleaf**

**Amcangyfrif o'r Gost Cyfalaf: £20,000,000**

Dyma ddatblygiad 600 lle ar gyfer busnes a'r celfyddydau creadigol ar gampws x.........

## 10. Prosiectau Band B

| | |
|---|---|
| **Faint o brosiectau rydych yn bwriadu'u cyflwyno ym Mand B?** | 6 |

**Beth ydy'r rhain? (Sylwch y dylai manylion prosiectau gael eu cynnwys yn y tabl atodedig hefyd). Dylid rhoi'r prosiectau yn ôl blaenoriaeth yn y ddwy ddogfen.**
*Dim mwy na 500 o eiriau*

| Rhif | Cynllun |
|---|---|
| 1. | **Addasu Ysgol Y Graig yn Llangefni, cau Ysgol Talwrn, symud y disgyblion i Ysgol Y Graig**<br><br>**Amcan gost cyfalaf - £3,870,660** |
| 2. | **Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd cyfagos, gan gynnwys Llanerchymedd**<br>**Amcan gost cyfalaf - £14,559,703** |
| 3. | **Lligwy / Gogledd Ddwyrain Môn – Ysgol gynradd newydd yn lle 4 ysgol gynradd**<br><br>**Amcan gost cyfalaf - £6,727,327**<br><br>Ysgol gynradd newydd i 330 |
| 5. | Biwmares, Llandegfan a Llangoed<br><br>**Amcan gost cyfalaf -** £7,108,765 |
| 6. | **Ail-fodelu Ysgol Esceifiog, Gaerwen**<br><br>**Amcan gost cyfalaf - £3,251,739**<br><br>Ail fodelu Ysgol Esceifiog i gymryd 150 o blant |
| 7. | **Ail-fodelu ac ymestyn Ysgol Henblas, Llangristiolus**<br><br>**Amcan gost cyfalaf - £618,307**<br><br>Ail fodelu Ysgol Esceifiog (96 o blant) |

## 11. Bandiau C a D

**Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer Bandiau C a D eich Rhaglen. [Bydd Band C yn weithredol rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2029; bydd Band D yn weithredol rhwng Ebrill 2029 a Mawrth 2034].**

**Band C**

| | |
|---|---|
| 1. | **Ail-fodelu 2 ysgol gynradd** |
| 2. | **Ail fodelu ysgol uwchradd** |
| 3. | **Adeilad 6$^{ed}$ Dosbarth** |
| 4. | **Ail-fodelu ysgol uwchradd a symud disgyblion un neu ddwy ysgol gynradd I'r ysgol ar y safle** |
| 5. | **Ail-fodelu ysgol uwchradd** |
| 6. | **Ail-fodelu ysgol uwchradd** |

| | |
|---|---|
| 7. | **Ysgol gynradd newydd yn lle 3 ysgol yng Ngorllewin Canolbarth Môn** |

**Band D**

| | |
|---|---|
| 1. | **Ysgol gynradd newydd yn lle 2 yng Ngorllewin Canolbarth Môn** |
| 2. | **Ail fodelu ysgol gynradd** |
| 3. | **Ysgol gynradd newydd yng Ngorllewin Môn** |

## 12. Datganiad Cymeradwyo'r Rhaglen Amlinelliad Strategol - Diweddariad Band B - Gorffennaf 2017

**Llenwch fel bo'n briodol:**

**Cadarnhaf fod y diweddariadau yn y ffurflen hon wedi'u cadarnhau un ai gan Gabinet yr awdurdod lleol neu Bwrdd y sefydliad addysg bellach:**

| | |
|---|---|
| **Awdurdod Lleol/ Coleg** | |
| **Enw** *Print* | |
| **Enw** *Llofnod* | |
| **Swydd yn y sefydliad** | |
| **Dyddiad** DD/MM/BBBB | |

**Os nad oes cadarnhad wedi'i gael ar lefel Cabinet neu Fwrdd, dywedwch pryd y rhagwelir y ceir hyn. Cadarnhewch hefyd ar ba lefel mae'r ddogfen wedi cael ei llofnodi.**

| |
|---|
| |

## 5.1 Côd Ymddygiad i Aelodau

Dyma'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 12.05.2016

**Rhan 1 – Dehongli**

1. (1) Yn y cod hwn

mae "aelod" ("member") yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "aelod cyfetholedig" ("co-opted member"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond -

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-Bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd is-Bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-Bwyllgor hwnnw;

ystyr "eich awdurdod" ("your authority") yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("relevant authority") yw -

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

ystyr "cofrestr o fuddiannau'r aelodau" ("register of members' interests") yw'r gofrestr a sefydlir ac a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "cyfarfod" ("meeting") yw unrhyw gyfarfod -

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, Is-Bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-Is-Bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(ch) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 ,

ac mae'n cynnwys amgylchiadau lle mae aelod o weithredaeth neu fwrdd neu swyddog yn gweithredu ar ei ben ei hun yn cyflawni swyddogaeth awdurdod

ystyr "chi" ("you") yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol.

(2) Mewn perthynas â chyngor cymuned—

(a) ystyr "swyddog priodol" ("proper officer") yw swyddog o'r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; a

(b) ystyr "pwyllgor safonau" ("standards committee") yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Rhan 2 - Darpariaethau Cyffredinol**

2. (1) Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn -

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(ch) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

3. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu -

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

4. Rhaid i chi -

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson;

(ch) beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran; a

(d) mynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y côd ymddygiad hwn yn ystod pob tymor llawn yn y swydd ac, yn achos yr aelodau hynny sydd wedi cael eu hethol i'r Cyngor Sir am y tro cyntaf a'r rheiny sydd wedi cael eu hailethol ond nad ydynt wedi treulio cyfnod di-dor yn y swydd, rhaid iddynt fynychu'r hyfforddiant yn ystod y chwe mis yn dilyn eu hethol.

5. Rhaid i chi -

(a) beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) beidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

6. (1) Rhaid i chi -

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) roi gwybod i swyddog monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r côd ymddygiad hwn;

(ch) beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

7. Rhaid i chi -

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) beidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio -

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

8. Rhaid i chi -

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan -

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a arfaethir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodir gan eich awdurdod.

9. Rhaid i chi -

(a) barchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

**Rhan 3 - Buddiannau**

Buddiannau Personol

10. (1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r côd ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef -

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt -

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a gawsoch wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu waith a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw -

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod

ac yn berthnasol i (aa) i (dd), yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

[Sylwer: mae isbaragraff (b) wedi cael ei adael allan] -

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio -

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

ac yn berthnasol i (i) i (v), a hynny i raddau mwy -

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

Datgelu Buddiannau Personol

11. (1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y

buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud -

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o leiaf -

(a) manylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r côd hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r côd hwn.

Buddiannau sy'n Rhagfarnu

12. (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn amodol ar (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw -

(a) yn gysylltiedig -

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) â chorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â'ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol yr ydych yn un o'i llywodraethwyr;

(v) â'ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig:

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dad-cu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Deddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg amser llawn, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael, taliad o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir yn unol â darpariaethau Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, neu lwfans neu bensiwn a ddarperir o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymunedol mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r esemptiadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys os yw'r busnes yn gysylltiedig â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini

13. Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath ) -

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

Cyfrannu mewn Perthynas â Datgelu Buddiannau

14. (1) Yn amodol ar is-baragraffau (2), (2A) (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod -

(a) ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal -

(i) pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(ch) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(d) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid i chi roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(2) Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch fod yn bresennol mewn cyfarfod ond dim ond er mwyn gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, ar yr amod

y caniateir hefyd i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i'r un diben, p'un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(2A) lle mae gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu ym musnes yr awdurdod, gallwch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gyfarfod mewn perthynas â'r busnes hwnnw ar yr amod y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod i bwrpas gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth am y busnes p'un a yw'n statudol ai peidio.

(2B) wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig dan baragraff (2A), rhaid i chi gydymffurfio gydag unrhyw weithdrefn y gall eich awdurdod ei mabwysiadu ar gyfer cyflwyno sylwadau o'r fath.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfod -

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod o bwyllgor trosolwg neu sgriwtini, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau'n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod â chaniatâd arbennig  ar yr amod -

(i) eich bod yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod a bod hwnnw'n cynnwys -

(aa) manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion y busnes y mae'r diddordeb sy'n rhagfarnu'n gysylltiedig ag ef;

(cc) manylion y caniatâd arbennig a'r dyddiad pryd y'i rhoddwyd; a

(chch) eich llofnod.

(4) Os bydd gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar ganiatâd arbennig, rhaid i chi ddarparu manylion am y caniatâd arbennigmewn unrhyw sylwadau a wnewch yn ysgrifenedig neu ar lafar ac, yn yr achos olaf hwn, rhaid i chi ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer eich awdurdod o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y sylwadau.

**Rhan 4 - Cofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau**

Cofrestru  Buddiannau Personol

15. (1) yn amodol ar is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl -

(a) i gôd ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(b) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau personol, os ydynt yn dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a) yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau, drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw newid i fuddiant personol a gofrestrwyd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r newid hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.
(4) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) a (3) yn gymwys i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(5) Ni fydd is-baragraff (1) a (2) yn gymwys os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

Gwybodaeth sensitif

16. (1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r diddordeb hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r diddordeb o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff (1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod gan ofyn am i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr diddordebau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" ("sensitive information") yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fygythion.

Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

17. Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Dylai hysbysiad ysgrifenedig o'r fath gael eu darparu yma.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â CHAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN AELOD O'R CYNGOR SIR**

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | **Rhoi caniatâd arbennig i'r Cynghorydd Carwyn Jones (Ward Seiriol) yn unol â'r telerau a ddisgrifir isod** |
| **Dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau:** | **18 Gorffennaf 2017** |
| **Enw'r personau y dylid ei hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | **Y Cynghorydd Carwyn Jones a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben:** | **8 Mai 2022** |

Yn unol â pharagraff (d), (f) a (i) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu rhoi **caniatâd arbennig** i'r Cynghorydd Carwyn Jones mewn perthynas â'r diddordeb hwnnw y cyfeirir ato / y diddordebau hynny y cyfeirir atynt yn nhudalen 1 y Cais (Moderneiddio'r ddarpariaeth addysgol yn Ward Seiriol) sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:

- ✓ ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] ynglŷn â'r mater;
- ✓ siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater;
- ✓ siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ayyb ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater;
- ✓ aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth ar y mater a chymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth (pan fo'n aelod o'r corff);
- o ~~pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny~~;
- ✓ arall – ymgymryd â rôl lawn wrth gynrychioli'r gymuned mewn cyfarfodydd tu allan i'r Cyngor Sir, i gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus ac unrhyw gyfarfodydd perthnasol o Gynghorau Tref a Chymuned.

Mae gan y Cynghorydd felly hawl i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ayyb mewn perthynas â'r mater ac ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ayyb a chaniateir iddo aros yn yr ystafell yn ystod y drafodaeth a chymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth (pan fo'n aelod o'r corff) ond ni chaniateir iddo bleidleisio ar y mater.

Cyn i'r Cynghorydd siarad â, neu ysgrifennu at, swyddogion y Cyngor, neu siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ar y mater, mae'r rhaid i'r Cynghorydd :-

- ddatgan diddordeb yn y mater; a
- cadarnhau bod caniatâd arbennig wedi ei roi er mwyn caniatáu i'r Cynghorydd siarad [~~a phleidleisio~~] ar y mater; a
- cwblhau hysbysiad i'r Clerc yn manylu ar y diddordeb a'r caniatâd arbennig.

Drwy awdurdod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiedig: 18 Gorffennaf 2017

# PWYLLGOR SAFONAU – PANEL CANIATÂD ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mrs Denise Harris-Edwards<br>Mrs Dilys Shaw |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Carwyn Jones |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG**

Cyflwynwyd - cais gan y Cynghorydd Carwyn Jones am ganiatâd arbennig mewn perthynas â strategaeth y Cyngor Sir ar gyfer addysg ar yr Ynys yn y tymor canol a'r tymor hir.

Rhoddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro grynodeb o gefndir y cais, a dywedodd fod y Cyngor Sir yn llunio ac yn cyflwyno cynllun i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ynghylch ei gynigion ar gyfer moderneiddio ysgolion ar Ynys Môn. Un o'r ardaloedd blaenoriaeth a asesir fydd ward Seiriol, sef ardal y mae'r Cynghorydd Jones yn ei chynrychioli gyda dau aelod arall. Fel aelod lleol, byddai disgwyl iddo gymryd rhan lawn ar lefel leol yn y broses ymgynghori a'r broses gwneud penderfyniadau, hyd at y cyfnod pan roddir y strategaeth ar waith.

Nodwyd bod y Cynghorydd Jones wedi datgan tri diddordeb personol. Mae'n llywodraethwr ysgol a benodwyd gan y Cyngor ac yn Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llandegfan, sydd yn un o'r tair ysgol dan ystyriaeth yn ward Seiriol. Mae'r ddau diddordeb personol arall yn ddiddordebau sy'n rhagfarnu hefyd ac maent yn ymwneud ag aelodau o'i deulu, sy'n gyfystyr â chyswllt personol agos fel y diffinnir hynny yn y Côd Ymddygiad. Mae cefnder y Cynghorydd yn cael ei gyflogi yn Ysgol Gynradd Biwmares, sydd hefyd yn cael ei

hadolygu yn ward Seiriol. Mae mab ei gefnder hefyd yn mynd i Ysgol Gynradd Llandegfan.

Cydnabu'r Cynghorydd Jones fod y perthnasau a’r cysylltiadau teuluol hyn yn rhai agos, ond mai ei gymhelliad pwysicaf yw budd y ward, a'i fod yn llwyr fwriadu gweithredu er budd ehangach y cyhoedd.

‘Rhoddwyd cyfle i’r Cynghorydd Jones annerch y Panel a rhoddodd ei farn a’i resymau manwl dros ei gais am ganiatâd arbennig.

I grynhoi, amlygodd y Cynghorydd Jones bwysigrwydd materion addysg i'r etholwyr yn y ward, a dywedodd ei fod yn teimlo bod dyletswydd arno fel aelod lleol i gymryd rhan yn y broses o ysgrifennu, casglu a rhannu gwybodaeth ynghylch unrhyw gynigion i’r dyfodol ar gyfer addysg yn y ardal. Os rhoddir caniatâd iddo, dywedodd y byddai'n mynychu ac yn siarad yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned / Tref ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus, a hynny er mwyn mesur ac adlewyrchu’r farn leol, a byddai unrhyw benderfyniadau a wneir yn cael effaith ar addysg y cenedlaethau i ddod. Byddai hefyd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gasglu a rhannu gwybodaeth. Dywedodd na fyddai'n ceisio pwerau pleidleisio, ac os bydd y Panel yn credu ei fod yn briodol, byddai'n gadael cyfarfodydd yn ystod y pleidleisio. Dywedodd ymhellach ei fod yn dymuno gweithredu fel dolen rhwng ei gymuned a'r Cyngor Sir i sicrhau bod llais y gymuned yn cael ei glywed ac yn cael sylw priodol yn y broses / penderfyniadau a wneir drwy gydol y cyfnodau ymgynghori / gweithredu ac ati.

Nodwyd nad oedd y Cynghorydd Jones wedi mynegi ei farn / safbwyntiau hyd yma mewn perthynas â’r cynigion, ond mae wedi mynychu cyfarfodydd yn ysgolion Llangoed, Biwmares a Llandegfan a chyfarfodydd Cyngor Cymuned i wrando ar farn pobl leol. Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod wedi hwyluso a rhannu gwybodaeth, ac wedi annog pobl i fynegi eu barn yn ystod y cam hwn yn y broses ymgynghori, sy'n ymgynghoriad anstatudol a fydd yn dod i ben mewn pythefnos. Mae'r gymuned leol yn bryderus iawn am ddyfodol y tair ysgol gynradd, y goblygiadau ar gyfer y plant, a'r effaith ehangach ar y gymuned yn ei chyfanrwydd.

Adroddodd y Cynghorydd Jones fod y tri Chynghorydd lleol yn credu bod diffyg cynllun strategol ar gyfer ward Seiriol yn ei chyfanrwydd, gan fod pobl ifanc yn gadael yr ardal oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth, gan arwain at leoedd gwag yn yr ysgolion a phoblogaeth sy'n heneiddio. ‘Roedd y Cynghorydd Jones yn argymell ar ran y gymuned mai’r opsiwn y mae ef yn ei ffafrio yw bod y tair ysgol yn y ward yn aros ar agor fel rhan o strategaeth gymunedol ehangach ar gyfer yr ardal a fyddai hefyd yn rhoi cyfle i’r tair ysgol ffynnu. Maent yn haeddu cyfle i roi cynnig arni o leiaf.

Nodwyd bod y Cynghorwyr ar gyfer ward Seiriol yn credu ei bod yn gynamserol i gynnal gwerthusiad i gau ysgolion ar hyn o bryd, a’u bod yn teimlo na fyddent

mewn sefyllfa i gymeradwyo unrhyw un o'r opsiynau ar hyn o bryd. Maent yn credu y dylid gweithredu cynllun i adnewyddu'r ward drwy greu cyfleoedd am waith, tai fforddiadwy / cymdeithasol a moderneiddio'r tair ysgol fel rhan o'r pecyn ehangach hwnnw.

Am y rhesymau a nodwyd yn y cais, mae’r Cynghorydd Jones wedi gofyn i'r Panel Safonau ystyried rhoi caniatâd arbennig, a fyddai'n goresgyn y ddau ddiddordeb sy’n rhagfarnu, gan ganiatáu iddo gymryd rhan ar lefel leol ac ar lefel y Cyngor mewn perthynas â thrafod a llunio ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad a'r prosesau statudol ac anstatudol.

Ymneilltuodd Aelodau'r Panel i sesiwn breifat ar gyfer trafodaeth. Yn dilyn trafodaeth, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau **wedi PENDERFYNU rhoi caniatâd arbennig i'r Cynghorydd Carwyn Jones mewn perthynas â'r diddordeb / diddordebau y cyfeirir atynt yn y Cais, yn unol â pharagraffau (d), (f) ac (i) yn Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygiad) 2016.**

Daw’r caniatâd arbennig i ben ar 8 Mai, 2022, a than hynny mae’n caniatáu i'r Cynghorydd : -

- **Ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / y Cyngor ac ati] am y mater;**
- **siarad â swyddogion y Cyngor am y mater;**
- **siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / y Cyngor (ar yr amod bod y Cadeirydd wedi rhoi caniatâd) ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;**
- **aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth ar y mater a chymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth (pan yn aelod o'r corff);**
- ~~**pleidleisio mewn cyfarfodydd o'r fath;**~~
- **arall - ymgymryd â rôl lawn yn cynrychioli'r gymuned mewn cyfarfodydd y tu allan i'r Cyngor Sir, gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus ac unrhyw gyfarfodydd perthnasol o Gynghorau Tref a Chymuned ac ati.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm

**MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **13 Medi 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Trefniadau Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am Brotocol Datrysiad Lleol a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

- Bydd y Pwyllgor Safonau'n ymwybodol o'r ffaith bod yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus cyfredol ar gyfer Cymru (OGCC)yn fuan ar ôl ei benodiad, wedi adolygu a diweddaru'r prawf trothwy ar gyfer cynnal ymchwiliadau i achosion honedig o dorri'r côd ymddygiad. Roedd y newid hwn yn berthnasol i gynghorwyr sir a chynghorwyr tref a chymuned.

- Yn ôl prawf trothwy cyfredol OGCC, ni fydd ond yn cynnal ymchwiliadau (y gellir eu hadolygu a'u dwyn i ben ar unrhyw adeg) os yw'n fodlon bod y ddau amod isod yn berthnasol:-

  - Bod tystiolaeth ar gael bod y côd ymddygiad efallai wedi cael ei dorri a;

  - Bod unrhyw achos o dorri côd a all fod wedi digwydd yn ddigon sylweddol fel ei bod er budd y cyhoedd i agor ymchwiliad.

- Mae OGCC wedi bod yn glir mai ei fwriad wrth adolygu'r prawf trothwy oedd sicrhau bod adnoddau ei swyddfa yn cael eu defnyddio i ganolbwyntio ar y cwynion mwyaf sylweddol yn unig a gofynnwyd i gynghorau sir ddyfeisio protocol datrysiadau lleol i ddelio gydag "anghydfodau lefel isel" sy'n honni bod y Côd wedi'i dorri; gyda chyfeiriad penodol at anghydfodau rhwng cynghorwyr sy'n ymwneud â honiadau o fethiant i ddangos parch / ystyriaeth. Mae copi o Brotocol Anghydfodau Lleol y Cyngor Sir hwn ynghlwm yn **ATODIAD 1**. Mae Protocol hwn wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ond mae'n wirfoddol i gynghorwyr unigol.

- Mae’r Pwyllgor Safonau wedi gofyn i OGCC / Llywodraeth Cymru ddarparu protocol datrysiad lleol ar gyfer yr holl gynghorau sir er mwyn sicrhau fod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn gyson. Fodd bynnag, gwrthodwyd y cais hwnnw ac nid oes arwydd bod unrhyw fwriad i gynhyrchu dogfen o’r fath.

- Beth bynnag, mae OGCC wedi nodi yn ei Adroddiadau ar Achosion Ymddygiad, a gynhyrchir yn chwarterol, bod cael protocol datrysiadau lleol wedi arwain at ostyngiad yn nifer y cwynion am gynghorwyr sir.

- Gan ddilyn y thema hon, gofynnodd OGCC i drefniadau addas, anffurfiol gael eu sefydlu ar gyfer cynghorau tref a chymuned gan fod nifer y cwynion yn erbyn cynghorwyr tref a chymuned yn sylweddol uwch na’r nifer a gafwyd yn erbyn cynghorwyr sir.

- I’r perwyl hwn, mae Un Llais Cymru, y corff sy’n cynrychioli / cynghori’r rhan fwyaf o gynghorau tref / cymuned wedi dyfeisio a chyhoeddi Protocol yr awgrymir ei ddefnyddio. Mae hwn ynghlwm yn **ATODIAD 2**.

- Mae Protocol Un Llais Cymru wedi cael ei gylchredeg i’r holl gynghorau tref a chymuned ar Ynys Môn sy’n aelodau o Un Llais Cymru.

**CRYNODEB O’R EGWYDDORION YM MHROTOCOL UN LLAIS CYMRU**

- Mae Protocol yn un dewisol a bydd angen i bob cyngor yn unigol ei fabwysiadu. Serch hynny, ni fyddai iddo unrhyw rym cyfreithiol ac ni fyddai unrhyw ymrwymiad ar gynghorwyr i fod yn rhan ohono er y gallai methiant i wneud hynny fod yn nodwedd berthnasol mewn unrhyw ymchwiliad cysylltiedig gan OGCC.

- Mae’r Protocol wedi cael ei gymeradwyo a’i gefnogi gan OGCC.

- Mae wedi ei ddylunio ar gyfer mân gwynion gyda phwyslais arbennig ar honiadau o fethiant i ddangos parch ac ystyriaeth.

- Mae’n berthnasol rhwng cynghorwyr a chynghorwyr a rhwng swyddogion a chynghorwyr; er bod clercod cynghorau/swyddogion priodol wedi eu heithrio’n benodol. Ni fyddai’n disodli unrhyw hawliau cyflogaeth ac, yn achos aelodau staff hefyd, byddai’n broses wirfoddol.

- Mae cwynion gan y cyhoedd a chwynion a fyddai’n croesi trothwy’r OGCC ar gyfer ymchwiliad, yn syrthio y tu allan i’r Protocol; yn enwedig methiant i ddatgelu diddordebau / bwlio / camddefnyddio swydd neu ymddiriedaeth / torri’r côd dro ar ôl tro.

- Ar ail dudalen y Protocol, rhestrir y sawl a fydd yn rhan o’r broses ac mae hyn yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau.

- Nid yw’r broses yn un sy’n cynnwys unrhyw gosb ac i bob pwrpas, proses gyfryngu ydyw sydd wedi ei dylunio i sicrhau bod y partïon yn gallu ailsefydlu perthynas waith ymarferol.

- Yr un modd â phrotocolau datrysiadau lleol ar lefel y cyngor sir, gall y canlyniad fod yn ymddiheuriad, ymrwymiad i beidio ag ymddwyn yn yr un modd eto, ymrwymiad i fynd ar hyfforddiant neu bod dim angen gweithredu ymhellach.
- Mae'r amser ar gyfer y broses wedi cael ei ddisgrifio fel: "mor gyflym ag sy'n bosibl" ond mae'n cydnabod y bydd llawer yn dibynnu ar argaeledd unigolion ac ati.
- Er nad yw'n hollol glir yn y Protocol, mae'n ymddangos, er ei fod wedi ei ddylunio i ddelio gyda chwynion lefel isel ynghylch diffyg parch ac ystyriaeth honedig cyn iddynt gael eu cyflwyno i OGCC, bod modd hefyd i OGCC gyfeirio'r cyfryw faterion nad ydynt yn cwrdd â'i drothwy ar gyfer ymchwiliad, yn ôl i'r cynghorau tref/cymuned i'w datrys yn lleol.
- Nid oes unrhyw rôl benodol wedi ei nodi ar gyfer pwyllgorau safonau lleol yn y broses hon; efallai bod hyn oherwydd adnoddau ynghyd â'r posibilrwydd o wrthdaro petai anghydfodau o'r fath yn gwaethygu ac, yn y pen draw, yn cael eu cyfeirio i'r pwyllgor safonau yn dilyn ymchwiliad gan OGCC.

**ARGYMHELLION**

1. Nodi cynnwys y Protocol.
2. Rhoi cyfarwyddyd i'r Swyddog Monitro ysgrifennu at glercod ein cynghorau tref a chymuned lleol yn gofyn iddynt gadarnhau a ydynt wedi/a ydynt yn bwriadu mabwysiadu'r Protocol yn ffurfiol a'i ddefnyddio.
3. Penderfynu a ddylai'r Pwyllgor Safonau, mewn rhai amgylchiadau penodol / cyfyngedig (a chyda disgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Safonau), gynnig cymorth efallai i'r cynghorau tref a chymuned i weithredu'r Protocol.
4. Yn wyneb i'r atodiad i'r Protocol, sy'n cyfeirio at hyfforddiant cyfryngu, a yw'r Pwyllgor Safonau yn dymuno codi'r mater hwn, unwaith eto, gydag OGCC. Mae dyfyniad o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru 17 Hydref 2016 "Cwestiynau ar gyfer yr Ombwdsmon" ynghlwm yn **ATODIAD 3.**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

## Cyffredinol

1. Pwrpas y Protocol yw hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad, gyda golwg ar feithrin perthnasau gweithio cadarnhaol ymysg Aelodau, a rhwng Aelodau a Swyddogion, i osgoi cwynion annilys i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ac i ddiogelu enw da'r Cyngor.

2. Ni fydd y Protocol yn berthnasol ond mewn achosion o gamymddwyn gan Aelodau yn erbyn ei gilydd dan baragraffau 4(b) a 6(1)(d) y Côd Ymddygiad. Hynny yw, honiadau o fethu â dangos parch neu fod yn ystyriol o eraill, neu honiadau bod Aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu ddisylwedd yn erbyn Aelodau eraill neu unrhyw un sy’n gweithio i’r Cyngor neu ar ei ran.

3. Mae'r Protocol yn ceisio sicrhau cyfryngu a chymodi cyflym. Nid yw'n gosbol ond fe all fod yn berthnasol i gosbi os gwneir cwyn ffurfiol i’r OGCC mewn achos lle ceir patrwm o ymddygiad o’r fath.

4. Nid yw’r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd â disgyblaeth grŵp neu blaid.

5. Nid yw’r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd ag unrhyw hawliau statudol neu gontractyddol all fod gan Swyddogion.

6. Nid yw’r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli Awdurdod yr OGCC ond, yn hytrach i ddelio â chategori cyfyngedig o achosion, lle gallai paragraffau 4(b) neu 6(1)(d) y Côd fod wedi eu torri, ond lle na fyddai casgliad o'r fath mae’n debyg yn golygu y byddai camau disgyblu’n cael eu cymryd. Ni fyddai achosion o'r fath, yn unigol o leiaf, yn bodloni prawf trothwy’r OGCC ar gyfer ymchwilio iddynt.

## Gweithdrefn

7. Rhaid i Aelod neu Swyddog sy’n dymuno defnyddio'r Protocol roi eu cwyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro, gan egluro pryd a lle yr honnwyd bod y côd wedi ei dorri, sut a phaham y torrwyd paragraff 4(b) ac / neu 6(1)(d) ynghyd â manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

8. Rhaid anfon unrhyw gwyn ysgrifenedig i’r Swyddog Monitro cyn pen 7 niwrnod gwaith o ddyddiad y digwyddiad sy'n destun y gŵyn, neu 7 niwrnod gwaith o’r dyddiad pan ddaeth yr achwynydd i wybod am y digwyddiad.

9. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn anfon copi o'r gŵyn, ac unrhyw dystiolaeth gefnogol, i'r Aelod sy'n destun y gwyn. Bydd gan yr Aelod 7 niwrnod gwaith o’i dderbyn, ar gyfer anfon ateb ysgrifenedig i’r Swyddog Monitro yn egluro eu hymateb ac yn rhoi manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

10. Yn dilyn derbyn ateb gan yr Aelod y gwneir y gŵyn amdano/amdani, neu pan fo’r amser ar gyfer derbyn ateb wedi mynd heibio, bydd y Swyddog Monitro yn :-

- rhoi copi o’r ymateb llawn i'r achwynydd;

- yn trefnu cyfarfod o Banel anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau i ystyried y gŵyn ar y dyddiad cyntaf hwylus sydd ar gael i bawb sydd yn ymwneud â’r mater.

11. Bydd cyfarfod o Banel y Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnal yn breifat a bydd unrhyw waith papur y bydd yn ei dderbyn, neu y bydd yn ei gynhyrchu, yn parhau i fod yn gyfrinachol i'r Panel, ei ymgynghorwyr, ac i’r partïon. Mae hyn, fodd bynnag, yn amodol ar unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddatgelu e.e. i'r OGCC pe bai materion yn dwysau/datblygu ymhellach.

12. Bydd unrhyw Banel anffurfiol o'r Bwyllgor Safonau yn cynnwys dau Aelod o'r Pwyllgor, yn eu tro, ond ni fydd yn cynnwys Aelod Cyngor Cymuned.

13. Gofynnir i’r partïon fynychu'r Panel a byddant yn gyfrifol am ddod gyda hwy unrhyw dystion y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

14. Os na fydd unrhyw barti neu dyst yn bresennol, mater i’r Panel fydd penderfynu a fyddant yn symud ymlaen â’r mater, neu’n aildrefnu.

15. Pe bai’r achwynydd, neu’r Aelod y gwneir cwyn amdano/amdani yn Aelod o grŵp gwleidyddol, yna fe all wahodd eu Harweinydd Grŵp i fynychu'r Panel. Nid oes rhaid i unrhyw Arweinydd Grŵp perthnasol fynychu, ond anogir hwy i wneud hynny.

16. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn mynychu i gynghori'r Panel.

17. Bydd gweithdrefn unrhyw Banel yn un anffurfiol. Bydd y Panel yn gwneud pob ymdrech i fod yn deg a diduedd gyda’r ddau barti. Ni fydd unrhyw reolau tystiolaeth fel y cyfryw, ond ni fydd unrhyw dystion fydd yn cael eu galw ond yn mynychu i rannu eu gwybodaeth gyda’r Panel; ni fyddant yn 'eistedd i mewn' yn ystod y cyfarfod.

18. Ar ôl clywed gan y partïon, ac unrhyw dystion, ynghyd â'r Arweinyddion Grŵp (pe bai Arweinyddion Grŵp yn bresennol, a phe baent yn dymuno siarad gerbron y Panel,) bydd y Panel wedyn yn ymneilltuo i sesiwn breifat, ac yn dychwelyd i fynegi eu safbwynt a rhoi gerbron unrhyw argymhellion all fod ganddo ar gyfer datrys y sefyllfa. Nid oes gan y Panel unrhyw bwerau disgyblaethol ond fe all wneud argymhellion i'r Arweinyddion Grwpiau yn unigol, mewn perthynas ag Aelodau o'u grŵp ac, i'r Arweinyddion Grŵp gyda'i gilydd mewn perthynas ag unrhyw Aelod digyswllt.

19. Ni fydd unrhyw hawl i apelio dan y broses hon.

20. Bydd y partïon yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o gasgliadau'r Panel ac adroddir ar ganlyniad pob Panel, ond heb gynnwys enwau, i bob cyfarfod chwarterol o’r Pwyllgor Safonau.

21. Bydd canlyniad unrhyw Banel yn cael ei drafod hefyd fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd yr Arweinyddion Grŵp.

Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned

# UN LLAIS CYMRU

## Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned

### Cefndir

Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno â'r egwyddor y dylid cyfeirio rhai cwynion yn erbyn Aelodau yn ôl i Gynghorau Tref a Chymuned i'w datrys yn lleol. Fodd bynnag, hyd yn hyn ni fu proses gyffredin i'w dilyn gan Gynghorau Tref a Chymuned wrth ddelio â materion o'r fath, Er mwyn cynorthwyo'r sector, mae Un Llais Cymru wedi llunio'r model brotocol canlynol y gall unrhyw Gyngor Tref a Chymuned ei ddefnyddio wrth ddelio â chwynion o'r fath.

Bwriedir i'r model brotocol fod yn fan cychwyn i Gynghorau Tref a Chymuned. Efallai y bydd cynghorau unigol yn dymuno ychwanegu at y model neu ei addasu i'w wneud yn addas i'w hanghenion penodol nhw. Dylai cynghorau sy'n dymuno dewis y broses ofalu yn y lle cyntaf fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'i bwrpas a'i fwriad, ei fabwysiadu'n ffurfiol ar ei ffurf bresennol neu ar ffurf ddiwygiedig a gofalu fod pob Cynghorydd yn cael copi i'w sylw. Yna dylai'r Cyngor bennu'r fframwaith ar gyfer ei weithredu, a gall hynny olygu sefydlu Pwyllgor neu Banel neu ehangu cylch gorchwyl Panel neu Bwyllgor sy'n bod yn barod, megis Panel neu Bwyllgor Cwynion. Os mai'r bwriad yw sefydlu Panel newydd, mae'n bwysig fod cylch gorchwyl yn cael ei baratoi a'i fod yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor. Yn y naill sefyllfa a'r llall bydd yn bwysig i Gynghorau gofnodi yn y cylch gorchwyl beth fydd yn digwydd os yw'r aelod dan sylw'n dangos amharodrwydd i gydweithredu neu os yw pethau'n mynd ar chwâl wrth geisio gweithredu'r broses. Er enghraifft, mewn sefyllfaoedd o'r fath mae'n bosib mai'r drefn ddiofyn yw cyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

### Y Broses Datrysiad Lleol

**Materion y dylid eu hystyried o dan y broses hon**
Cwynion lefel isel am Aelodau, gan gynnwys:

- Mân gwynion gan Aelodau am Aelodau
- Mân gwynion gan Swyddogion am Aelodau
- Aelodau yr honnir iddynt fethu dangos parch ac ystyriaeth i eraill – naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig

**Materion na ddylid eu hystyried o dan y broses hon**
Mae'r cwynion y mae'n rhaid eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys:

- Cwynion a wneir gan aelod o'r cyhoedd
- Cwynion difrifol – torri'r Cod Ymddygiad/methiant i ddatgelu buddiannau/bwlïo/camddefnyddio swydd neu ymddiriedaeth/torri'r Cod dro ar ôl tro
- Cwynion a wnaed gan y Clerc/Swyddog Priodol
- Cwynion blinderus, maleisus neu wamal
- Cwynion Aelodau am swyddogion, y dylid delio â nhw trwy ddefnyddio proses cwynion mewnol y Cyngor

- Cwynion lefel isel ailadroddus

**Y Broses**

**Y gŵyn**
Byddai angen danfon y gŵyn at Glerc/Swyddog Priodol y Cyngor i gynnal didoliad cychwynnol i sicrhau fod y gŵyn ar lefel isel ac na ddylid delio â hi trwy gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon. Felly, os yn briodol, dylai'r Clerc/Swyddog Priodol geisio yn y lle cyntaf i gael datrysiad cynnar i unrhyw anghydfod o'r fath trwy drafod yn anffurfiol gyda'r aelodau unigol dan sylw cyn symud at y broses ddatrys a ddisgrifir isod. Mae'n hollbwysig fod yr aelod 'cyhuddedig' yn cael manylion llawn am y gŵyn yn eu herbyn fel eu bod yn enw cyfiawnder naturiol mewn sefyllfa i baratoi eu hymateb i'r cyhuddiad.

**Proses Datrysiad**
Rôl Cadeirydd/Is Gadeirydd y Cyngor yn y broses ganlynol yw peidio dyfarnu ar y gŵyn, ond yn hytrach ceisio cael yr Aelodau/swyddogion dan sylw i gytuno sut ellid datrys y mater(ion) mewn ffordd gyfeillgar.

Bydd y Clerc/Swyddog Priodol yn gweithredu'n hwylusydd ar gyfer y broses ddatrys isod.

Os yw'r gŵyn rhwng Aelodau ac eithrio Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc/Swyddog Priodol a'r Cadeirydd yn cyfarfod yn unigol â'r achwynydd a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os yw'r gŵyn rhwng Aelodau, ac os yw un ohonynt yn Gadeirydd y Cyngor, ond nid yr Is Gadeirydd, bydd y Clerc/Swyddog Priodol a'r Is Gadeirydd yn cyfarfod â'r achwynydd a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os gwnaed y gŵyn gan swyddog/gweithiwr, ond nid y Clerc/Swyddog Priodol, yn erbyn Aelod ac eithrio Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc/Swyddog Priodol a Chadeirydd y Cyngor yn cyfarfod â'r swyddog a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os gwnaed y gŵyn gan swyddog/gweithiwr, ond nid y Clerc/Swyddog Priodol, yn erbyn Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc/Swyddog Priodol ac Is Gadeirydd y Cyngor yn cyfarfod â'r swyddog a'r Cadeirydd i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os gwnaed y gŵyn gan y Clerc/Swyddog Priodol, mae'n debyg mai'r arfer gorau fyddai danfon y gŵyn ymlaen ar ffurf cwyn at yr Ombwdsmon.

**Canlyniadau posib y broses**
Os ceir cytundeb gan Aelodau a/neu swyddogion yn ystod y Cam hwn nid oes angen cymryd unrhyw gamau eraill.

Os na ellir cael cytundeb byddai gan yr Aelod/swyddog a wnaeth y gŵyn y cyfle o hyd i gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon.

Gallai enghreifftiau o gytundebau gynnwys llythyr yn ymddiheuro, addewid neu ymrwymiad ysgrifenedig i beidio torri'r Cod Ymddygiad yn y dyfodol, ymrwymiad i

dderbyn hyfforddiant neu gytundeb na ddylid, ar sail y dystiolaeth, cymryd unrhyw gamau pellach ac y dylid cau'r mater.

**Amser ar gyfer y broses**

Y bwriad yw y gellir cwblhau'r holl brosesau cyn gyflymed ag y bo modd er mwyn datrys y mater. Fodd bynnag, bydd yr union gyfnod o amser yn dibynnu ar argaeledd unigolion i ddod i'r cyfarfodydd.

***Pwyntiau Pwysig i'w Cofio wrth baratoi proses i'w defnyddio gan y Cyngor***

*Dylai'r Clerc/Swyddog Priodol, Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Cynghorau ystyried derbyn hyfforddiant priodol ar hwyluso a chyfryngu er mwyn bod mewn sefyllfa i sicrhau bod y broses hon yn gweithio ar ei gorau. Dylai Cynghorau sydd am ddilyn y llwybr hwn gysylltu ag Un Llais Cymru i gael arweiniad pellach.*

*Efallai y bydd Cynghorau am gynnwys rhai canllawiau pan mae cwynion y mae'n fwy priodol delio â nhw o dan y broses hon yn cael eu cyfeirio'n ôl at y Cyngor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wneud hynny'n ddi-gwestiwn os oes gan y Cyngor broses a gymeradwywyd.*

*Awgrymir fod unrhyw gyfarfodydd a gynhelir er mwyn trafod y cwynion a/neu i ddatrys materion yn cael eu cofnodi. Dylid gwneud hynny er mwyn sicrhau y cofnodir unrhyw gytundebau. Bydd hynny'n ddefnyddiol hefyd os yw pethau'n mynd ar chwâl neu'n gwaethygu ac os oes angen eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gall fod yn ddefnyddiol hefyd fod tystiolaeth ar gael pe bai achosion eraill o dorri'r Cod a chamymddwyn yn digwydd yn y dyfodol.*

*Mae angen i gynghorau fod yn glir am eu grymoedd o ran materion cod ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon wedi gweld enghreifftiau o gynghorau sydd wedi barnu ei bod yn briodol iddynt ymchwilio cwyn Cod Ymddygiad, penderfynu y torrwyd y Cod ac mae rhai hyd yn oed wedi barnu ei bod yn briodol iddynt ystyried cyflwyno cosb. Mae ymchwilio enghreifftiau posib o dorri'r Cod yn faterion i'r Ombwdsmon. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r awdurdod iddo gynnal ymchwiliadau o'r fath. Nid oes gan y Cyngor unrhyw awdurdod cyfreithiol i gynnal ymchwiliadau o'r fath nac i benderfynu a gafodd y Cod Ymddygiad ei dorri, gan mai penderfyniadau yw'r rheiny sydd ond yn gallu cael eu cymryd gan Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru.*

## MWY AM UN LLAIS CYMRU

Un Llais Cymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref trwy Gymru. Gweledigaeth Un Llais Cymru yw:

*"Gweithio gyda chynghorau lleol yng Nghymru i liwio lleoedd y mae cymunedau eisiau byw ynddynt"*

Mae Un Llais Cymru yn anelu at gefnogi Cynghorau Cymuned a Thref i wireddu'r weledigaeth hon a mabwysiadodd y Datganiad Cenhadaeth canlynol i lywio ei waith:

*"Cynrychioli buddiannau Cynghorau Cymuned a Thref; codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r haen gyntaf hon o lywodraeth a chydweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y sector yn cyfrannu'n llawn i'r nod o ddatblygu cymunedau deinamig a chynaliadwy yng Nghymru."*


Un Llais Cymru
24c Stryd y Coleg
Rhydaman
SA18 3AF
01269 595 400
gweinydd@unllaiscymru.org.uk

www.unllaiscymru.org.uk

**FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**
**17 HYDREF 2016**
**CWESTIYNAU I'R OMBWDSMON**

20. Ian Trigger, Cyngor Sir Ddinbych:
A yw'r Ombwdsmon yn ystyried y byddai pennu safonau sylfaenol a hyfforddiant gorfodol ar gyfer Clercod Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned o gymorth i gynnal safonau uchel o ymddygiad a gweithrediad Trefniadau Datrysiad Lleol yn y Cynghorau hynny?
Ombudsmon:
Ydw, er ein bod yn cytuno y byddai hyfforddiant yn y maes hwn yn arbennig o fuddiol os yw Clercod am fod â rôl yn y broses datrysiad lleol, nid yw hyn yn rhywbeth y gallwn ni fel sefydliad ddarparu adnoddau ar ei gyfer. Efallai y byddai sefydliadau megis Un Llais Cymru neu Gymdeithas y Clercod Lleol yn dymuno mynd ar ôl hyn.